

# Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1

Mehfin 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliad.cymru/SeneddMCD](http://www.cynulliad.cymru/SeneddMCD)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **[SeneddMCD@cynulliad.cymru](mailto:SeneddMCD@cynulliad.cymru)**

Twitter: **[@SeneddMCD](https://twitter.com/SeneddMCD)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1

Mehefin 2019



# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 15 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:  
[www.cynulliad.cymru/SeneddMCD](http://www.cynulliad.cymru/SeneddMCD)

---

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Mick Antoniw AC**  
Llafur Cymru  
Pontypridd

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Suzy Davies AC\***  
Ceidwadwyr Cymreig  
Gogledd Cymru



**Carwyn Jones AC**  
Llafur Cymru  
Pen-y-bont ar Ogwr



**Dai Lloyd AC**  
Plaid Cymru  
Gorllewin De Cymru

\* Cafodd y Bil ei gynnig gan Gomisiwn y Cynulliad. Felly, fel Comisiynydd y Cynulliad, ni fu Suzy Davies AC yn bresennol yn y cyfarfodydd lle trafodwyd y Bil.

Yn unol â Rheol Sefydlog 17.48, roedd David Melding AC yn dirprwyo ar ran Suzy Davies AC yn ystod trafodion Cyfnod 1 y Pwyllgor o'r Bil.



**David Melding AC**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Canol de Cymru

---

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Dawn Bowden AC**  
Llafur Cymru  
Merthyr Tudful a Rhymini



**Mandy Jones AC**  
Plaid Brexit  
Gogledd Cymru

# Cynnwys

<b>Argymhellion</b> .....	<b>5</b>
<b>1. Cyflwyniad</b> .....	<b>8</b>
Y cylch gorchwyl a'n dull gweithredu.....	8
Trafodaeth y Pwyllgor Cyllid ar y Bil .....	10
<b>2. Y cefndir</b> .....	<b>11</b>
Amserlen y digwyddiadau .....	11
Diben y Bil .....	12
<b>3. Cymhwysedd deddfwriaethol</b> .....	<b>14</b>
Cymhwysedd deddfwriaethol a hawliau dynol .....	14
Ein barn ni .....	15
<b>4. Egwyddorion cyffredinol</b> .....	<b>16</b>
Y dull o lunio'r ddeddfwriaeth .....	16
Bil Comisiwn y Cynulliad .....	16
Bil mwy pellgyrhaeddol .....	17
Un Bil ar ostwng yr oedran pleidleisio i 16 yn etholiadau'r Cynulliad ac etholiadau llywodraeth leol.....	19
Bil drafft .....	24
Hygyrchedd .....	25
Adran 27: Dyletswydd i ystyried diwygio'r modd y goruchwylir gwaith y Comisiwn Etholiadol.....	27
Gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill.....	30
Y Bil fel y'i cyflwynwyd.....	33
Amseru'r Bil .....	34
Darparu adnoddau ar gyfer y Bil .....	36
Y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd wedi'i gynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth.....	36
Ein barn ni .....	38

**5. Rhan 2 – Enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru..... 45**

Y dull gweithredu o ran newid yr enw .....	45
Dewis enw .....	48
Drafftio adran 2 o'r Bil .....	53
Ein barn ni .....	57

**6. Rhan 3 – Etholiadau..... 60**

Crynodeb byr o'r gyfraith etholiadol allweddol sy'n berthnasol i'r Bil .....	60
Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.....	60
Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001.....	61
Deddf Llywodraeth Cymru 2006 .....	61
Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 .....	61
Newidiadau deddfwriaethol i'r gyfraith etholiadol a gynigir gan y Bil .....	61
Estyn yr hawl i bleidleisio .....	63
Estyn yr hawl i bersonau 16 a 17 oed bleidleisio yn etholiadau'r Senedd .....	63
Ymgysylltu â phobl ifanc .....	67
Drafftio'r darpariaethau .....	69
Yr effaith ar ganran ac ymddygiad y pleidleiswyr .....	70
Estyn y bleidlais i wladolion tramor .....	72
Estyn y bleidlais i garcharorion .....	74
Ein barn ni .....	77
Cofrestru etholiadol.....	79
Y broses gofrestru.....	79
Canfasio blynyddol a diwygio'r canfasiad .....	81
Systemau Rheoli Etholiadol (EMS) .....	83
Diwygiadau gweinyddol .....	85
Plant sy'n derbyn gofal.....	87
Diogelu gwybodaeth am bobl ifanc .....	89
Ein barn ni .....	91

Codi ymwybyddiaeth ac addysg .....	93
Yr angen am waith codi ymwybyddiaeth ac addysg .....	93
Ymgysylltu â phobl ifanc .....	95
A oes amser i gyflawni hyn ar gyfer etholiad y Cynulliad yn 2021? .....	97
Y lefel bresennol o gymorth addysgol .....	99
Addysg yn y tymor hwy a'r cwricwlwm newydd .....	102
Codi ymwybyddiaeth y tu allan i'r system addysg .....	104
Ariannu'r ymgyrch codi ymwybyddiaeth ac addysg .....	105
Cydwethio a'r bwrdd rhanddeiliaid .....	107
Roedd dyletswydd yn y Bil yn ymwneud â chodi ymwybyddiaeth ac addysg .....	111
Ein barn ni .....	114
Goruchwylio'r gwaith o weinyddu etholiadau .....	117
Dyletswydd i ystyried diwygio'r modd y goruchwylir gwaith y Comisiwn Etholiadol .....	117
Ein barn ni .....	124
<b>7. Rhan 4 – Anghymhwysu .....</b>	<b>126</b>
Ystyried y newidiadau arfaethedig .....	128
Ein barn ni .....	132
<b>8. Rhan 5: Amrywiol .....</b>	<b>133</b>
Cyfarfodydd y Senedd .....	133
Amseriad y cyfarfod cyntaf .....	133
Ein barn ni .....	135
Gweithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith .....	135
Pŵer Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynghylch etholiadau etc .....	135
Ein barn ni .....	138
Pwerau Comisiwn y Senedd .....	139
Comisiwn y Senedd .....	139
Ein barn ni .....	139





## Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai pob Bil sy'n ymwneud â materion cyfansoddiadol sylweddol gael eu cyhoeddi ar ffurf drafft ac, yn unol â hynny, dylid cynnwys amser yn y broses ddeddfwriaethol i alluogi hyn i ddigwydd..... Tudalen 41

**Argymhelliad 2.** Dylid cyflwyno biliau i'r Cynulliad Cenedlaethol y gellir yn rhesymol ystyried eu bod wedi'u datblygu'n llawn ar adeg eu cyflwyno.. Tudalen 43

**Argymhelliad 3.** Os caiff y Bil ei basio, ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol, dylai Comisiwn y Cynulliad gyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o Atodiad 9 i'r Memorandwm Esboniadol..... Tudalen 43

**Argymhelliad 4.** Os bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Bil sy'n cynnwys darpariaethau i ostwng yr oedran pleidleisio i 16 ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, dylai sicrhau bod Memorandwm Esboniadol y Bil yn cynnwys Atodiad sy'n dangos sut y byddai'r ddeddfwriaeth bresennol yn cael ei diwygio. .... Tudalen 43

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil. .... Tudalen 44

**Argymhelliad 6.** Os yw Llywodraeth Cymru, fel y nodwyd, yn bwriadu cyflwyno gwelliannu i adran 2 o'r Bil fel y nodwyd yn llythyr y Cwnsler Cyffredinol ar 13 Mawrth 2019 atom, er mwyn osgoi amheuaeth, dylai ofyn i Lywodraeth y DU gyflwyno Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 109 o Ddeddf 2006 i addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn unol â hynny..... Tudalen 59

**Argymhelliad 7.** Dylai'r Llywydd gyhoeddi datganiad ysgrifenedig sy'n:

- nodi pwy sy'n gyfrifol am bob agwedd ar y newidiadau sydd eu hangen i'r prosesau gweinyddu a chofrestru etholiadol;
- ymdrin â'r pryderon cyllid a fynegwyd gan Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol a llywodraeth leol sy'n ymwneud â gweithredu diwygiadau i'r broses gofrestru etholiadol;
- nodi'r sefyllfa bresennol ar y diweddariadau sydd eu hangen i Systemau Rheoli Etholiadol ac egluro cost y diweddariadau..... Tudalen 92

**Argymhelliad 8.** Dylai'r Llywydd ystyried dichonoldeb diwygio'r Bil i greu dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o sut y gall plant sy'n derbyn gofal gofrestru fel etholwyr llywodraeth leol..... Tudalen 92

**Argymhelliad 9.** Yn ystod dadl Cyfnod 1, dylai'r Llywydd roi sicrwydd bod y cyngor gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi dod i law ac wedi'i ystyried yn briodol wrth ddrafftio'r Bil.....Tudalen 92

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried moderneiddio'r broses gofrestru etholiadol, gan gynnwys cofrestru pobl 16 oed yn awtomatig, dull cofrestru bloc, a digideiddio'r broses.....Tudalen 92

**Argymhelliad 11.** Dylai'r Llywydd gyhoeddi aelodaeth a chylch gorchwyl y grŵp rhanddeiliaid, gan gynnwys y cerrig milltir allweddol a'r amserlen ar gyfer cyflawni, cyn gynted â phosibl..... Tudalen 115

**Argymhelliad 12.** Dylai'r grŵp rhanddeiliaid lunio cynllun gweithredu ar gyfer cyd-gysylltu'r holl waith sy'n gysylltiedig â pharatoi deunyddiau addysgol a chodi ymwybyddiaeth ar gyfer etholiad y Cynulliad yn 2021, gan nodi llinellau atebolrwydd yn glir, yn ogystal â chyfrifoldeb am baratoi pob ffrwd waith benodol..... Tudalen 116

**Argymhelliad 13.** Ar ôl etholiad y Cynulliad yn 2021, dylai'r grŵp rhanddeiliaid gynnal adolygiad o'r etholiad i goladu'r gwersi a ddysgwyd er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu polisiau yn y dyfodol ac arwain ysgolion ar y ffordd fwyaf effeithiol o gyflwyno addysg am wleidyddiaeth a dinasyddiaeth fel rhan o'r cwricwla addysg presennol a newydd..... Tudalen 116

**Argymhelliad 14.** Dylai'r Gweinidog Addysg gyhoeddi datganiad ysgrifenedig yn esbonio sut y caiff addysg am ddinasyddiaeth a gwleidyddiaeth ei chyflwyno mewn pryd ar gyfer etholiad y Cynulliad yn 2021, gan gynnwys yr amserlen ar gyfer canllawiau cysylltiedig y mae'n bwriadu eu cyhoeddi..... Tudalen 116

**Argymhelliad 15.** Dylai'r Llywydd gyhoeddi datganiad ysgrifenedig cyn gynted â phosibl sy'n manylu ar y cyllid sy'n cael ei ddarparu gan bob corff sy'n cyfrannu at waith codi ymwybyddiaeth ac addysg yn barod ar gyfer etholiad y Cynulliad yn 2021.....Tudalen 117

**Argymhelliad 16.** Dylai'r Llywydd ddiwygio'r Bil i ddileu adran 27.....Tudalen 125

**Argymhelliad 17.** Yn niffyg Bil sy'n sefyll ar ei ben ei hun, dylai'r Bil llywodraeth leol sydd ar ddod gynnwys adrannau sy'n nodi trefniadau goruchwyllo manwl y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru gan y Cynulliad Cenedlaethol..... Tudalen 125

**Argymhelliad 18.** Dylai'r Llywydd a Llywodraeth Cymru fodloni eu hunain bod Atodlen 1A i Ddeddf 2006, fel y'i mewnosodwyd gan adran 29 o Ddeddf 2006, ac Atodlen 2 iddi, yn briodol..... Tudalen 132

**Argymhelliad 19.** Dylai'r Llywydd ddiwygio'r Bil i ddileu adran 36.....Tudalen 139

## 1. Cyflwyniad

Ar 12 Chwefror 2019, cyflwynodd y Llywydd, Elin Jones AC, y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) (y Bil)<sup>1</sup> a'r Memorandwm Esboniadol<sup>2</sup> cysylltiedig a gwnaeth ddatganiad ar y Bil yn y Cyfarfod Llawn y diwrnod canlynol<sup>3</sup>.

1. Yn ei gyfarfod ar 15 Ionawr 2019, cytunodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i ystyried yr egwyddorion cyffredinol (Cyfnod 1), yn unol â Rheol Sefydlog 26.9. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylem gyflwyno adroddiad erbyn 28 Mehefin 2019.<sup>4</sup>

### Y cylch gorchwyl a'n dull gweithredu

2. Ein cylch gwaith yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 21 (ac eithrio Rheolau Sefydlog 21.8-21.11), ac ystyried unrhyw fater cyfansoddiadol, deddfwriaethol neu lywodraethol arall sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â chymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol neu Weinidogion Cymru, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth.

3. At ddiben craffu ar y Bil, gwnaethom gytuno ar y cylch gorchwyl a ganlyn:

“Ystyried—

- egwyddorion cyffredinol y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), ac a oes angen deddfwriaeth er mwyn cyflawni'r amcanion polisi a nodwyd yn y Bil;
- unrhyw rwystrau posibl rhag rhoi'r darpariaethau hyn ar waith, ac a yw'r Bil yn rhoi ystyriaeth iddynt;
- a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil;

---

<sup>1</sup> [Bil Senedd ac Etholiadau \(Cymru\)](#) ar wefan y Cynulliad

<sup>2</sup> [Bil Senedd ac Etholiadau \(Cymru\): Memorandwm Esboniadol](#)

<sup>3</sup> Cofnod y Trafodion, Y Cyfarfod Llawn, 13 Chwefror 2019

<sup>4</sup> Y Pwyllgor Busnes, [Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer trafod y Bil Senedd ac Etholiadau \(Cymru\)](#), 13 Chwefror 2019

- goblygiadau ariannol y Bil (fel y nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol);
- priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir ym mhennod 6 o'r Memorandwm Esboniadol);
- materion sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys bod yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol;
- y cydbwysedd rhwng y wybodaeth sydd wedi ei chynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sydd mewn is-ddeddfwriaeth;
- unrhyw fater sy'n ymwneud ag ansawdd y ddeddfwriaeth;
- unrhyw fater arall sy'n gysylltiedig â goblygiadau cyfansoddiadol y Bil.

**4.** Rhwng 27 Chwefror a 12 Ebrill 2019, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus i lywio ein gwaith. Cawsom 639 o ymatebion (yr oedd dros 600 ohonynt yn rhan o ymgyrch ar y newid enw), a gyhoeddir ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.<sup>5</sup> At hynny, clywsom dystiolaeth lafar gan nifer o dystion. Mae rhestr o'r sesiynau dystiolaeth lafar wedi'i chyhoeddi ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.<sup>6</sup>

**5.** Fel rhan o'n gwaith craffu Cyfnod 1 ar y Bil, casglodd Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion) safbwyntiau pobl ifanc ar draws Cymru ar ostwng oedran pleidleisio isaf etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol i 16 oed ac unrhyw addysg gysylltiedig am wleidyddiaeth a dinasyddiaeth.

**6.** Casglwyd safbwyntiau drwy fwrdd trafod ar-lein o'r enw Senedd Dialogue ac yn ystod sesiynau grŵp ffocws gydag ysgolion a grwpiau ieuenctid. Cynhaliwyd y drafodaeth ar-lein am gyfnod o chwe wythnos rhwng 21 Mawrth a 2 Mai 2019.<sup>7</sup> Arweiniodd y drafodaeth at 43 o syniadau a 47 o sylwadau gan 42 o gyfranwyr rhwng 13 ac 21 oed ar draws pob un o bum rhanbarth y Cynulliad. Roedd yr ymatebwyr yn ddisgyblion ysgol neu'n fyfyrwyr coleg yn bennaf ac yn cynnwys nifer o Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru.

---

<sup>5</sup> [Bil Senedd ac Etholiadau \(Cymru\), ymatebion i'r ymgynghoriad](#)

<sup>6</sup> [Bil Senedd ac Etholiadau \(Cymru\), rhestr o'r dystiolaeth lafar](#)

<sup>7</sup> Senedd Dialogue: [Dywedwch eich dweud am addysg wleidyddol a dinasyddiaeth!](#)

---

- 7.** Bu'r Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion hefyd yn cyfweld â nifer o randdeiliaid, ac mae fideos o'r cyfweiliadau hynny ar gael ar wefan y Cynulliad.<sup>8</sup>
- 8.** Yn ein rôl graffu mewn perthynas â phob Bil, rydym yn ystyried, ymhlith pethau eraill, y dull o ddeddfu a ddefnyddir. Yn sgil y dystiolaeth a gawsom ac a glywsom, mae ein hystyriaeth arferol o'r mater hwn wedi'i chynnwys ym mhennod 4 ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Yn 2015, cyhoeddodd y pwyllgor a'n rhagflaenodd yn y Pedwerydd Cynulliad ei adroddiad, sef *Deddfu yng Nghymru*.<sup>9</sup> Mae ein hystyriaeth o'r Bil yn defnyddio'r gwaith hwnnw. Felly, dylid ystyried cyfeiriadau yn yr adroddiad at adroddiad "*Deddfu yng Nghymru*" fel cyfeiriad at waith y Pwyllgor a'n rhagflaenodd.
- 9.** Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd at ein gwaith.

### Trafodaeth y Pwyllgor Cyllid ar y Bil

- 10.** Cymerodd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad dystiolaeth ar oblygiadau ariannol y Bil ac mae ei adroddiad ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.<sup>10</sup>

---

<sup>8</sup> [Bil Senedd ac Etholiadau \(Cymru\)](#), cyfweiliadau fideo

<sup>9</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Deddfu yng Nghymru](#), 8 Hydref 2015

<sup>10</sup> Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

---

## 2. Y cefndir

### Amserlen y digwyddiadau

- 11.** Mae'r Bil yn rhan o raglen ddiwygio a gafodd ei dechrau gan Gomisiwn y Cynulliad, sydd hefyd yn cynnwys cynyddu maint y Cynulliad a newid y system etholiadol (yn amodol ar sicrhau cefnogaeth drawsbleidiol).<sup>11</sup>
- 12.** Ym mis Rhagfyr 2016, cyhoeddodd Comisiwn y Cynulliad bapur ymgynghori ar newid enw'r Cynulliad Cenedlaethol,<sup>12</sup> a oedd yn cynnwys Bil drafft wedi'i anodi. Cyhoeddodd ganlyniadau ei ymgynghoriad ym mis Mehefin 2017<sup>13</sup>.
- 13.** Ym mis Chwefror 2017, cyhoeddodd y Llywydd fod Comisiwn y Cynulliad wedi sefydlu Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad (Panel Arbenigol) i ddarparu cyngor gwleidyddol diduedd ar nifer yr Aelodau Cynulliad, y system etholiadol fwyaf addas, a'r oedran pleidleisio lleiaf ar gyfer etholiadau'r Cynulliad.<sup>14</sup> Roedd hyn yn dilyn cyhoeddiad Comisiwn y Pumed Cynulliad ym mis Tachwedd 2016<sup>15</sup> ei fod yn bwriadu edrych ar ddefnyddio pwerau newydd y Cynulliad Cenedlaethol o dan *Ddeddf Cymru 2017* i fynd i'r afael â chapasiti'r Cynulliad (a ystyriodd adroddiad ei ragflaenydd ym mis Ionawr 2015 ynghylch *Dyfodol y Cynulliad: sicrhau capasiti i gyflawni ar gyfer Cymru*)<sup>16</sup>.
- 14.** Cyflwynodd y Panel Arbenigol adroddiad ym mis Tachwedd 2017<sup>17</sup> a chynhaliodd Comisiwn y Cynulliad ymgynghoriad ar yr adroddiad hwnnw ym mis Chwefror 2018.<sup>18</sup> Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddodd y Llywydd, fel Cadeirydd

---

<sup>11</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraffau 5-7. Gweler hefyd wybodaeth ar dudalennau gwe Comisiwn y Cynulliad [Adnewyddu Ein Democratiaeth](#)

<sup>12</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Comisiwn y Cynulliad, [Ymgynghoriad: Newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru](#), Rhagfyr 2016

<sup>13</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Comisiwn y Cynulliad, [Adroddiad ar ganlyniadau'r ymgynghoriad newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru](#), Mehefin 2017

<sup>14</sup> Elin Jones AC (Llywydd), [Y Llywydd yn cyhoeddi panel arbenigol i gefnogi gwaith ar ddiwygio trefniadau etholiadol](#), Datganiad Ysgrifenedig, 1 Chwefror 2017

<sup>15</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Y Comisiwn yn cytuno ar ei uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol](#), Newyddion, 14 Tachwedd 2016

<sup>16</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Comisiwn y Cynulliad, [Dyfodol y Cynulliad: sicrhau capasiti i gyflawni ar gyfer Cymru](#), Ionawr 2015

<sup>17</sup> [Senedd sy'n Gweithio i Gymru, Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad](#), Tachwedd 2017

<sup>18</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Comisiwn y Cynulliad, [Creu Senedd i Gymru](#), Chwefror 2018

Comisiwn y Cynulliad, ddatganiad ysgrifenedig<sup>19</sup> a chyhoeddodd grynodedb o ganfyddiadau'r ymgynghoriad<sup>20</sup>. Cyhoeddwyd adroddiad ymgynghori llawn ym mis Hydref 2018.<sup>21</sup>

## Diben y Bil

**15.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai'r Bil yw rhan gyntaf strategaeth ddeddfwriaethol dau gam i ddatblygu rhaglen ddiwygio, dan arweiniad Comisiwn y Cynulliad i sicrhau bod y Cynulliad Cenedlaethol yn sefydliad hygyrch, blaengar sy'n gwasanaethu pobl Cymru yn effeithiol.<sup>22</sup>

**16.** Nod y Bil yw:

- newid enw'r sefydliad o Gynulliad Cenedlaethol Cymru (National Assembly for Wales) i "Senedd", a gwneud newidiadau canlyniadol i enwau, teitlau a disgrifiadau perthnasol (Rhan 2, adrannau 2 i 9);
- gostwng yr oedran isaf ar gyfer pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad i 16 oed, a diwygio'r trefniadau cofrestru etholiadol cysylltiedig (Rhan 3, adrannau 10 i 26 ac 28);
- gosod dyletswydd ar y Cynulliad Cenedlaethol i ystyried y trefniadau ariannol a goruchwylio ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru a refferenda datganoledig (Rhan 3, adran 27);
- diwygio'r gyfraith sy'n ymwneud ag anghymhwysu person rhag bod yn Aelod o'r Cynulliad (Rhan 4, adrannau 29 i 34);
- estyn y dyddiad olaf ar gyfer cyfarfod cyntaf y Cynulliad Cenedlaethol ar ôl etholiad (Rhan 5, adran 35);
- cyflwyno pŵer i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith (Rhan 5, adran 36);

---

<sup>19</sup> Comisiwn y Cynulliad, Elin Jones AC (Llywydd), [Blaenoriaethau'r Comisiwn o ran Diwygio'r Cynulliad yn dilyn canlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus "Creu Senedd i Gymru"](#), Datganiad Ysgrifenedig, 18 Gorffennaf 2018

<sup>20</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Comisiwn y Cynulliad, [Ymgynghoriad ar Creu Senedd i Gymru: Crynodeb o'r prif ganfyddiadau](#), Gorffennaf 2018

<sup>21</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Comisiwn y Cynulliad, [Creu Senedd i Gymru: Adroddiad ar yr ymgynghoriad](#), Hydref 2018

<sup>22</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraffau 5-6.

---



- egluro pwerau Comisiwn y Cynulliad i godi tâl am nwyddau a gwasanaethau (Rhan 5, adran 37).

### 3. Cymhwysedd deddfwriaethol

Cyflwynodd *Deddf Cymru 2017* fodel cadw pwerau o gymhwysedd deddfwriaethol i Cymru, gan ddiwygio *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006) i roi adran 108A (cymhwysedd deddfwriaethol) newydd yn lle'r adran 108 bresennol ac Atodlenni 7A (materion a gedwir yn ôl) a 7B (cyfyngiadau cyffredinol) ar gyfer yr Atodlen 7 gynt.

#### Cymhwysedd deddfwriaethol a hawliau dynol

**17.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi fel a ganlyn:

“Ni ystyrir bod unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Bil yn dod o fewn unrhyw rai o'r cymalau cadw yn Atodlen 7A.”<sup>23</sup>

**18.** Mae hefyd yn ystyried i ba raddau y mae angen cydsyniad gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru (yr Ysgrifennydd Gwladol) ac yn nodi fel a ganlyn:

“Mae adrannau 12 i 25 o'r Bil yn rhoi a/neu'n addasu amryfal swyddogaethau Swyddog Cofrestru Etholiadol. Mae swyddfa'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn “awdurdod a gedwir yn ôl” ac mae angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol er mwyn i'r darpariaethau hyn fod o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Cafodd y darpariaethau hyn gydsyniad ym mis Chwefror 2019.”<sup>24</sup>

**19.** Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi bod “holl ddarpariaethau'r Bil yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Ddiogelu Hawliau Dynol a Rhyddid Sylfaenol (y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol)”.<sup>25</sup> Wrth ddod i'r farn hon, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y gall nifer o ddarpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â'r etholfraint ac anghymhwyso person rhag bod yn Aelod Cynulliad fod yn berthnasol i Hawliau'r Confensiwn a chaiff y materion hyn eu trafod ym mhennod 17.<sup>26</sup>

---

<sup>23</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 14

<sup>24</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 20

<sup>25</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 22

<sup>26</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, pennod 17 (Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb)

**20.** Dywedodd y Llywydd y canlynol wrthym:

“... I’ve taken the view that the Bill is in competence, as it has been introduced, and that view has been concurred by the Deputy Presiding Officer. Minister of Crown consents, of course, were part of the competence issue, and that consent was forthcoming. That issue was around the electoral registration officers.

On the name change and the drafting of the clauses in relation to the name change, the explanatory memorandum itself, as well as the correspondence you’ve referred to from Welsh Government and the Secretary of State, goes into some of the considerations on competence or various ways of drafting that clause, and the Counsel General has outlined a different form of drafting that he considers to be within competence.”<sup>27</sup>

## Ein barn ni

**21.** Rydym yn nodi barn y Llywydd bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

**22.** Cafodd materion sy’n ymwneud â newid gwaith drafftio presennol adran 2 o’r Bil mewn perthynas â newid enw ac sy’n ymwneud â materion cymhwysedd deddfwriaethol eu codi mewn tystiolaeth. Trafodir y rhain ym mhennod 5 o’r adroddiad.

---

<sup>27</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth, Cofnod y Trafodion [42-43]

---

## 4. Egwyddorion cyffredinol

### Y dull o lunio'r deddfwriaeth

#### Bil Comisiwn y Cynulliad

---

**23.** Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol yn caniatáu i Comisiwn y Cynulliad gyflwyno Bil sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Comisiwn. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

“Nid yw swyddogaethau'r Comisiwn wedi'u diffinio'n glir mewn deddfwriaeth. Felly, mae'n agored i'r Cynulliad benderfynu ar swyddogaethau'r Comisiwn. Yr unig gyfyngiad yw bod rhaid i'r swyddogaethau fod yn gyfreithlon. Er mwyn pennu barn y Cynulliad a sicrhau bod gan y Comisiwn sail weithdrefnol gadarn i gyflwyno deddfwriaeth, ceisiwyd cymeradwyaeth y Cynulliad i gyflwyno Bil. Cafodd cynnig yn y Cyfarfod Llawn i ganiatáu i'r Comisiwn gyflwyno deddfwriaeth ar y materion a gynhwyswyd yn y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) ei gyflwyno i'w drafod ar 10 Hydref 2018 a'i dderbyn gan y Cynulliad.”<sup>28</sup>

**24.** Dywedodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol Comisiwn y Cynulliad y canlynol wrthym:

“... the function of the Commission is to, among other things, provide services for the purposes of the Assembly. The purposes of the Assembly are not set out in legislation, so the Assembly has a wide discretion to set its own purposes, provided that those purposes are lawful and, of course, this Bill relates to matters that are within the legislative competence of the Assembly. A motion in the Assembly doesn't change the powers of the Commission, because a motion in the Assembly could not do that—it would require legislation—but the purpose of the mandate was to be absolutely clear that the Assembly agreed that the bringing forward of this Bill is within its purposes.”<sup>29</sup>

**25.** Pan holwyd y Cwnsler Cyffredinol ynghylch defnyddio Bil Comisiwn y Cynulliad, dywedodd y canlynol:

---

<sup>28</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 10

<sup>29</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [8]

“Well, I think elsewhere, clearly, these matters are dealt with by Government Bills typically, as I understand it, so it is novel in that sense for it to be brought forward by the Commission, but I do think we ought to give weight to the factor of building a consensus around areas where some of these are more politically-charged areas than others, aren’t they, for reasons that we perhaps all understand. And I think the Llywydd, if I may say, has a particular role in seeking to build that consensus. So, that, I think, tends to support that route, and I think that’s why we find ourselves debating this kind of Bill.”<sup>30</sup>

**26.** Cafwyd cefnogaeth gan yr Athro Laura McAllister, Cadeirydd y Panel Arbenigol<sup>31</sup>; yr Athro Keith Bush QC<sup>32</sup> a’r Athro Roger Awan-Scully<sup>33</sup> i’r egwyddor bod Comisiwn y Cynulliad yn cyflwyno’r Bil.

Bil mwy pellgyrhaeddol

---

**27.** Roedd cyhoeddi adroddiad y Panel Arbenigol, sef *Senedd sy’n Gweithio i Gymru*, yn rhagflaenydd i baratoi’r Bil. Fel y nodwyd yn gynharach, cynigiodd yr adroddiad raglen ddiwygio ehangach, gan gynnwys cynnydd yn nifer Aelodau’r Cynulliad, ynghyd â newid yn y ffordd y dylid eu hethol. Gwnaethom drafod, felly, a ddylai’r Bil a gyflwynwyd gan Gomisiwn y Cynulliad fod wedi bod yn fwy uchelgeisiol.

**28.** Esboniodd y Llywydd na allai’r Bil fod yn gyfrwng i gynyddu nifer Aelodau’r Cynulliad a’r dull o ethol am y rheswm a ganlyn:

“... not clear to me whether there was a working majority or a supermajority of 40 of 60 Members who were keen to move in a particular way, in line with the Laura McAllister recommendations. And I think that some of the political parties are still discussing that within the nature of their political democratic structures.”<sup>34 35</sup>

---

<sup>30</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [154]

<sup>31</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 25 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [123]

<sup>32</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 25 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [150]

<sup>33</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 25 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [251-2]

<sup>34</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [12]

<sup>35</sup> Cyflwynodd *Deddf Cymru 2017* feysydd cymhwysedd ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol yr oedd yn eu diffinio fel materion gwarchoddedig, fel yr amlinellir yn yr Adran 111A newydd o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae’n ei gwneud yn ofynnol, os bydd y Llywydd, neu’r Dirprwy Lywydd, yn penderfynu bod unrhyw ddarpariaeth yn y Bil yn ymwneud â mater gwarchoddedig, na fydd y

**29.** Dywedodd yr Athro McAllister y canlynol wrthym:

“So, if you’re asking me, ‘Should more of the expert panel recommendations have been put into a Bill at this stage?’ then my obvious answer is ‘yes’. But I understand, obviously, the constitutional constraints around ensuring that you can gain a supermajority for any constitutional change, and, of course, these areas have huge political delicacy ... But, from our own point of view, we saw these three areas of size, electoral system reform and votes at 16 as being part of a package of democratic renewal, and I hope that all of it will come to fruition at some point. But, in an ideal world, it would have been good to see these in one Bill together, but I appreciate the reasons why that was unlikely to happen.”<sup>36</sup>

**30.** Er bod Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru yn cefnogi'r Bil ac estyn yr etholfraint i bobl 16 a 17 oed, roedd yn siomedig na chafodd y diwygiadau eraill o ran maint y Cynulliad Cenedlaethol a'i ddull o ethol, ochr yn ochr ag argymhellion ynghylch cwotâu rhywedd integredig, eu cynnwys yn y Bil.<sup>37</sup> Teimlwyd ei bod yn hanfodol nad yw mater sy'n ymwneud â maint y Cynulliad yn cael ei anwybyddu.<sup>38</sup> Yn ôl y Gymdeithas, byddai estyn yr etholfraint yn arwain at nifer ychwanegol o bobl ar y gofrestr etholiadol, sy'n golygu mwy o bwysau ar Aelodau'r Cynulliad pan maent eisoes dan straen.<sup>39</sup>

**31.** Dywedodd Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru y canlynol wedi hynny:

“From a political point of view, I think it’s really unlikely that the size and the electoral system issue ... would be agreed in time to pass this Bill, in time for the roll-out of political education, the work that the electoral registration officers need to do to extend the franchise in time for the next election.”<sup>40</sup>

**32.** Pan holwyd yr Athro Awan-Scully a ddylai'r Bil fod wedi bod yn un cynhwysfawr ar gyfer pob etholiad, dywedodd “efallai mewn egwyddor y buasai wedi bod yn well i gael dim ond un Bil”.<sup>41</sup> Cydnabu'r realiti wleidyddol o ran pam

---

Bil yn cael ei basio oni bai bod o leiaf ddwy ran o dair o Aelodau'r Cynulliad yn pleidleisio o'i blaid yn y cyfnod olaf.

<sup>36</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 25 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [110]

<sup>37</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [4]

<sup>38</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, SE04, Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru (Saesneg yn unig)

<sup>39</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, SE04, Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru (Saesneg yn unig)

<sup>40</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [20]

<sup>41</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 25 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [250]

na chafodd agweddau mewn perthynas â nifer fwy o Aelodau'r Cynulliad eu cynnwys yn y Bil<sup>42</sup> a dywedodd y canlynol wrthym:

“... o ystyried y ffaith bod newid y system etholiadol mewn ffordd eithaf sylfaenol yn rhywbeth anodd, yn arbennig pan rŷm ni'n cofio bod rhaid i ni gael mwyafrif mawr y Cynulliad, dwi'n meddwl ei fod yn gwneud llawer o synnwyr—i mi, o leiaf—i ddatblygu Bil cyntaf i wneud popeth sy'n bosibl ei wneud ar hyn o bryd, a wedyn, ar ôl ychydig mwy o amser, ystyried, efallai ar ôl datblygu consensws, trio cael ail Fil yn dod i fewn yn delio gyda'r pethau anoddach. Dwi'n dal i feddwl y bydd yn anodd iawn i gyrraedd consensws ar system etholiadol hollol newydd.”<sup>43</sup>

**33.** Pan holwyd yr Athro Bush QC a fyddai wedi bod yn well cynnwys yr holl newidiadau (gan gynnwys mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol) yn y Bil, dywedodd nad oedd ganddo deimladau cryf, gan ddweud y canlynol:

“Dwi ddim, yn bersonol, yn gweld beth yn y pen draw ydy'r gwahaniaeth, achos rŷn ni'n sôn am newid y gyfraith, ac nid yw'r broses o fynd o gwmpas newid y gyfraith yn effeithio ar beth yw'r canlyniad yn y pen draw.”<sup>44</sup>

Un Bil ar ostwng yr oedran pleidleisio i 16 yn etholiadau'r Cynulliad ac etholiadau llywodraeth leol

---

**34.** Dywedodd y Llywydd y canlynol wrthym:

“... fod Llywodraeth Cymru eu hunain wedi datgan bwriad i gyflwyno deddfwriaeth fydd yn cyflwyno pleidleisiau i bobl ifanc 16 ac 17 oed ar gyfer etholiadau llywodraeth leol. O ran y Mesur hwnnw, a fydd yn cael ei gyflwyno ar ryw bwynt yn y dyfodol agos gan Lywodraeth Cymru, yna, wrth gwrs, mae'r ddeddfwriaeth honno yn symud yn ei blaen yn annibynnol o'n deddfwriaeth ni, oherwydd mae ein deddfwriaeth ni angen 40 o 60 o Aelodau'r Cynulliad yma i fod yn pleidleisio o blaid unrhyw ddeddfwriaeth gyfansoddiadol o'r math yma, ac mae Llywodraeth Cymru, yn ddealladwy iawn, wrth gwrs, wrth gyflwyno deddfwriaeth ar lywodraeth leol yn gyffredinol, yn dymuno bod y

---

<sup>42</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 25 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [271]

<sup>43</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 25 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [250]

<sup>44</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 25 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [148]

---

ddeddfwriaeth honno dim ond—wel, dwi'n dweud 'dim ond'—ond yn cael ei bleidleisio gan fwyafrif syml o'r Cynulliad Cenedlaethol."<sup>45</sup>

**35.** Cydnabu'r Llywydd y byddai rhywfaint o werth mewn newid yr etholfraint i bobl 16 a 17 oed mewn un darn o ddeddfwriaeth, ond esboniodd, yn ogystal â'r angen am uwch fwyafrif, fod y canlynol yn rheswm arall dros beidio â dilyn etholfraint llywodraeth leol o fewn Bil y Comisiwn:

"... feeling that that started, then, to take a piece of legislation in my name, as Member in charge, into Government policy and that it wasn't appropriate for the Llywydd to lead on a policy change for local government election franchise."<sup>46</sup>

**36.** Serch hynny, dywedodd y canlynol:

"... anything that we are doing in terms of franchise in this Bill, we are anticipating that Welsh Government are going to do in terms of franchise on 16 and 17-year-olds for local government elections."<sup>47</sup>

**37.** Ymhelaethodd y Llywydd ar y dull gweithredu a fabwysiadwyd, gan ddweud y canlynol:

"Obviously, working towards having one franchise for both Assembly and local government has been—and is—an aspiration of both Welsh Government and myself. I've had no indication from Welsh Government that their Bill, their local government Bill, will not be in place for the 2022 election, and, from my meeting last week with the Minister, she was able to confirm once again that they were working to a timetable that would enable that. Obviously, the history of this Bill has meant that the local government Bill and the relationship to this Bill has changed; it was flipped in terms of timetabling as a result of some of the issues that you've alluded to. Where we had expected our Bill to be linked to the local government franchise and the local government Bill, that was then changed because of the need to timetable the Bills in a way where our Bill would have to go first and the franchise provisions put in this Bill rather than linked from this Bill to a local government Bill. So, on the whole, we are where we are with all of that, but I know that

---

<sup>45</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [16]

<sup>46</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019 [119]

<sup>47</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [40]



Welsh Government are keen for both sets of elections—2021 and 2022—to have a franchise that includes 16 and 17-year-olds.”<sup>48</sup>

**38.** Mewn llythyr dilynol, dywedodd y canlynol wrthym:

“O’m safbwynt i, y prif beth sydd ei angen ar gyfer y Bil hwn yw sicrhau bod etholfraint y Cynulliad yn asio ag anghenion etholiadau’r Cynulliad. Byddwn yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y materion o ran cysondeb, eglurder a chyfleustra mewn unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol sy’n ymwneud â’r etholfraint Llywodraeth Leol.

Mae eisoes yn wir bod gwahanol bobl yn gallu pleidleisio yn etholiadau Seneddol y DU, o’u cymharu â’r rhai sy’n gallu pleidleisio yn etholiadau llywodraeth leol a’r Cynulliad. Felly, os bydd gwahaniaeth yn yr etholfraint, mae gan y gymuned etholiadol a’r systemau etholiadol brofiad eisoes o reoli hynny, fel arfer drwy farcio’r cofrestrau etholiadol yn briodol.”<sup>49</sup>

**39.** Dywedodd Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru y canlynol wrthym:

“... for us, the ideal situation would be the extension of the franchise for Assembly and local government elections at the same time, and I think that would just be in terms of practicality of registration and making sure that the electoral roll for both elections was up to date. The delay in the local government Bill I think is unfortunate. I don’t think it completely undermines this Bill at all. I think it just makes the situation slightly more complicated for electoral registration officers and will make sure that they have to do two visits and two registration drives.”<sup>50</sup>

**40.** Ychwanegodd y Gymdeithas y canlynol:

“In an ideal world, absolutely, there should be a single Bill for the extension of the franchise for both local government and Assembly elections. What makes that difficult is both the timescale that the Assembly Commission and Welsh Government are working to—they are very different—but also the degree to which this Bill needs support in the Chamber. I think it is therefore fair to make sure that the local government situation is dealt with separately, and obviously, that being

---

<sup>48</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019 [176]

<sup>49</sup> Llythyr gan y Llywydd, Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), 16 Mai 2019

<sup>50</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [68]

a more comprehensive Bill also lends itself to being dealt with separately.”<sup>51</sup>

**41.** Soniodd Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol (Solace) fod cael dau Fil ychydig yn ddrylyd<sup>52</sup> gan ddweud y canlynol hefyd:

“You might wish to question ... why ... we are separating the franchise for the two devolved elections into two different Bills when it’s the same register. It would be much easier for us administratively, even if there were other local government electoral reforms to come in the later Bill. Question: should they both be combined in this Bill? I would say ‘yes’, because it’s the same register and we’re doing the same change with the same intent for both. I would ask you to consider why that couldn’t be imported into this Bill in good time, which would ease the administrative risks too.”<sup>53</sup>

**42.** Ychwanegodd Solace y canlynol:

“... the franchise is the franchise. If there’s popular and political support for it to change for one election, it will be there for the other. I have no reason to believe that the local government Bill wouldn’t follow in good time, but if it didn’t for some reason, wouldn’t it be a travesty if young people were enabled and given power for one key election and then, the following year, weren’t able to exercise it? It’s more for administrative convenience and public certainty, but it also would eliminate that risk too.”<sup>54</sup>

**43.** Nid oedd yn hollol glir i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) pam y mae elfen etholfraint y Bil llywodraeth leol ac etholiadau ar wahân i’r Bil.<sup>55</sup>

**44.** Roedd yr Athro Awan-Scully yn teimlo y byddai defnyddio un Bil yn well yn ddelfrydol,<sup>56</sup> er nad oedd aelod o’r cyhoedd yn deall pam roedd yr etholfraint rhwng etholiadau llywodraeth leol ac etholiadau’r Cynulliad yn cael ei gwahanu, gan ddweud y canlynol:

---

<sup>51</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [72]

<sup>52</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [228]

<sup>53</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [257]

<sup>54</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [260]

<sup>55</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [259]

<sup>56</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 25 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [242]

“It creates more work for electoral administrators. They’ll need a parliamentary list, local government list and now this weird different list of electors for Assembly elections. With resources tight, things could go wrong. This way of doing things is also untested in the UK- Scotland made franchise changes for LG / SParlliament at the same time.

It confuses voters. A 16 year old could vote in the Assembly election in May 2021. That very same person would not be allowed to vote in a local gov by election that very same day or even within the following year. This is weird and could cause confusion / apathy. I understand another Bill will make changes for LG voters. But what if that Bill fails to pass? You’d have voters that are different between devolved elections. This seems odd.”<sup>57</sup>

**45.** Roedd y Comisiwn Etholiadol<sup>58</sup> yn meddwl y canlynol:

“... we might see other elements of franchise change included in the local government Bill. We’ve seen some things in the pre-legislative consultation. From our perspective as a commission, the key thing will be effective public awareness ahead of any election that would explain to people who can and who can’t take part in that election, and that doesn’t just fall within any mass media work or campaign; it will also fall within political literacy and schools’ formal education work as well... We would manage it, but, certainly, there’s a risk of voter confusion there, and indeed in terms of the divergence of the register.”<sup>59</sup>

**46.** Nododd yr Ymddiriedolaeth hefyd:

“Our concern is with confusion, rather than with are there two Bills or how things go through. It’s the objective, and, if the objective is the same, then I think we’re comfortable with trying to extend that public awareness.”<sup>60</sup>

---

<sup>57</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE02, unigolyn dienw (Saesneg yn unig)

<sup>58</sup> Mae cyfeiriadau at y Comisiwn Etholiadol yn gyfeiriadau at gyfraniadau a wnaed mewn tystiolaeth ysgrifenedig ac mewn tystiolaeth lafar gan Gomisiynydd Etholiadol Cymru, Pennaeth y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru neu Brif Weithredwr y Comisiwn Etholiadol.

<sup>59</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [87]

<sup>60</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [90]

---

**47.** Ychwanegodd, er bod risgiau clir, fod problemau clir. Pe bai etholfraint wahanol mewn un etholiad i'r etholiad arall, os mai hwnnw yw ewyllys y lle hwn, y byddent yn gwneud iddo weithio ryw ffordd.<sup>61</sup>

**48.** Tynnodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol sylw hefyd at y risgiau posibl a allai ddeillio o gael etholfreiniau sy'n dargyfeirio:

“... divergences between the local government and Assembly franchises would create the potential for confusion, both amongst the electorate and those responsible for administering elections, which in turn could impact on voter engagement.”<sup>62</sup>

#### Bil drafft

---

**49.** Mae Memorandwm Esboniadol y Bil yn esbonio nad ystyriwyd bod modd ymgynghori ar Fil drafft yn ymwneud â'r darpariaethau pleidleisiau yn 16 oed:

“Nid oedd modd cynnwys testun y darpariaethau drafft yn yr ymgynghoriad dilynol yn ceisio barn am argymhellion y Panel Arbenigol, ac am ddiwygiadau eraill i drefniadau etholiadol a gweithredol y Cynulliad. Byddai'r amserlenni ar gyfer datblygu darpariaethau o'r fath wedi achosi oedi sylweddol i'r ymgynghoriad, ac ni fyddai modd i'r ddeddfwriaeth ofynnol fod ar waith erbyn etholiad y Cynulliad yn 2021. Yn lle hynny, bu'r Comisiwn yn cydweithio'n agos ag amryw randdeiliaid i ddatblygu'r ddeddfwriaeth hon a bu eu safbwyntiau'n allweddol wrth baratoi darpariaethau'r Bil. Roedd hyn yn cynnwys deialog reolaidd â phleidiau gwleidyddol trwy gydol y broses o ddatblygu'r Bil a cheisio barn rhanddeiliaid allanol yn enwedig y rheini ag arbenigedd ar faterion etholiadol. Yn ychwanegol at hyn, cafodd Aelodau Cynulliad unigol a'r cyhoedd y wybodaeth ddiweddaraf am benderfyniadau polisi'r Comisiwn mewn perthynas â'r Bil drwy gyfrwng datganiadau rheolaidd a chyhoeddiadau.”<sup>63</sup>

**50.** Pan holwyd y Llywydd, dywedodd wrthym fod Bil drafft ar y newid enw oherwydd bod mandad cynnar a phenderfyniad i ddeddfu ar y newid enw.<sup>64</sup> Pan gafodd ei holi ymhellach ar agweddau eraill, dywedodd y canlynol:

---

<sup>61</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [91]

<sup>62</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE14, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Saesneg yn unig)

<sup>63</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, troednodyn 25

<sup>64</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [133]

---

“Well, I completely accept that it’s not a perfect piece of timed legislation where everything that could possibly be put into a Bill of constitutional significance is put into the one Bill and there’s a draft Bill in advance of that as well. If we were to do that, I wouldn’t be in front of you now proposing a Bill to change the voting age in time for 2021, in particular.”<sup>65</sup>

**51.** Teimlai'r Cwnsler Cyffredinol fel a ganlyn:

“... in an ideal world, publishing a draft Bill and consulting on that is a good way of engaging stakeholders. I think the substance of the changes that are being proposed in the Bill have been the subject of consultation, have been the subject of extensive reflection by the expert panel, and so I feel that has provided the opportunity for people to engage on the substance of the issue.”<sup>66</sup>

**52.** Dywedodd yr Athro Laura McAllister y canlynol:

“I think the presumption in favour of draft Bills is a good one, but expedience and timing have probably made that more problematic now for this piece of work around votes at 16 ... in an ideal scenario, a draft Bill would have allowed more of these issues to be aired at an earlier stage. I would draw attention to, obviously, our own consultation and our own evidence gathering around this area. The Commission, obviously, then embarked on its own consultation, which was well received, I think, and well responded to.”<sup>67</sup>

## Hygyrchedd

---

**53.** Ac eithrio ar gyfer rhai o'r darpariaethau sy'n ymwneud ag anghymhwysu ac a nodir yn Atodlen 2, dull gweithredu'r Bil yw diwygio deddfwriaeth bresennol, gydag ychydig sy'n annibynnol, pwynt a gydnabyddir gan Bennaeth Gwasanethau Cyfreithiol Comisiwn y Cynulliad.<sup>68</sup>

**54.** Gofynnwyd i'r Llywydd a fyddai'r Bil llywodraeth leol sydd ar ddod, o bosibl yn estyn yr oedran pleidleisio i 16 oed ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, yn

---

<sup>65</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [137]

<sup>66</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [131]

<sup>67</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 25 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [106]

<sup>68</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019 [183]

---

gwneud newidiadau i'r hyn y mae'r Bil ger ein bron yn ceisio ei gyflawni.  
Dywedodd y canlynol:

“I don't think that legislation stands in place for a very long time before, possibly, there are changes made to it. I accept that this may just be a few months, but it's what it is—that's how I'd explain the timing on all of this.”<sup>69</sup>

**55.** Nododd Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol Comisiwn y Cynulliad gymhlethdod cyfraith etholiadol, gan ddweud y canlynol hefyd:

“... it's possible, when the local government Bill comes along, that it will be making further amendments to the legislation that's being amended by this Bill ...”<sup>70</sup>

**56.** Cyfeiriodd at sylwadau'r Cwnsler Cyffredinol,<sup>71</sup> a phan ofynnwyd iddo a fyddai'r Bil llywodraeth leol yn gwrthdroi unrhyw beth yn y Bil o ran gostwng yr oedran pleidleisio, dywedodd y canlynol:

“Not from a policy point of view. We don't envisage that the local government legislation would amend the Senedd Bill from a policy point of view. But ... it's conceivable ... that there might be technical changes that the future legislation may need to make...”<sup>72</sup>

**57.** O ran a oedd cyfle i gydgrynhoi cyfraith etholiadol drwy'r Bil, dywedodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol Comisiwn y Cynulliad:

“... clarifying, simplifying, consolidating the law on the elections would be a very welcome thing, but it is huge. There are a huge number of Acts of Parliament and regulations that set out the law in relation to elections ... the Law Commission took four years to produce a report into how that should be reformed. So, it would be a very significant task that would be way beyond the scope of this Bill.”<sup>73</sup>

**58.** Cytunodd y Cwnsler Cyffredinol, gan ddweud y byddai cydgrynhoi cyfraith etholiadol yn fanteisiol a nododd fod y Bil yn cymryd camau i'r cyfeiriad hwn o ran anghymhwysu. Fodd bynnag, ychwanegodd ei bod yn dasg hynod ddwys o ran

---

<sup>69</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019 [182]

<sup>70</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019 [183]

<sup>71</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019 [183]

<sup>72</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [146]

<sup>73</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [165]

adnoddau, a'i fod yn credu mai dyma'r math o beth y byddai Comisiwn y Gyfraith, yn glasurol, yn ei wneud yn effeithiol.<sup>74</sup>

#### Adran 27: Dyletswydd i ystyried diwygio'r modd y goruchwylir gwaith y Comisiwn Etholiadol

---

**59.** Mae adran 27 yn gosod dyletswydd ar y Cynulliad Cenedlaethol i ystyried y trefniadau ariannol a goruchwyllo ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig a refferenda datganoledig, gyda golwg ar wneud argymhellion ar gyfer diwygio'r trefniadau hynny. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud mai nod hyn yw sicrhau "yr eir i'r afael â'r mater hwn, ac y ceir eglurder o ran sut y bydd y Comisiwn Etholiadol yn ymwneud â'r Cynulliad yn y dyfodol".<sup>75</sup>

**60.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y Comisiwn Etholiadol yn cael ei ariannu gan Senedd y DU ac yn atebol iddi ar hyn o bryd,<sup>76</sup> ac yn ychwanegu'r canlynol:

"Mae datganoli cyfrifoldebau a phwerau sylweddol yn ymwneud ag etholiadau datganoledig Cymru yn gofyn am berthynas newydd rhwng y Cynulliad a rheoleiddiwr yr etholiadau hynny, er mwyn sicrhau bod etholiadau'n cael eu cynnal a'u rheoleiddio yn unol â blaenoriaethau penodol Cymru."<sup>77</sup>

**61.** Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

"Yn dilyn pasio Deddf Cymru 2017, cychwynnodd y Comisiwn Etholiadol drafodaethau â'r Llywydd ar wneud y Comisiwn Etholiadol yn atebol i'r Cynulliad am ei waith ar etholiadau datganoledig Cymru, ac o ran bod gwaith o'r fath yn cael ei ariannu gan y Cynulliad. Hefyd, cynhaliodd y Comisiwn Etholiadol drafodaethau tebyg â Senedd yr Alban yn dilyn pasio Deddf yr Alban 2016 a oedd yn rhoi cymhwysedd i Senedd yr Alban ddeddfu ar yr un agweddau ar drefniadau'r Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig yr Alban."<sup>78</sup>

**62.** Mae'r Memorandwm hefyd yn nodi bod Llywodraeth yr Alban yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth ar ddiwygio etholiadol yn 2019, gan gynnwys gwneud y

---

<sup>74</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [163]

<sup>75</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 220

<sup>76</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 218

<sup>77</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 219

<sup>78</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 65

---

Comisiwn Etholiadol yn atebol i Senedd yr Alban ar gyfer etholiadau datganoledig yr Alban.<sup>79</sup>

**63.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r materion allweddol y mae angen eu hystyried<sup>80</sup> ac yn ychwanegu y "gallai gwaith o'r fath fod yn gyfle i gynnal deialog pellach â rhanddeiliaid ar sut y gallai'r trefniadau newydd weithio'n ymarferol".<sup>81</sup> Dywed hefyd y gellid dadlau nad oes angen deddfwriaeth i ystyried y trefniadau ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol, ond mae'n dweud y canlynol:

"Fodd bynnag, mae datganoli cyfrifoldebau o'r fath yn gofyn am berthynas newydd rhwng y Cynulliad a'r Comisiwn Etholiadol a bernir ei bod yn briodol deddfu i ysgogi'r broses honno."<sup>82</sup>

**64.** Ar ôl cyflwyno'r Bil ar 12 Chwefror 2019, ysgrifennodd y Llywydd atom yn ailadrodd y materion allweddol y mae angen eu hystyried cyn dweud y canlynol:

"Felly, mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar y Senedd i ystyried a ddylai'r Comisiwn Etholiadol gael ei gyllido gan y Cynulliad am ei waith mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru, a bod yn atebol i'r Cynulliad am y gwaith hwnnw.

Bwriad y ddarpariaeth hon yn bennaf yw rhoi arwydd o fwriad polisi (yng Nghyfnod 1 o'r Bil) i roi sylw i drefniadau cyllido ac atebolrwydd y Comisiwn Etholiadol trwy welliannau i'r Bil.

Os bydd y Cynulliad yn argymhell y dylid cefnogi cam o'r fath, rwy'n rhagweld y byddai gwelliannau yn cael eu cyflwyno yng Nghyfnod 2 i lunio trefniadau i'r Comisiwn Etholiadol gael ei gyllido gan y Cynulliad a bod yn atebol iddo.

Wrth ymdrin â'r mater yn y ffordd hon, rwyf wedi ystyried y pryderon posibl na fydd gan Aelodau ond cyfle cyfyngedig i graffu ar drefniadau o'r fath. Fodd bynnag, credaf fod y ffordd hon (sef defnyddio'r Bil hwn fel cyfrwng deddfwriaethol i gyflwyno darpariaeth o'r fath) yn ffordd fwy priodol o ddefnyddio amser y Cynulliad na chyflwyno'r trefniadau mewn Bil annibynnol."<sup>83</sup>

---

<sup>79</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 66

<sup>80</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 220

<sup>81</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 221

<sup>82</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 222

<sup>83</sup> Llythyr gan y Llywydd: Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), 12 Chwefror 2019



**65.** Pan nodwyd nad y peth gorau oll oedd y posibilrwydd o wneud diwygiadau sylweddol yng Nghyfnod 2, atebodd y Llywydd:

“... I’d agree ... I would have preferred a better synchronicity of timing that would have allowed for policy to have been fully developed before introduction of the Bill. One thing I’d say in my favour is that I have made it clear that we are considering this, so I didn’t allow for your Stage 1 to carry on blissfully unaware that this was being considered, and that it has been part of me writing to you to say that we are exploring these issues, and also to ensure that the scope of the Bill was sufficient to allow for amendments.”<sup>84</sup>

**66.** Ar 13 Chwefror 2019, ysgrifennodd y Cwnsler Cyffredinol atom gan ddweud:

“Gan fod gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig erbyn hyn, mae angen gosod ei berthynas gyllido ac atebolrwydd gyda’r Comisiwn Etholiadol ar sylfaen ffurfiol. Rydym yn barod i weithio gyda’r Llywydd fel yr Aelod Cyfrifol, y Comisiwn Etholiadol a Thrysorlys EM, yng ngoleuni craffu Cyfnod 1, i ystyried a fyddai modd cyflwyno diwygiadau i gyflawni hyn. Byddai’r diwygiadau hyn yn drech na’r ddyletswydd bresennol a gynigir yn y Bil i ystyried diwygio’r modd y goruchwylir gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymreig, ac yn ei disodli.”<sup>85</sup>

**67.** Pan gafodd ei holi, cydnabu nad yw’r dull gweithredu’n ddelfrydol a dywedodd y canlynol wrthym:

“Clearly, there is agreement at this point that this should be dealt with on the face of the Bill in a way that is transparent and enables scrutiny. So, would it have been preferable for that to be on the original Bill that was introduced? Then, yes. But I think the important thing is to have that transparency on the face of the Bill. Of course, section 27 in a sense anticipates further discussion on this, so it’s not as though the further development, if you like, has come out of the blue. The legislation, in a sense, anticipates change in this area, but as we are today, I think it’s the right thing to do to amend the Bill.”<sup>86</sup>

---

<sup>84</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [179]

<sup>85</sup> Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 13 Chwefror 2019

<sup>86</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [228]

**68.** Pan gafodd ei holi, cydnabu'r Cwnsler Cyffredinol ei bod efallai'n ffordd anuniongred o fwrw ymlaen<sup>87</sup> ac aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

“... I think the discussion we're having now with the commission—with both commissions—and the subject of the discussion here in this committee, gives us a way of addressing the matter in this Bill. Section 27 envisages a universe where it's not addressed in this Bill, the Bill is passed, and there's a future discussion about how best to take this forward. Well, in a sense, we've short-circuited that time frame by bringing forward that discussion so it happens as part of the passage of the Bill.”<sup>88</sup>

**69.** Dywedodd y Comisiwn Etholiadol ei fod wedi bod yn gweithio gyda Chomisiwn y Cynulliad ers mis Mehefin 2017 ar y manylion ynglŷn â sut y byddai'r Comisiwn Etholiadol yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol a sut y câi ei gyllido.<sup>89</sup>

#### Gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill

---

**70.** Mae Comisiwn y Cynulliad wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar ddatblygu'r Bil. Mewn llythyr at y Cadeirydd ar 13 Chwefror 2019, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol ei fod yn “falch bod Llywodraeth Cymru wedi gallu rhoi cymorth i'r Llywydd ddatblygu'r darpariaethau etholfraint yn y Bil, gan ystyried y cysylltiadau â'n deddfwriaeth ni ein hunain, sydd ar fin ymddangos, sy'n ymwneud ag etholiadau llywodraeth leol”.<sup>90</sup>

**71.** Cydnabu'r Llywydd y dull gweithredu hwn.<sup>91</sup> Nododd y canlynol:

“Mae yna gydweithio agos wedi bod eisoes yn y ffaith fod yr elfennau ar yr etholfraint wedi cael—bod yna gydweithio wedi bod rhwng ein swyddogion ni, cyfreithwyr a pholisi, gyda swyddogion y Llywodraeth. O ran drafftio'r elfennau hynny yn y ddeddfwriaeth sydd o'ch blaen chi, a sicrhau bod yna gydsyniad o ran sut mae'r elfennau hynny yn cael eu cyflwyno yn y ddeddfwriaeth, fel bod yna gysondeb felly rhwng cyflwyno pleidleisiau 16 ac 17 i etholiadau'r Cynulliad, yn ogystal â, maes o law, i etholiadau llywodraeth leol, fe oedd yna femorandwm o gyd-ddealltwriaeth rhyngom ni â swyddogion adran y Llywodraeth—llywodraeth leol i ddatblygu'r gwaith yna hyd yn hyn. Ac ... fe fyddwn ni

---

<sup>87</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [230]

<sup>88</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [232]

<sup>89</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE12, y Comisiwn Etholiadol

<sup>90</sup> Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 13 Chwefror 2019

<sup>91</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [16]

---

... ac eisoes ... yn cydweithio gyda'r Gweinidog Llywodraeth leol a'r Gweinidog addysg ar ddatblygu ... rhaglen o ymgysylltu gyda phobl ifanc, rhaglen sydd yn edrych ar yr wybodaeth a fydd yn cael ei darparu o fewn ysgolion, yn ogystal â gwybodaeth i'r rheini sydd tu allan i ysgolion neu mewn meysydd eraill erbyn eu bod nhw'n 16 ac 17. Ac, eisoes, mae yna gyfarfodydd wedi digwydd rhyngof fi â'r Gweinidogion perthnasol, a hefyd, rhyw gymaint o gyfathrebu mwy ffurfiol, fel y gallwn ni fod yn sefydlu'r rhaglen yna o gydweithio rhwng y Comisiwn â'r Llywodraeth ar gyflwyno'r newidiadau sylweddol yma i'r etholfraint ar gyfer 2021, ac yna, 2022, os bydd y newidiadau i lywodraeth leol hefyd yn digwydd.”<sup>92</sup>

**72.** Rhoddwyd y memorandwm cyd-ddealltwriaeth gan y Llywydd gyda chopïau o'i gohebiaeth â Gweinidogion Llywodraeth Cymru.<sup>93</sup> O fewn yr ohebiaeth hon, roedd llythyr gan y Prif Weinidog ar y pryd yn dweud:

“... yn fy marn i, mae'r trefniadau a ddefnyddiwyd i gynhyrchu Bil Senedd Cymru ac Etholiadau (Cymru) wedi creu heriau sylweddol o ran adnoddau a llywodraethiant ac ni ddylai'r rhain gael eu hailadrodd o ystyried maint, pwnc a chymhlethdod ail Fil. Mae'n bosibl, felly, y byddwch am ystyried pa ddulliau gwahanol y gallem eu mabwysiadu pan ddaw'n gliriach beth fydd cynnwys posibl unrhyw ail Fil.”<sup>94</sup>

**73.** Cydnabu'r Llywydd hefyd y cydweithrediad agos wrth ddatblygu'r Bil â'r gymuned etholiadol, y Comisiwn Etholiadol a'r swyddogion etholiadol.<sup>95</sup>

**74.** Dywedodd Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad y canlynol pan gafodd ei holi am y ffordd y mae'r memorandwm y cyfeiriodd y Llywydd ato wedi gweithio:

“... my experience of it was pretty positive. It was produced, of course, to relate to one particular policy aspect of this Bill in a particular set of circumstances where a good deal of work had already been undertaken on extending the franchise in the local government elections, and in view of the policy objective to align franchise arrangements across Wales, it wouldn't have been ideal to duplicate all of that work. It wasn't intended as a template for working between our

---

<sup>92</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [18]

<sup>93</sup> Llythyr gan y Llywydd: Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), 2 Ebrill 2019

<sup>94</sup> Llythyr gan y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, y Prif Weinidog ar y pryd, at y Llywydd, 10 Rhagfyr 2018

<sup>95</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019 [114]

---

two organisations in general for the future, and it did require some bedding in; I think it's fair to say that.”<sup>96</sup>

**75.** Gwnaethom hefyd holi'r Cwnsler Cyffredinol ar y ffordd y datblygwyd y Bil rhwng Comisiwn y Cynulliad a Llywodraeth Cymru. Cadarnhaodd y cafwyd cais gan Gomisiwn y Cynulliad am gefnogaeth oherwydd ei fod yn teimlo'r angen am adnoddau a gallu ychwanegol yn y maes hwn<sup>97</sup> a'r canlynol:

“... because of the coincidence of timing between the ... Welsh Government ... working on franchise provisions in relation to local government, and ... the principal task of this Bill relates to franchise for the Assembly elections.”<sup>98</sup>

**76.** Aeth ymlaen i ddweud:

“... if this is the beginning of a process, and if there is future legislation, there is absolutely a case to have a sort of lessons-learned approach from how it has worked in practice. I think it's working well, but there have been challenges in terms of resourcing and the additional governance that goes with having this sort of arrangement in place. So, I think we would need to reflect on that if there was going to be a Bill with a broader scope. This is a significant Bill, but when we come to Bills around the voting system and the number of Members, those are likely to lead to much bigger legislation. So, I think we need to look at that differently, perhaps, in that context.”<sup>99</sup>

**77.** Cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol y canlynol o ran y Bil:

“... the franchise provisions are drafted by Welsh Government lawyers, really reflecting the fact that much of the work had been in hand in relation to the local government franchise, and so that's been part of the benefit of asking Welsh Government lawyers to engage on that.”<sup>100</sup>

**78.** Cydnabu y byddai gwelliannau i'r darpariaethau hyn yn cael eu drafftio gan gyfreithwyr Llywodraeth Cymru, gan ychwanegu:

---

<sup>96</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [365]

<sup>97</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [157]

<sup>98</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [133]

<sup>99</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [134]

<sup>100</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [139]

“... they’ll provide support to the Llywydd in relation to technical amendments, I envisage, ... You’ll know there are some policy questions on which the Welsh Government has a particular view, for example, in relation to extending the franchise to foreign nationals who have leave to enter and remain. So, there’ll be policy questions that will lead to amendments, potentially, and those I would anticipate being brought forward by the Government. But, in terms of technical amendment, I think that’s most likely to be brought forward by the Llywydd, I would think.”<sup>101</sup>

## Y Bil fel y’i cyflwynwyd

**79.** Esboniodd y Llywydd sut y mae digwyddiadau wedi helpu i lywio’r penderfyniad i gyflwyno’r Bil:

“Mae’r Comisiwn wedi rhoi ar waith ers ethol y pumed Cynulliad raglen o ddiwygio etholiadol a diwygio’r Cynulliad ... Mae yna sawl prompt ... i’r gwaith yma. Yn gyntaf ... ethol y pumed Cynulliad a Chomisiwn newydd. Yr ail prompt ... oedd y cynnig ar lawr y Cynulliad yn 2016 i ailenwi’r Cynulliad i Senedd genedlaethol. Ac yna, wrth gwrs, fe roddodd y Wales Act 2017, Deddf Cymru 2017, y pwerau inni am y tro cyntaf yn y Cynulliad yma i fedru cyflwyno deddfwriaeth oedd yn aildrefnu unrhyw agwedd ar ein hetholiadau ni ein hunain ... a hefyd y gwaith a roddwyd ar waith yn gyntaf yn y pedwerydd Cynulliad i ystyried gostwng yr oedran pleidleisio i 16 ac 17, ac mae hynny’n elfen o waith mae’r Comisiwn yma wedi ymddiddori ynddo ac wedi ei ddatblygu ymhellach ac ymgynghori arno ... ”<sup>102</sup>

**80.** Cawsom dystiolaeth gyfyngedig ar y Bil fel pecyn o gynigion deddfwriaethol. Yn hytrach, roeddem yn tueddu i gael sylwadau ar rannau unigol o’r Bil, a gafodd eu croesawu i raddau amrywiol gan ymgynghoreion a’r rhai a roddodd dystiolaeth lafar. Felly, mae’r dystiolaeth i gefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil at ddibenion dadl Cyfnod 1 wedi’i nodi mewn penodau diweddarach ar bob Rhan o’r Bil, yn hytrach nag yn y Bennod hon o’r adroddiad.

---

<sup>101</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [14]

<sup>102</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [5]

## Amseru'r Bil

---

**81.** Cyflwynwyd y Bil gyda'r bwriad o fod ar waith ar gyfer etholiad y Cynulliad yn 2021.<sup>103</sup>

**82.** Dywedodd y Llywydd y canlynol wrthym:

“So, why then introduce this Bill at this time? ... there is clearly a degree of support for the next election of 2021 to see 16 and 17-year-olds have the vote for that Assembly election. In order to do that, working back from that date, then this piece of legislation needed to be introduced now.”<sup>104</sup>

**83.** Dywedodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol wrthym:

“We ask that the Welsh Assembly ensure that any changes in legislation relating to elections are made well in advance of the polls in which the changes will take effect. In our 2016 report: “Pushed to the absolute limit: 2016 – the electoral year never to forget”, we made the following recommendation:

*“Except in cases of unforeseen emergencies and proportionate to the need, changes to election law should not be applicable to any elections within a six-month period from the date the legislation comes into effect.”*

In relation to any proposals to changes relating to electoral registration, we would ask that a minimum of 12 months is given prior to the new provisions coming into force.”<sup>105</sup>

**84.** Tynnodd y Comisiwn Etholiadol sylw hefyd at bwysigrwydd amseru (yn enwedig ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol):

“... the annual canvass process will kick off in the summer of 2020, so we would need the new legislation team to be in place six months ahead of that. So, we're talking around the end of 2019, beginning of 2020, to ensure that all of that work and more can be done. Obviously, there will be elements of that that we will probably need to kick off ahead of that time. If you're talking about votes at 16 and all of the work ... —that we'll

---

<sup>103</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraffau 132, 208, 427 a 930

<sup>104</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [13]

<sup>105</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE14, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Saesneg yn unig)

need to do leading into votes at 16, we can't wait until January or February 2020 to kick that work off. But, generally, we would want six months to really get into the meat of preparation and planning work for the canvass in 2020.”<sup>106</sup>

**85.** Nododd ei fod eisoes wedi dechrau rhywfaint o'r gwaith hwnnw ar y dybiaeth y bydd pobl 16 oed o fewn cwmpas y Bil hwn.<sup>107</sup>

**86.** Nododd y Llywydd hefyd bwysigrwydd trosglwyddo'r Bil mewn pryd i fodloni disgwyliadau'r gymuned etholiadol, sef:

“... the certainty of the Bill having passed all its stages to be at least six months prior to the canvass of 2020. Our current timetabling assures us that that is on track for either December or January of 2020.”<sup>108</sup>

**87.** Gwnaeth y Llywydd,<sup>109</sup> y Gweinidog Addysg<sup>110</sup> a'r Athro McAllister<sup>111</sup> achos dros ostwng yr oedran pleidleisio i 16 ar gyfer yr etholiad yn 2021 a chaiff rhai o'r pwyntiau a wnânt eu hystyried ym Mhennod 6 o'r adroddiad.

**88.** Pwysleisiodd y Llywydd hefyd pa mor ddymunol y byddai gostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol gyntaf, ac na fyddai hyn yn broblem pe na bai Bil llywodraeth leol sydd ar ddod ac sy'n gostwng yr oedran pleidleisio yn cael ei basio mewn pryd ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol yn 2022:

“The Laura McAllister report was quite clear in saying that, if and when 16 and 17-year-olds voting was introduced in Wales, then it should certainly be introduced first for a national election and the higher salience of that election. Therefore, I'd have no reason in my mind as to why, if the local government Bill for whatever reason does not go ahead, this election and our national election could not introduce 16 and 17-year-olds voting a year ahead of the local government election or even six years, as it would end up being, possibly, if there had to be a delay.”<sup>112</sup>

---

<sup>106</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [22]

<sup>107</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [8]

<sup>108</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019 [114]

<sup>109</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019 [116-117, 158]

<sup>110</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019 [78, 86]

<sup>111</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 25 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [71]

<sup>112</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019 [180]

## Darparu adnoddau ar gyfer y Bil

**89.** Codwyd nifer o faterion ariannu yn ymwneud â gweithredu'r Bil yn uniongyrchol gyda ni. At hynny, nodwyd bod materion ariannu wedi'u codi mewn gohebiaeth a gyfnewidiwyd rhwng y Llywydd a Llywodraeth Cymru.

**90.** Mynegodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol bryderon ynghylch yr amcangyfrifon cost a ddarparwyd yn y Memorandwm Esboniadol ynghylch cyllid awdurdodau lleol, newid yr oedran cyrhaeddiad, ymgysylltu, y Feddalwedd Rheoli Etholiadol, a chostau etholiad.<sup>113</sup> Dywedodd fod ganddi:

“... significant concerns that local authorities are to be expected to meet the additional costs outlined in the Bill especially at a time when their budgets have been significantly reduced over recent years.”<sup>114</sup>

**91.** Tynnodd sylw hefyd at gostau yr oedd yn teimlo nad oedent wedi'u hystyried yn y Bil, gan gynnwys er enghraifft y costau ychwanegol sylweddol wrth gofrestru cyrhaeddwyr, h.y. pobl 14 a 15 oed, ac ymgyrch etholiad ar wahân sy'n benodol i Gymru.<sup>115</sup>

**92.** Roedd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol yn teimlo y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol dalu'r costau ychwanegol yn llawn drwy ddarparu arian grant wedi'i neilltuo i bob awdurdod lleol.<sup>116</sup>

**93.** Roedd CLILC yn teimlo y dylai unrhyw ddiwygiad deddfwriaethol neu bolisi cenedlaethol Llywodraeth Cymru, er enghraifft, gael ei ariannu'n llawn, ond esboniodd i ni fod “the explanatory memorandum suggests that it won't be funded, but will be accommodated. I think that's the word—accommodated by local authorities.”<sup>117</sup>

## Y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd wedi'i gynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth

**94.** Mae'r Bil yn cynnwys pedwar pŵer i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth. Mae'r pwerau wedi'u cynnwys yn adrannau 14, 18, 25 a 36 o'r Bil.

<sup>113</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE14, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Saesneg yn unig)

<sup>114</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE14, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Saesneg yn unig)

<sup>115</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE14, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Saesneg yn unig)

<sup>116</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE14, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Saesneg yn unig)

<sup>117</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [229]



Mae'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth a'r sail resymegol dros ddefnyddio'r gweithdrefnau wedi'u crynhoi ym mhennod 6 o'r Memorandwm Esboniadol.<sup>118</sup>

**95.** Ac eithrio'r pŵer i wneud gorchymyn yn adran 36 o'r Bil, bydd y pwerau dirprwyedig a ddarperir yn y Bil ar ffurf rheoliadau.

**96.** Darparodd y Llywydd ddatganiad o fwriad polisi ar gyfer is-ddeddfwriaeth y gellir ei gwneud o dan y Bil.<sup>119</sup>

**97.** Dywedodd y Llywydd y canlynol wrthym:

“That policy statement is seen to be useful as a statement in time. It doesn't bind any Welsh Government of today or the next Welsh Government, but it is a clear indication of the policy hope.”<sup>120</sup>

**98.** Nododd y bydd y datganiad polisi wedi'i drafod rhwng swyddogion y Comisiwn a swyddogion Llywodraeth Cymru wrth ei gyflwyno.<sup>121</sup>

**99.** O ran ymgynghori ar is-ddeddfwriaeth yn y dyfodol, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi fel a ganlyn:

“Penderfynir ar union natur yr ymgynghoriad ar yr is-ddeddfwriaeth, lle mae'n briodol gwneud hynny, pan fydd y cynigion wedi'u cwblhau.”<sup>122</sup>

**100.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn mynd ymlaen i ddweud y canlynol:

“Nid oes darpariaethau yn y Bil i wneud cyfarwyddiadau a phenderfyniadau a chyhoeddi canllawiau mewn perthynas ag estyn yr etholfraint.”<sup>123</sup>

**101.** Pwysleisiodd y Llywydd fod cyfyngiadau amser yn dylanwadu ar gydbwysedd y Bil, gan nodi y byddai materion y gallent fod wedi'u gwneud drwy is-ddeddfwriaeth ar wyneb y Bil i sicrhau bod y gymuned etholiadol yn cael chwe

---

<sup>118</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Pennod 6, Tabl 10

<sup>119</sup> Mae'r Datganiad o Fwriad Polisi wedi'i gynnwys yn y **Llythyr gan y Llywydd**, Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), 12 Chwefror 2019

<sup>120</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [35]

<sup>121</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [37]

<sup>122</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 337

<sup>123</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 338

mis o sicrwydd i baratoi ar gyfer gostwng yr oedran pleidleisio i 16 ar gyfer etholiadau'r Cynulliad.<sup>124</sup>

**102.** Tynnodd y Cwnsler Cyffredinol sylw hefyd at amseru fel rheswm dros ddiwygio is-ddeddfwriaeth ar wyneb y Bil.<sup>125</sup>

**103.** Gwnaethom hefyd ystyried a allai pwerau presennol o dan adran 13 o Ddeddf 2006 fod wedi'u defnyddio i gyflawni rhai o amcanion y Bil. Dywedodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol Comisiwn y Cynulliad y canlynol wrthym:

“Those powers would not be wide enough to expand the franchise to cover 16 and 17-year-olds, for instance.”<sup>126</sup>

## Ein barn ni

**104.** Mae'r Bil yn ddarn pellgyrhaeddol o ddeddfwriaeth. Mae'n cynnwys nifer o elfennau arwyddocaol, sydd, er eu bod yn gysylltiedig yn fras yn gyfansoddiadol, yn wahanol yn unigol.

**105.** Adlewyrchir y pwynt hwn yn natur y dystiolaeth a ddaeth i law, sydd wedi bod yn ddieithriad yn canolbwytio ar faterion penodol yn hytrach na'r Bil yn gyffredinol. Rydym wedi cael llai o gyflwyniadau na'r disgwyl ar rai materion, gan adlewyrchu, o bosibl, y DU yn ymadael â'r UE. Serch hynny, mae hyn yn siomedig o ystyried y materion sylfaenol a godwyd yn y Bil ynghylch gostwng yr oedran pleidleisio a'r anghymhwysiad rhag bod yn Aelod Cynulliad.

**106.** Mae'r Bil yn defnyddio rhywfaint o waith y Panel Arbenigol a'i adroddiad yn cynnig rhaglen eang i ddiwygio'r Cynulliad. Rydym o'r farn y byddai wedi bod yn rhy fuan i adlewyrchu agweddau allweddol ar yr adroddiad hwnnw - yn ymwneud â maint y Cynulliad a newid cyfatebol yn y dull pleidleisio - yn y Bil hwn o ystyried cymhlethdod tebygol y materion dan sylw. Rydym yn nodi, wrth gwblhau'r adroddiad hwn, yr ysgrifennodd y Llywydd at holl Aelodau'r Cynulliad i ddweud bod Comisiwn y Cynulliad wedi penderfynu nad yw'n bosibl deddfu ar agweddau eraill ar ddiwygio'r Cynulliad yn y Pumed Cynulliad.<sup>127</sup>

---

<sup>124</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [164]

<sup>125</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [222]

<sup>126</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [32]

<sup>127</sup> Llythyr gan y Llywydd at Aelodau'r Cynulliad, 10 Mehefin 2019

**107.** Rydym yn rhannu barn y tystion a nododd y byddai gwerth sylweddol mewn un Bil a oedd yn ceisio gostwng yr oedran pleidleisio i 16 ar gyfer etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ac etholiadau llywodraeth leol.

**108.** Yn ein barn ni, roedd y dadleuon dros Fil o'r fath yn gryf. Byddai wedi sicrhau bod polisi cyhoeddus yn cael ei gyflwyno'n fwy cydlynol yn y maes hwn ac wedi rhoi mwy o sicrwydd ac eglurder i'r rhai sy'n gyfrifol am reoli'r broses etholiadol.

**109.** Rydym yn nodi sicrwydd y bydd Bil llywodraeth leol ar gael yn yr hydref. Serch hynny, mae risg o hyd na fydd Bil o'r fath yn cael ei gyflwyno. Felly, petai'r Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) yn cael ei basio, mae perygl na fydd pleidleisiau yn 16 oed yn gymwys i'r etholiadau llywodraeth leol yn 2022. Ni fyddai'r risg hon wedi codi gydag un Bil.

**110.** Mae'r ffaith bod yr etholfraint ar gyfer etholiadau llywodraeth leol ac etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn gysylltiedig hefyd yn rhoi dadl gref dros un Bil sy'n cwmpasu gostyngiad yn yr oedran pleidleisio ar gyfer y ddau etholiad. Byddai wedi caniatáu ar gyfer gwelliannau symlach i'r gyfraith etholiadol bresennol, fel y dangosir, er enghraifft, yn *Neddf Etholiadau'r Alban (Gostwng yr Oedran Pleidleisio) 2015*.

**111.** Yn lle hynny, ac o ganlyniad i beidio â mabwysiadu'r dull gweithredu hwn, bydd angen dadwneud rhai o'r darpariaethau diwygio a ddefnyddiwyd yn y Bil i ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol. Nodwn fod y bwriad polisi yr un fath ond nid yw'r dull gweithredu'n arwain at ddeddfwriaeth hygyrch ac mae'n cymhlethu'r llyfr statud yn ddiangen.

**112.** Nodwn resymau'r Llywydd dros beidio â dilyn y dull gweithredu Bil unigol y credwn y byddai wedi bod yn briodol. Fodd bynnag, fel y dywedodd Solace wrthym, "yr etholfraint yw'r etholfraint". Nid ydym o'r farn y byddai wedi bod yn drafferthus i fod wedi gofyn am uwch fwyafrif ar gyfer gostwng yr oedran pleidleisio i 16 yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ac etholiadau llywodraeth leol. Byddai hyn wedi sicrhau mai gostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed oedd y mater polisi allweddol i'w benderfynu, yn hytrach nag a ddylai fod yn gymwys mewn perthynas ag etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol a/neu etholiadau llywodraeth leol.

**113.** Dylanwedir ar ein barn ni hefyd oherwydd y ffaith bod gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb sylweddol dros faterion polisi a chyllid sy'n ymwneud â materion etholiadol datganoledig, a arweiniodd at waith drafftio Rhan 3 o'r Bil am etholiadau a bydd hefyd yn arwain ar welliannau i'r darpariaethau hynny.

**114.** O dan yr amgylchiadau, efallai y byddai mynd ar drywydd Bil Comisiwn y Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â newid enw, anghymhwys a gweithrediad mewnol y Cynulliad wedi bod yn ddull gweithredu gwell, gyda Bil Llywodraeth Cymru ar ostwng yr oedran pleidleisio i 16 ar gyfer etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol a llywodraeth leol (gyda materion llywodraeth leol eraill wedi'u cynnwys mewn Bil ar wahân).

**115.** Credwn y dylid ystyried y farn hon fel rhan o unrhyw ymarfer gwersi a ddysgwyd ar y Bil, yn enwedig wrth ddisgwyl ail Fil diwygio'r Cynulliad yn y Chweched Cynulliad.

**116.** Nododd yr adroddiad *Deddfu yng Nghymru* y canlynol:

“Yn ein barn ni, dylid gosod Biliau drafft gerbron y Cynulliad. Bydd hynny'n golygu bod pwyllgor yn craffu'n ffurfiol ar y Bil a bod Aelodau'r Cynulliad yn cael cyfle i ystyried, cael cyngor, cynnig sylwadau a pharatoi i graffu'n effeithiol ar y Bil fel y'i cyflwynwyd.”<sup>128</sup>

“Argymhelliad 3: Argymhellwn y dylid cael rhagdybiaeth o blaid cyhoeddi Biliau drafft. Mae'r argymhelliad hwn yn gymwys i Lywodraeth Cymru ac i Aelodau Cynulliad sydd wedi cael caniatâd i gyflwyno Biliau.”<sup>129</sup>

**117.** Rydym yn nodi ac yn croesawu'r ffaith bod Rhan 1 o'r Bil wedi'i chyhoeddi ar ffurf drafft. Fodd bynnag, credwn y dylai Bil llawn fod wedi'i gyhoeddi ar ffurf drafft o ystyried ei arwyddocâd i ostwng yr oedran pleidleisio i 16, yn ogystal â materion sy'n ymwneud ag anghymhwyso rhag bod yn Aelod Cynulliad.

**118.** Nodwn y dadleuon a gyflwynwyd ynghylch diffyg amser ar gyfer cyhoeddi Bil drafft, ond nid ydym wedi ein darbwyllo gan y farn hon. Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor a'n rhagflaenodd ar anghymhwyso yn 2014 a dechreuodd Comisiwn y Cynulliad edrych ar bleidleisiau yn 16 oed yn y Pedwerydd Cynulliad. Yn y cyfamser, rydym yn deall bod Panel Arbenigol wedi bod ar ddiwygio'r Cynulliad yn ehangach ond y gallai'r angen am Fil drafft fod wedi'i ystyried wrth gynllunio'r ddeddfwriaeth. Rydym yn gwneud y pwynt hwn oherwydd bod gennym bryderon

---

<sup>128</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Deddfu yng Nghymru*, Hydref 2015, paragraff 74

<sup>129</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Deddfu yng Nghymru*, Hydref 2015, argymhelliad 3

---

bod y ddeddfwriaeth yn cael ei rhuthro, ac fel y dywedodd *Deddfu yng Nghymru*, “anaml y mae deddfwriaeth a wnaed ar frys yn ddeddfwriaeth dda”.<sup>130</sup>

**119.** Yn ein barn ni, byddai Bil drafft wedi bod yn gyfrwng defnyddiol i hyrwyddo a phrofi'r newidiadau mawr sy'n digwydd, yn ogystal â chynnig cyfle i dynnu sylw at faterion sy'n peri pryder yn gynharach yn y broses, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â'r paratodau sydd eu hangen ar gyfer newid mor sylweddol i'r oedran pleidleisio.

**120.** Wrth ddod i'r farn hon, ac yn fwy cyffredinol, rydym hefyd am bwysleisio bod gwahaniaeth rhwng Aelod sy'n gyfrifol yn ymgynghori ar amcanion polisi cyn cyflwyno cyfraith arfaethedig a phwyllgor yn ymgynghori ar ddarpariaethau penodol mewn Bil (ar ffurf drafft neu ar ôl ei gyflwyno) sy'n ceisio cyflawni'r amcanion polisi hynny. Felly, ni ddylid ystyried ymgynghoriadau o'r fath fel rhywbeth yn lle defnyddio Bil drafft neu'r broses ddeddfwriaethol Cyfnod 1.

**121.** Yn sgil ein pryderon ynghylch diffyg Bil drafft ac o ystyried posibilrwydd Bil yn y dyfodol ar ddiwygio'r Cynulliad ymhellach, rydym yn gwneud yr argymhelliad a ganlyn.

**Argymhelliad 1.** Dylai pob Bil sy'n ymwneud â materion cyfansoddiadol sylweddol gael eu cyhoeddi ar ffurf drafft ac, yn unol â hynny, dylid cynnwys amser yn y broses ddeddfwriaethol i alluogi hyn i ddigwydd.

**122.** Ar ôl ei gyflwyno, roedd adran 27 o'r Bil yn darparu bod yn rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried y trefniadau ariannol a goruchwyllo ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig yng Nghymru, gyda'r bwriad o wneud argymhellion ar gyfer diwygio'r trefniadau hynny (y byddai'n ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol ymateb yn ffurfiol iddynt). Rhoddodd Memorandwm Esboniadol a oedd yn cyd-fynd â'r Bil ragor o fanylion am sut y gellid gweithredu'r adran hon, a nodwyd y costau.

**123.** Fodd bynnag, ar yr un diwrnod ag y cyflwynwyd y Bil, ysgrifennodd y Llywydd atom yn nodi na fyddai'r dull gweithredu hwn yn cael ei ddilyn, safbwynt a gydnabuwyd hefyd gan y Cwnsler Cyffredinol mewn llythyr y diwrnod canlynol.

**124.** Ymddengys felly mai'r unig ddiben y cyflwynwyd adran 27 oedd caniatáu i bolisi sylweddol gael ei ychwanegu at y Bil yng Nghyfnod 2 neu Gyfnod 3 ond heb y gwaith craffu sy'n gysylltiedig â Chyfnod 1. Mae hyn yn siomedig.

---

<sup>130</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Deddfu yng Nghymru*, Hydref 2015, paragraff 72

**125.** Yn yr adroddiad *Deddfu yng Nghymru*, argymhellwyd y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno Biliau “y gellir eu hystyried yn rhesymol yn rhai a ddatblygwyd yn llawn”. Dywedodd y canlynol:

“Yn ein barn ni, dylai'r broses o ddiwygio Biliau yng Nghyfnod 2 a Chyfnod 3 gael ei defnyddio fel ffordd o drafod ac i awgrymu gwelliannau i Fil sydd wedi'i gyflwyno. Ni ddylid ei defnyddio (ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol neu i gyflawni argymhelliad pwyllgor a wnaed yng Nghyfnod 1) i gyflwyno symiau mawr ac arwyddocaol o destun deddfwriaethol nad oedd, am ba bynnag reswm, yn barod neu ddim ar gael pan gyflwynwyd y Bil.

Argymhelliad 10: Rydym yn argymhell bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno Biliau y gellir eu hystyried yn rhesymol yn rhai a ddatblygwyd yn llawn.”<sup>131</sup>

**126.** Nodwn farn y Llywydd y byddai'r dull gweithredu a fabwysiadwyd yn well na Bil sy'n sefyll ar ei ben ei hun sy'n ymwneud â darpariaethau adran 27 gan y byddai'n ddefnydd mwy priodol o amser y Cynulliad. Gyda pharch, rydym yn anghytuno, yn enwedig gan fod yr achos hwn yn golygu osgoi gwaith craffu Cyfnod 1 ar gyfer darpariaethau pwysig ar faterion cymhleth. O ganlyniad i hyn, byddai darpariaethau o'r fath yn destun llai o waith craffu a llai o waith ymgysylltu â'r holl randdeiliaid y mae'r newidiadau'n effeithio arnynt, na darpariaethau eraill yn y Bil.

**127.** Nodwn hefyd fod trafodaethau wedi bod yn mynd rhagddynt ers mis Mehefin 2017 â'r Comisiwn Etholiadol ar y darpariaethau hyn.

**128.** Dylai deddfu ddilyn proses ddisgybledig i sicrhau bod dinasyddion yn ddarostyngedig i gyfreithiau a ystyriwyd yn drylwyr wrth eu paratoi ac sy'n destun gwaith craffu priodol. Fel rhan o'r broses hon, mae'r ffordd y caiff y Bil ei ddrafftio yr un mor bwysig â'r bwriad polisi; y cyntaf sy'n rhoi effaith i'r olaf a'r ffordd y cyflawnir hyn sy'n gofyn am waith craffu llawn a phriodol.

**129.** Ni chroesewir y ffordd y mae darpariaethau sy'n ymwneud â diwygio a goruchwyllo'r Comisiwn Etholiadol wedi datblygu. Yn ein barn ni, mae'r dull o ddeddfu y mae'n ei argymhell yn ddiffygiol.

**130.** Rydym yn gobeithio na ddilynir y dull gweithredu a fabwysiadwyd mewn perthynas ag adran 27 o'r Bil hwn mewn perthynas â chyflwyno unrhyw

---

<sup>131</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Deddfu yng Nghymru*, Hydref 2015, paragraff 114

ddarpariaethau yn y dyfodol o fewn Bil, boed hynny gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad neu Aelod o'r meinciau cefn. Felly, rydym yn achub ar y cyfle hwn i ailadrodd yr argymhelliad sydd wedi'i gynnwys yn *Deddfu yng Nghymru*.

**Argymhelliad 2.** Dylid cyflwyno biliau i'r Cynulliad Cenedlaethol y gellir yn rhesymol ystyried eu bod wedi'u datblygu'n llawn ar adeg eu cyflwyno.

**131.** Mae ein sylwadau ar y dull o ddeddfu yn adlewyrchu safbwyntiau a nodwyd yn yr adroddiad *Deddfu yng Nghymru*, yr ydym wedi ceisio eu hystyried wrth adrodd ar Filiau yn y Pumed Cynulliad.

**132.** Mae'r Bil hwn yn un sy'n ceisio diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol yn bennaf er, fel rydym wedi pwysleisio'n gynharach, y gallai deddfwriaeth bresennol gael ei newid ymhellach ac mewn ffyrdd gwahanol gan Fil Llywodraeth leol yn y dyfodol.

**133.** Serch hynny, o gofio cymhlethdod a maint y gyfraith etholiadol bresennol, rydym yn derbyn y byddai Bil wedi'i gydgrynhoi yn y maes hwn wedi bod yn anodd ei gyflawni ar hyn o bryd.

**134.** Rydym yn croesawu eglurder yr Atodlen 1A newydd i Ddeddf 2006 (fel y'i cyflwynwyd gan adran 29 o'r Bil hwn ac Atodlen 2 iddo), sy'n rhestru mewn un lle y categorïau o bobl a deiliaid swyddi sydd wedi'u hanghymhwysio rhag sefyll fel ymgeisydd dros y Cynulliad Cenedlaethol, a bod yn Aelod ohono.

**135.** Rydym hefyd yn croesawu Atodiad 9 i'r Memorandwm Esboniadol sy'n dangos sut y byddai'r ddeddfwriaeth bresennol yn cael ei diwygio gan y Bil. Mae hwn yn gymorth amhrisiadwy i ddarllen y Bil.

**Argymhelliad 3.** Os caiff y Bil ei basio, ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol, dylai Comisiwn y Cynulliad gyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o Atodiad 9 i'r Memorandwm Esboniadol.

**Argymhelliad 4.** Os bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Bil sy'n cynnwys darpariaethau i ostwng yr oedran pleidleisio i 16 ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, dylai sicrhau bod Memorandwm Esboniadol y Bil yn cynnwys Atodiad sy'n dangos sut y byddai'r ddeddfwriaeth bresennol yn cael ei diwygio.

**136.** Rydym yn fodlon ar y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd wedi'i gynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth. Rydym hefyd yn fodlon â'r gweithdrefnau i'w cymhwyso i bwerau gwneud rheoliadau sydd wedi'u cynnwys yn adrannau 14, 18 a 25 o'r Bil. Rydym yn rhoi sylwadau ar wahân ar y pŵer i wneud gorchymyn yn adran 36 ym mhennod 8 o'r adroddiad hwn.

**137.** Yn y bennod hon, rydym wedi tynnu sylw at rai o'r pryderon cyllido a godwyd gan sefydliadau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â sicrhau bod gostwng yr oedran pleidleisio i 16 yn cael ei weithredu'n effeithiol. Rydym yn tynnu sylw Comisiwn y Cynulliad a Llywodraeth Cymru at y rhain ac yn gwneud sylwadau ar faterion penodol ym mhennod 6 o'r adroddiad. Nodwn hefyd fod y Pwyllgor Cyllid wedi edrych yn fanylach ar gostau gweithredu'r Bil.

**138.** Er ei bod yn anarferol i staff yng Nghomisiwn y Cynulliad a Llywodraeth Cymru weithio gyda'i gilydd ym maes datblygu polisi, rydym yn nodi bod y dull gweithredu o ran y Bil wedi golygu bod angen trefniadau gweithio o'r fath am sawl rheswm. Yn sgil y dystiolaeth a glywsom, rydym o'r farn y dylai adolygiad o'r trefniadau gweithio fod yn rhan o unrhyw ymarfer gwersi a ddysgwyd.

**139.** Er gwaethaf ein pryderon ynghylch y dull o ddeddfu, rydym yn fodlon i'r Bil fynd ymlaen i ystyriaeth Cyfnod 2. Fel y nodwyd ym mharagraff 80, nodir y dystiolaeth y seiliwn y farn hon arni yn y penodau a ganlyn.

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

**140.** Hoffem hefyd achub ar y cyfle hwn i dynnu sylw at y Memorandwm Esboniadol a luniwyd gan Gomisiwn y Cynulliad a'i gymeradwyo. Mae'r wybodaeth ynddo yn drylwyr ac yn berthnasol, gyda rhesymau dros benderfyniadau wedi'u hesbonio'n glir.

**141.** O'r dystiolaeth a gafwyd, rydym yn nodi bod gwahaniaethau barn yn parhau rhwng Comisiwn y Cynulliad a Llywodraeth Cymru ynghylch drafftio Rhannau 2 a 4 o'r Bil yn arbennig, yn ogystal â chynnwys adran 36 yn Rhan 5.

**142.** Rydym yn ystyried y materion hyn ac adrannau unigol o'r Bil mewn penodau diweddarach ac, wrth wneud hynny, rydym yn nodi ein bod yn credu y gellir gwella'r ddeddfwriaeth a'i chyflwyno'n effeithiol.



## 5. Rhan 2 – Enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae Rhan 2 o'r Bil yn gwneud darpariaeth i newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r "Senedd" ac i wneud newidiadau cysylltiedig.

**143.** Mae Adran 2(1) yn ailenwi Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn "Senedd", ac mae adran 2(2) yn darparu y gellir galw'r Senedd yn Welsh Parliament.

**144.** Er mwyn rhoi effaith i'r newid enw, mae'r Bil yn gwneud llawer o newidiadau i Ddeddf 2006. Er mwyn osgoi gorlenwi'r Bil â newidiadau technegol i Ddeddf 2006 a deddfwriaeth arall, mae adran 9 o'r Bil ("Diwygiadau i ddeddfwriaeth bresennol") yn cyflwyno Atodlen 1, sy'n rhestru'r newidiadau hynny. Mae paragraffau 7, 8 a 9 o Atodlen 1 yn gwneud y newidiadau i adran 1 o Ddeddf 2006 sy'n ymdrin â'r newid enw.

**145.** Mae'r Bil yn cynnig y caiff Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu galw'n "Ddeddfau'r Senedd" neu'n "Acts of the Senedd" (adran 3), ac y bydd Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael eu galw'n "Aelodau'r Senedd" neu'n "Members of the Senedd" (adran 4).

**146.** O dan adrannau 5 i 8, bydd cyrff a phersonau cysylltiedig, megis Comisiwn y Cynulliad, Clerc y Cynulliad, y Bwrdd Taliadau a'r Comisiynydd Safonau, hefyd yn cael eu hailenwi.

### Y dull gweithredu o ran newid yr enw

**147.** Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, mae'r Bil yn ailenwi'r Cynulliad Cenedlaethol yn "Senedd" "er mwyn adlewyrchu'n well esblygiad ei statws cyfansoddiadol a'i gyfrifoldebau i'r hyn ydyw heddiw, sef senedd genedlaethol".<sup>132</sup>

**148.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn mynd ymlaen i esbonio'r canlynol:

"Mae newid enw'r Cynulliad yn gyfle gwerthfawr i godi ymwybyddiaeth o rôl a swyddogaethau'r ddeddfwrfa a'r llywodraeth ymhlith pobl Cymru ac i annog ymgysylltiad â'r broses ddemocrataidd."<sup>133</sup>

---

<sup>132</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 31

<sup>133</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 33

**149.** Mae Comisiwn y Cynulliad yn credu bod y newidiadau ym mhwerau Comisiwn y Cynulliad ers 1999 “wedi creu darlun aneglur am sefyllfa pŵer ac atebolrwydd yng Nghymru”.<sup>134</sup> Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod tystiolaeth a gasglwyd gan Gomisiwn y Cynulliad dros dymor diwethaf y Cynulliad yn dangos y canlynol:

- nad yw pobl Cymru ar hyn o bryd yn llwyr ddeall rôl a phwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru; a
- bod enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cyfrannu at yr ansicrwydd hwn.<sup>135</sup>

**150.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y cyhoeddwyd ymgynghoriad gan Gomisiwn y Cynulliad ar enw'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Rhagfyr 2016 a bod 61 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno â'r datganiad, “Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru newid ei enw”.<sup>136</sup> O ran cwestiwn yr ymgynghoriad ar ba enw fyddai'n disgrifio rôl a chyfrifoldebau'r Cynulliad orau, atebodd yr ymatebwyr fel a ganlyn:

- roedd 73 y cant o'r ymatebwyr o'r farn y byddai enw dwyieithog sy'n cynnwys “Senedd Cymru” a “Welsh Parliament” yn disgrifio rôl a chyfrifoldebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gadarnhaol;
- roedd 69 y cant o'r farn y byddai enw dwyieithog sy'n cynnwys “Senedd Cymru” a “Parliament of Wales” yn disgrifio rôl a chyfrifoldebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gadarnhaol;
- roedd 53 y cant o'r farn y byddai enw uniaith, sef “Senedd” yn disgrifio rôl a chyfrifoldebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gadarnhaol;
- roedd 38 y cant o'r farn y byddai enw dwyieithog sy'n cynnwys “Cynulliad Cenedlaethol Cymru” a “National Assembly for Wales” yn disgrifio rôl a chyfrifoldebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gadarnhaol.<sup>137</sup>

**151.** Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymarfer ymgynghori, cyhoeddodd Comisiwn y Cynulliad ym mis Mehefin 2017 ei fod wedi cytuno i ddeddfu i newid enw'r Cynulliad i “Senedd Cymru / Welsh Parliament”.<sup>138</sup>

<sup>134</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 35

<sup>135</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 36

<sup>136</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraffau 279 a 283

<sup>137</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 284

<sup>138</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 109

**152.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi, yn ystod dadl ar y Bil arfaethedig ar 10 Hydref 2018, yr "awgrymodd nifer o Aelodau'r Cynulliad y dylai'r Cynulliad gael ei ailenwi'n 'Senedd'".<sup>139</sup> Mae'n mynd ymlaen i nodi'r canlynol:

"Yn dilyn y drafodaeth gyhoeddus hon, bu ymgysylltiad rhwng y Llywydd (fel Cadeirydd Comisiwn y Cynulliad) ac Aelodau unigol y Cynulliad a grwpiau pleidiau. Ymddangosodd fod gan yr enw uniaith, sef "Senedd", fwy o gefnogaeth ymhlith Aelodau'r Cynulliad nag unrhyw un o'r enwau eraill a ystyriwyd, gan gynnwys Senedd Cymru/Welsh Parliament."<sup>140</sup>

**153.** Hysbysodd y Llywydd Aelodau'r Cynulliad o'i phenderfyniad ym mis Tachwedd 2018:

"Trafododd y Comisiynwyr yr opsiynau a chytunwyd y byddwn i'n dewis yr enw a'r disgrifiadau i'w cynnwys yn y Bil a gaiff ei gyflwyno, gan mai fi yw'r Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil. Fel y gwyddoch, bydd angen cefnogaeth o leiaf 40 o Aelodau er mwyn pasio'r Bil. Fy mwriad felly, wrth gyflwyno'r Bil, yw cynnwys yr enw ar gyfer y sefydliad a'r disgrifiadau ar gyfer yr Aelodau sy'n adlewyrchu barn y rhan fwyaf o'r grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad ar hyn o bryd. Rwyf wedi penderfynu mai'r enw newydd a gyflwynir yn y Bil fydd yr enw uniaith, "Senedd" ac mai'r enw ar gyfer Aelodau fydd "Aelodau'r Senedd / Members of the Senedd."<sup>141</sup>

**154.** Wrth fabwysiadu'r enw, Senedd, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol:

"Gellir dadlau nad yw mabwysiadu term Cymraeg (h.y. Senedd) fel enw newydd y Cynulliad yn adlewyrchu statws cyfartal dwy iaith swyddogol y Cynulliad. Fodd bynnag, nid yw'r gofyniad i adlewyrchu statws cyfartal y ddwy iaith yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddwy iaith gael eu trin yn union yr un ffordd, fel y dangosir gan y rhestr o enwau uchod sy'n ymwneud â'r Cynulliad. Ystyrir y bydd mabwysiadu term Cymraeg fel enw newydd y Cynulliad, i'w ddefnyddio yn nwy iaith swyddogol y Cynulliad, yn helpu i gyflawni statws mwy cyfartal i'r ddwy iaith gyda threigl amser, o ran y defnydd ohonynt a'u proffil."<sup>142</sup>

---

<sup>139</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 110

<sup>140</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 111

<sup>141</sup> Llythyr gan y Llywydd at Aelodau'r Cynulliad, 12 Tachwedd 2018

<sup>142</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 909

---

**155.** Byddai acronymau teitlau newydd Aelodau'r Cynulliad yn cael eu talfyrru'n "AS" (Aelod o'r Senedd) ac "MS" (Member of the Senedd). Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod "peryl y gallai'r byrfodd AS am Aelod o'r Senedd gael ei ddrysus â'r un byrfodd ar gyfer Aelod Seneddol".<sup>143</sup>

**156.** Nid yw'r Bil yn newid y term "Cynulliad" lle y mae'n ymddangos gyntaf yn adran 1(1) o Ddeddf 2006 i "Senedd". Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi nad yw gadael y gair "Assembly" yn y ddarpariaeth "yn ddelfrydol",<sup>144</sup> ond ei fod yn adlewyrchu'r sefyllfa ddiodyn o dan Ddeddf 2006, sef na chaiff y Cynulliad ddiwygio Deddf 2006 ei hun, yn amodol ar rai eithriadau datganedig.<sup>145</sup> Mae hefyd yn dweud bod y rhesymau dros y dull gweithredu wedi'u nodi'n fanwl yn Atodiad 4 i'r Memorandwm Esboniadol<sup>146</sup> ond yn ychwanegu'r canlynol:

"Ar sail y sefyllfa hon, gallai canllawiau rhynglywodraethol o bosibl fynd i'r afael â sut y dylid mynd ati i ddrafftio deddfwriaeth er mwyn ei gwneud yn glir sut i ddefnyddio'r termau "Senedd" a "Welsh Parliament" mewn cyfraith."<sup>147</sup>

**157.** Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

"Rhagwelir y bydd "Welsh Parliament" hefyd yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr â'r enw "Senedd" ar arwyddion a mathau eraill o wybodaeth gyhoeddus i helpu i sicrhau bod y cyhoedd yn deall ystyr yr enw newydd."<sup>148</sup>

**158.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn tynnu sylw y bydd ystod o gamau gweithredu yn dilyn y newid cyfreithiol yn enw'r Cynulliad, ac y "bydd yr enw newydd yn cael ei hyrwyddo a chodir ymwybyddiaeth ohono".<sup>149</sup>

## Dewis enw

**159.** O ran effaith newid yr enw, dywedodd y Llywydd y canlynol wrthym:

---

<sup>143</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 125

<sup>144</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 117

<sup>145</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraffau 119 ac Atodiad 4

<sup>146</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Atodiad 4: Y rhesymeg dros ddewis y dull drafftio o ran newid yr enw, gan hepgor rhai cyfeiriadau at "Cynulliad" yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006

<sup>147</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraffau 119-120

<sup>148</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 122

<sup>149</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 134

“A dwi’n mawr hyderu y bydd y newid enw, a gosod yr enw ‘Cynulliad Cenedlaethol’ i hanes, a hanes 20 blynedd cyntaf ein Senedd ni—y bydd hwnna’n help ... i egluro i bobl Cymru’r gwahaniaeth rhwng eu Llywodraeth nhw a’u Senedd nhw.”<sup>150</sup>

**160.** Esboniodd y Llywydd sut y dewiswyd yr enw “Senedd”<sup>151</sup> a’r rheswm dros y penderfyniad i gynnwys yr enw uniaith llai poblogaidd hwn yn y Bil:

“Wastad yn gorfod bod ar mwyafrif y gefnogaeth sydd yna i basio Mesur o’r math yma, sef 40 allan o’r 60. Fe wnes i fynd drwy broses o ymgynghori gyda’r pleidiau gwleidyddol, gyda’r Aelodau yn unigol, nôl yn yr hydref, i weld lle oedd y canrannau uchaf yn cwmpo, ac, yn fy marn i, ar y pwynt yna yn sicr, yr enw Cymraeg oedd yn cael ei ffafrio fel y prif enw, yr enw ffurfiol, ond tra’n derbyn mai’r term ‘Welsh Parliament’ oedd y cyfieithiad ar gyfer ‘Senedd’.”<sup>152</sup>

**161.** Cydnabu fod yr enw a ddewiswyd heb ei wrthwynebu’n llwyr, ond ei fod yn mynd yn groes i’r ymgynghoriad cyhoeddus ond dywedodd y canlynol:

“I had to keep in the forefront of my mind the need to gain a supermajority for this legislation, and that was the driving factor in persuading me to introduce this piece of legislation with the monolingual name but with the accompanying descriptor of ‘Welsh Parliament’ there for all to use...”<sup>153</sup>

**162.** Roedd y Llywydd hefyd o’r farn ei fod yn “fater o ran symlrwydd, i ryw raddau,” y dylai’r enw Senedd gael ei rannu rhwng y sefydliad a’r adeilad a’i bod yn teimlo nad oedd yn gwneud gwahaniaeth.<sup>154</sup> Dywedodd hefyd na fyddai’r diffyg dangosydd tiriogaethol sy’n gysylltiedig â “Senedd” yn peri dryswch, yn enwedig o ystyried y diffyg camddealltwriaeth wrth ddefnyddio “Prif Weinidog”, a allai fod yn Brif Weinidog Cymru yn ogystal â Phrif Weinidog y Deyrnas Unedig.<sup>155</sup>

**163.** Ailadroddodd ei safbwynt yn ein sesiwn dystiolaeth derfynol ar y Bil:

“Dwi dal o’r farn i ailenwi’r Cynulliad Cenedlaethol yn ‘Senedd’ ac yna taw’r disgrifiad cywir yn y Saesneg o ‘Senedd’ yw ‘Welsh Parliament’. A

---

<sup>150</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [26]

<sup>151</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [80]

<sup>152</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [81]

<sup>153</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [89]

<sup>154</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [78]

<sup>155</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019 [125]

dyna dwi'n credu yw'r ffordd fwyaf hwylus o sicrhau cefnogaeth y mwyafrif mawr sydd ei angen yn y Cynulliad Cenedlaethol yma.”<sup>156</sup>

**164.** Wrth wneud sylwadau ar yr enw a ddewiswyd, dywedodd Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru y canlynol:

“I think that there’s an opportunity in the renaming of the Assembly to use it as a hook to communicate what the Assembly as an institution does, what kind of devolved areas it covers.”<sup>157</sup>

cyn ychwanegu'r canlynol:

“I think that the consultation response showed that there was varied support for different topics, and I think, ideally, consultations should always look at what the public and people who’ve responded to that think. But I think there are other reasons for pursuing ‘Senedd’ as a name, and I don’t think that the consultation showed that there was necessarily that much opposition to that.”<sup>158</sup>

**165.** Daeth cefnogaeth i ddefnyddio “Senedd” hefyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Cyfeiriodd at ymateb blaenorol i ymgynghoriad Comisiwn y Cynulliad ar newid enw'r Cynulliad Cenedlaethol gan nodi'r canlynol:

“nodwyd nad oedd angen creu ffurf Saesneg ar yr enw. Nodwyd yr arfer a sefydlwyd eisoes o ddefnyddio enwau Cymraeg yn unig mewn rhai agweddau ar fyd gwleidyddiaeth Cymru. Cyfeiriwyd at fanteision defnyddio un ffurf Gymraeg yn enw i'r Cynulliad, gan gynnwys codi statws y Gymraeg.”<sup>159</sup>

**166.** Nododd hefyd “yn Rhan 2 (3-8) y Bil y bydd y gair “Senedd” yn hytrach na “Parliament” yn elfen o nifer o deitlau newydd a ddaw yn sgil newid enw'r Cynulliad, a gorffennodd drwy ddweud y canlynol:

“Fe’ch anogaf, felly, i ddefnyddio'r Bil i bennu enw uniaith Gymraeg sef “Senedd” gan hepgor y cynnig i ddefnyddio enw amgen Welsh Parliament yn ogystal.”<sup>160</sup>

---

<sup>156</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [123]

<sup>157</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [29]

<sup>158</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [31]

<sup>159</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE11, Comisiynydd y Gymraeg

<sup>160</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE11, Comisiynydd y Gymraeg

---

**167.** Roedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg hefyd yn cefnogi'r defnydd o "Senedd". Dywedodd ei bod yn credu y dylai fod enw uniaith Gymraeg ar ein corff democrataidd cenedlaethol, sef y "Senedd".<sup>161</sup>

**168.** Clywsom hefyd gan fwy na 600 o aelodau o'r cyhoedd a oedd yn cefnogi'r defnydd o "Senedd", gan ddweud y canlynol:

"Mae llawer yn cyfeirio at y sefydliad fel 'Senedd' eisoes, yn y ddwy iaith. Prin fod y term "Welsh Parliament" yn cael ei ddefnyddio o gwbl ar hyn o bryd, a byddai ei gyflwyno nawr fel rhyw enw 'lled-swyddogol' yn gam yn ôl ac yn creu dryswch. Daw pawb i ddeall Senedd yn fuan iawn os mai dyma fydd yr unig enw."<sup>162</sup>

**169.** Cawsom wybod y canlynol hefyd gan aelod arall o'r cyhoedd:

"There is a linguistic convention that the name of Parliament is not translated ... Wales, should embrace this convention and give itself a globally unique name, for a globally unique nation. ... As such Senedd should be the official, and only, name for the Welsh Parliament."<sup>163</sup>

**170.** Dywedodd yr Athro Bush QC nad oes rheswm cyfreithiol pam mae angen newid enw'r Cynulliad Cenedlaethol. Dywedodd fod yr enw presennol "yn cyflawni'r swyddogaeth o ddarparu enw clir a diamwys i'r sefydliad".<sup>164</sup> Fodd bynnag, pwysleisiodd ei fod yn ffafrio'r enw "Senedd Cymru" dros "Senedd" yn unig.<sup>165</sup> Yn ôl yr Athro Bush QC, ystyrir bod cyfeiriadau at y "Senedd" yn Gymraeg ar hyn o bryd yn gyfeiriadau at senedd San Steffan a bod yr arfer hwnnw'n debygol o barhau:

"Bydd angen, yn ymarferol, cyfeirio'n aml yn Gymraeg, ar lafar ac mewn ysgrif, at 'Senedd Cymru'. Os daw "Senedd Cymru", mewn gwirionedd, yn ffordd arferol o gyfeirio at y sefydliad, o leiaf mewn un iaith, byddai eglurdeb a chysondeb yn cael eu cryfhau pe bai hwnnw hefyd yn enw cyfreithiol arno."<sup>166</sup>

**171.** Nododd y canlynol:

---

<sup>161</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE13, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

<sup>162</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE15, 609 o unigolion

<sup>163</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE06, unigolyn (Saesneg yn unig)

<sup>164</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE03, yr Athro Keith Bush QC

<sup>165</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE03, yr Athro Keith Bush QC

<sup>166</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE03, yr Athro Keith Bush QC

“... o fewn systemau ffederal neu led-ffederal, lle bo deddfwrfeydd yn gweithredu ochr yn ochr a'i gilydd, ar lefelau gwahanol, yr arferiad yw defnyddio terminoleg sy'n gwahanu'n glir rhyngddynt.”<sup>167</sup>

**172.** Ceisiodd yr Athro Bush QC hefyd dynnu sylw at resymau cystadleuol dros newid yr enw:

“I think there are tensions here, I must say, between on the one hand the aim, which as I understand it is the primary aim of this part of the Bill, which is to improve understanding of the role of this institution, and on the other hand the other aim of enhancing and underlining the status of the Welsh language. Clearly, to allocate a monolingual Welsh name to an institution isn't the easiest thing for everybody in our society to understand ... over a period of time, everybody in Wales, if this is the outcome, would understand the function.

But if on the other hand the aim is to immediately boost understanding by adopting a name in both languages that is as close as possible to the names that are commonly, if not predominantly, used in Commonwealth countries for legislatures, then clearly you wouldn't go for a Welsh-only name.”<sup>168</sup>

**173.** Ymatebodd aelod o'r cyhoedd i'n hymgyngoriad gan nodi'r canlynol:

“Yr enw ‘Senedd Cymru’ rwy in gefnogi. Maen berthnasol, parchus a gosgeiddig, yn dangos yn glir ein hyder an uchelgais fel cenedl.”<sup>169</sup>

**174.** Cyfeiriodd Llywodraeth Cymru hefyd, wrth nodi bod yn well ganddi newid enw, at bwysigrwydd cael dangosydd daearyddol:

“Rydym yn cydnabod mai mater i'r Cynulliad cyfan benderfynu yn ei gylch yw enw ein senedd, ond rydym hefyd yn ystyried y byddai'n fanteisiol dewis "Senedd Cymru" a "Welsh Parliament" cyn "Senedd" oherwydd byddent yn ymateb i'n ail bryder ynglŷn â'r cysylltiad tiriogaethol, fel y gwna Senedd yr Alban a Dáil Éireann.”<sup>170</sup>

---

<sup>167</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE03, yr Athro Keith Bush QC

<sup>168</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 25 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [156]

<sup>169</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE21, unigolyn

<sup>170</sup> Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 13 Chwefror 2019

---



## Drafftio adran 2 o'r Bil

---

**175.** Yn ein hystyriaeth o newid enw'r Cynulliad Cenedlaethol, gwnaethom ystyried sut y caiff yr enw newydd ei wneud yn gyfreithiol.

**176.** Mae adran 2 o'r Bil yn dweud y canlynol:

(1) Mae Cynulliad Cymru a gyfansoddwyd gan Ddeddf 2006 i'w alw'n "Senedd".

(2) Caniateir galw'r Senedd hefyd yn Welsh Parliament.

**177.** Yn ei lythyr atom ar 13 Chwefror 2019, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y canlynol am waith drafftio adran 2:

"Mae gan Lywodraeth Cymru bryderon y gallai'r newid hwn ychwanegu at y penbleth sy'n bodoli eisoes ynghylch enwau ein sefydliadau, yn hytrach na lleihau'r penbleth hwnnw. Mae hyn yn hynod bwysig gan ystyried bod y diwygiadau a gynigir yn rhai i'n statud cyfansoddiadol allweddol. Rydym hefyd yn poeni y gallai defnyddio "Senedd" ar ei ben ei hun heb unrhyw awgrym arall o'i gysylltiad tiriogaethol â Chymru arwain at faterion hygyrchedd.

Byddai'n well gennym ddiwygio a1(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn osgoi unrhyw berygl o benbleth, fel hyn:

"(1) There is to be a parliament for Wales to be known as [x]."<sup>171</sup>

**178.** Ymhelaethodd y Cwnsler Cyffredinol ar ei bryderon pan ddywedodd y canlynol:

"The proposed amendment to section 1 of the Government of Wales Act would read, effectively, 'There is to be an Assembly for Wales to be known as the Senedd, and the Senedd may also be known as the Welsh Parliament.' So, effectively, that stipulates in one of our key constitutional statutes three different names, three different terms, for the same institution, and I think whatever one's view is of the legal analysis—and, plainly, there are different perspectives on that—everyone, I think, would accept that that isn't the most accessible and straightforward way to describe the institution. And since a fundamental part of the process was to ensure public understanding of what we do, we should set great store by achieving accessibility in

---

<sup>171</sup> Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 13 Chwefror 2019

relation to that. There is also a separate question about the drafting of the legislation, which both amends the Government of Wales Act and then creates a separate set of standalone provisions describing the institution, and I'm not clear why that's an advantage. That seems to me to increase the complexity rather than decrease it, without adding any particular benefit."<sup>172</sup>

**179.** Esboniodd y Cwnsler Cyffredinol, yn ei farn ef, y byddai'r dull gweithredu y mae'n ei argymhell o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol. Dywedodd y canlynol:

"I am confident of that. That point, as the committee will know, has been the subject of discussion between the Government and the Commission, and the Commission has taken a different view, but I note that the Secretary of State's view as well is that this would be within the Assembly's competence."<sup>173</sup>

**180.** Roedd y Cwnsler Cyffredinol yn cyfeirio at lythyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol at y Llywydd ar 6 Chwefror 2019, a ddywedodd y canlynol:

"I note your intention to change the term "Assembly" to "Parliament", which is something I support. I am advised that the Assembly does not have legislative competence under paragraph 7(2) of Schedule 7B to use the Government of Wales Act 2006 to make this change. However, the Assembly plans to use its powers to make consequential or incidental provision set out in paragraph 7(4) of this Schedule.

In this case, I support the change on the basis it can be argued that it is incidental to the Assembly's change of name rather than consequential and would be grateful if you could confirm whether you share this view."<sup>174</sup>

**181.** Mewn ymateb, dywedodd y Llywydd y canlynol:

"... ni fydd y Bil (fel y'i cyflwynir) yn newid y term 'Assembly' (lle mae'n ymddangos gyntaf yn Adran 1(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru) i 'Parliament'. Yn hytrach, bydd y Bil yn darparu bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru (fel y mae Deddf Llywodraeth Cymru yn disgrifio'r

---

<sup>172</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [170]

<sup>173</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [177]

<sup>174</sup> Llythyr at y Llywydd gan y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, 6 Chwefror 2019

sefydliad) yn cael ei alw'n Senedd, ac y gall y Senedd gael ei alw hefyd yn Welsh Parliament.”<sup>175</sup>

**182.** O ran y dull drafftio a ffefrir gan Lywodraeth Cymru, dywedodd y Llywydd wrthym fod atyniad yn sicr i'r ffordd honno o ddisgrifio'r cymal hwnnw.<sup>176</sup> Fodd bynnag, esboniodd ei bod wedi bod yn ofalus, gan nodi cyngor a gafodd ar gymhwysedd deddfwriaethol.<sup>177</sup>

**183.** Wedyn aeth ymlaen i ddweud:

“Dwi yn deall yr apêl sydd gan y ffurf geiriau sydd yn dod gan y Llywodraeth, oherwydd mae yna symllrwydd ac eglurder, efallai, yn ffurf y geiriad yna. Ond i fi, wrth gwrs, fe oedd cymhwysedd yr union eiriad yna yn bwysig wrth i fi ddod i benderfyniad terfynol ar yr hyn oedd yn mynd i gael ei gyflwyno yn y Mesur.”<sup>178</sup>

**184.** Esboniodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol Comisiwn y Cynulliad y rhesymau dros yr ymadrodd a ddefnyddir yn y Bil:

“... in section 1 of the Government of Wales Act, our position is that there are two propositions: one is that there is to be an institution that is an Assembly, and the other is that it has a name that, at the moment, is ‘National Assembly for Wales’ or ‘Cynulliad Cenedlaethol Cymru’. The argument that is put as to why the words

‘There is to be an Assembly for Wales’

may be amended is because it is said that that is consequential on changing the name of the institution. If it were consequential on changing the name of the institution, then we would agree with that proposition, but we say that it's not. We say that in 2006, Parliament passed an Act that set out two propositions, one, that there would be an Assembly, and the second that it would have a particular name, and that the first 12 words of section 1 are beyond the competence of the Assembly to change.”<sup>179</sup>

---

<sup>175</sup> Llythyr gan y Llywydd at Ysgrifennydd Gwladol Cymru, 12 Chwefror 2019

<sup>176</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [45]

<sup>177</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [46]

<sup>178</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019 [129]

<sup>179</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019 [131-133]

**185.** Esboniodd fod Senedd y DU felly wedi rhoi'r pŵer i'r Cynulliad newid yr enw, ond nid y cyfeiriad at y sefydliad fel Cynulliad<sup>180</sup>. Wrth dderbyn bod y termau "cynulliad" a "senedd" yn aml yn cael eu defnyddio'n gyfnewidiol,<sup>181</sup> nododd y gallai Senedd y DU fod wedi newid cymhwysedd y Cynulliad ar y mater hwn yn ystod hysbysu *Deddf Cymru 2017* ond na wnaeth hynny. Ychwanegodd y canlynol:

"We maintain the position that the arguments around consequential and incidental don't apply."<sup>182</sup>

**186.** Dywedodd y Llywydd y canlynol hefyd:

"... mae'r cymal fel mae e'n darllen yn y Mesur sydd gerbron yn dweud y bydd yna Cynulliad Cenedlaethol, ond mae e'n glir wedyn taw enw y Cynulliad yna fydd 'Senedd', ac wedyn, o'i ddisgrifio yn y Saesneg, gellid defnyddio'r term 'Welsh Parliament'. Un peth sydd wastad wedi bod yn bach o gonsyrn i fi, o'i ddrafftio fe yn y modd yma, oedd y byddai'r term 'National Assembly' yn para yn y Saesneg, ac y byddai 'Senedd' yn datblygu yn y Gymraeg. Ac felly, o fod yn rhoi 'Welsh Parliament' ar wyneb y Mesur, yna mae hynna yn cadarnhau taw 'Welsh Parliament' yw'r enw yn y Saesneg, os oes rhywun yn defnyddio'r enw yn y Saesneg, ond taw 'Senedd' yw yr enw."<sup>183</sup>

**187.** Ystyriodd yr Athro Bush QC, os caiff "Senedd Cymru" ei fabwysiadu, nad yw'n gweld angen ymarferol i awdurdodi'r defnydd swyddogol o'r term amgen "Welsh Parliament". Dywedodd y byddai gwneud hynny'n "gwanháu effaith pwysleisio safle'r Gymraeg fel yr iaith genedlaethol hanesyddol, os dyna yw nod pennaf y newid enw". Fodd bynnag, roedd yn credu'r canlynol:

"... Petai teimlad cryf na ddylai enw uniaith Gymraeg gael ei mabwysiadu byddai'n fwy rhesymegol i fabwysiadu, yn syml, enw dwyieithog, gyda "Senedd Cymru" a "Welsh Parliament" yn cael eu defnyddio'n gyson yn y ddwy iaith."<sup>184</sup>

**188.** Pan gafodd ei holi ar y mater hwn, dywedodd y canlynol:

<sup>180</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [52]

<sup>181</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [59-60]

<sup>182</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [60-62]

<sup>183</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019 [135]

<sup>184</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE03, yr Athro Keith Bush QC

“I think there is a bit of ambiguity about saying that you may refer to it as the Welsh Parliament. People do refer to this institution by all kinds of names, it seems to me, and if what you’re saying is that, in practical terms, people might call it ‘Welsh Parliament’, then I don’t think you need to say that. And it might also introduce some uncertainty among people as to what the legal status of the English name was. So, if you were producing a contract or some kind of legal document that referred to this institution, would you be entitled to refer to it as the ‘Welsh Parliament’? So, my feeling is that there should be a clean decision—either for a Welsh-only name, as a legal name, or equivalent, equal, English and Welsh names.”<sup>185</sup>

**189.** Roedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn teimlo bod adran 2(2) o’r Bil yn sefydlu enw dwyieithog de facto ac y dylid ei ddileu. Roedd o’r farn y byddai dilysu enw Saesneg yn tanseilio’r gwaith o normaleiddio’r defnydd o’r Gymraeg ac yn creu dryswch cyfreithiol ac ymarferol. Roedd hefyd o’r farn y byddai cynnwys term Saesneg ar gyfer y logo, arwyddion, neu enwau parth yn creu enw dwyieithog de facto, yn groes i’r bwriad a nodwyd o gael enw uniaith.<sup>186</sup>

**190.** Nododd, pe bai consensws ei bod yn gyfreithlon newid y geiriad cychwynnol hwnnw, mai ei hopsiwn a ffefrir, ar hyn o bryd, fyddai cyflwyno’r gwelliant a ganlyn:

“Bydd deddfwrfa genedlaethol i Gymru i’w galw’n ‘Senedd’.”

“There is to be a national legislature for Wales to be known as the ‘Senedd’.”<sup>187</sup>

## Ein barn ni

**191.** O’r dystiolaeth a gawsom, rydym yn nodi bod amrywiaeth o safbwyntiau ar beth y dylai enw newydd y Cynulliad Cenedlaethol fod, gydag eiriolwyr ar gyfer enwau uniaith “Senedd” neu “Senedd Cymru”, neu enw dwyieithog “Senedd Cymru / Welsh Parliament”.

**192.** Credwn fod yn rhaid i’r dewis enw ar gyfer y sefydliad fod yn benderfyniad a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol yn ei gyfanrwydd ac felly nid ydym wedi ffurfio safbwynt ar enw a ffefrir.

---

<sup>185</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 25 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [159]

<sup>186</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE13, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

<sup>187</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE13, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

- 193.** Yr hyn rydym wedi ceisio ei wneud yn yr adroddiad hwn yw nodi rhai o'r safbwyntiau a gawsom ac a glywsom o blaid pob opsiwn i gynorthwyo Aelodau'r Cynulliad i wneud eu penderfyniad. Ochr yn ochr â'r dystiolaeth hon, byddem yn tynnu sylw at Femorandwm Esboniadol cysylltiedig y Bil, sy'n tynnu sylw at amrywiaeth o wybodaeth berthnasol, gan gynnwys gwaith y Panel Arbenigol, ymarfer ymgynghori Comisiwn y Cynulliad ei hun ac Atodiad 4 ar y sail resymegol dros y dull drafftio ar gyfer adran 2 a fabwysiadwyd gan Gomisiwn y Cynulliad.
- 194.** Rydym wedi ystyried y mater a godwyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch y ffordd y mae'r newidiadau i adran 1(1) o Ddeddf 2006 wedi'u drafftio a'i dull amgen a awgrymir.
- 195.** Mae'r cwestiwn yn gofyn a oes gan y Cynulliad Cenedlaethol y cymhwysedd deddfwriaethol i ddiwygio'r 12 gair cyntaf yn adran 1(1) o Ddeddf 2006, sef "There is to be an Assembly for Wales to be known as". Fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, nid yw'r Bil yn diwygio'r 12 gair cyntaf hyn, er bod dull gweithredu amgen Llywodraeth Cymru yn cynnig eu diwygio.
- 196.** Nodwn y safbwyntiau a geir yn Atodiad 4 y Memorandwm Esboniadol a chan Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol Comisiwn y Cynulliad, sef bod newid y 12 gair cyntaf yn adran 1(1) y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.
- 197.** Rydym o'r farn ei bod yn rhwystredig, er ei bod yn bosibl newid enw'r "Cynulliad" i "Senedd", fod y cyfyngiad presennol o ran cymhwysedd deddfwriaethol yn arwain at waith drafftio trwsogl ac anniben, a dryswch o bosibl.
- 198.** Rydym wedi nodi barn y Cwnsler Cyffredinol bod yr Ysgrifennydd Gwladol presennol yn cytuno bod geiriad arfaethedig Llywodraeth Cymru o fewn cymhwysedd deddfwriaethol, ond nid ydym yn glir, o lythyr yr Ysgrifennydd Gwladol ac ymateb y Llywydd, mai felly y mae. Fodd bynnag, hyd yn oed os yw barn y Cwnsler Cyffredinol yn gywir, efallai y bydd barn wahanol gan Ysgrifennydd Gwladol yn y dyfodol.
- 199.** Y naill ffordd neu'r llall, mae perygl y caiff y gwelliant a awgrymwyd gan y Cwnsler Cyffredinol ei herio a'i gyfeirio at y Goruchaf Lys yn unol ag adran 112 o Ddeddf 2006 gan y Twrnai Cyffredinol neu, er enghraifft, drwy gais am adolygiad barnwrol gan ddinesydd preifat. Gallai unrhyw her o'r fath oedi'r Bil a lleihau'r tebygolrwydd y bydd pleidleisio yn 16 oed ar waith ar gyfer etholiad y Cynulliad yn 2021.
- 200.** Os yw Llywodraeth Cymru yn penderfynu bwrw ymlaen i gynnig diwygio'r 12 gair cyntaf yn adran 1(1) o Ddeddf 2006, credwn, er mwyn osgoi amheuaeth ac i

leihau'r perygl o her, y dylai Llywodraeth Cymru geisio cytundeb gan Lywodraeth y DU i wneud Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 109 o Ddeddf 2006 i addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn unol â hynny.

**Argymhelliad 6.** Os yw Llywodraeth Cymru, fel y nodwyd, yn bwriadu cyflwyno gwelliannu i adran 2 o'r Bil fel y nodwyd yn llythyr y Cwnsler Cyffredinol ar 13 Mawrth 2019 atom, er mwyn osgoi amheuaeth, dylai ofyn i Lywodraeth y DU gyflwyno Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 109 o Ddeddf 2006 i addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn unol â hynny.

**201.** Wrth ddod i'r farn, hon rydym yn ymwybodol<sup>188</sup> bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i Orchymyn Adran 109 ac y gallai newid o'r fath, pe bai angen, gael ei gynnwys yn y darn hwnnw o ddeddfwriaeth.

**202.** Mewn perthynas â'r rhesymau dros newid enw'r Cynulliad Cenedlaethol, rhoddwyd pwyslais ar y cyfle y mae'n ei gynnig i godi ymwybyddiaeth o rôl a swyddogaethau'r ddeddfwrfa a'r llywodraeth. Felly, dylai Comisiwn y Cynulliad sicrhau, ni waeth pa enw a gaiff ei ddewis ar gyfer ein sefydliad, y manteisir ar y cyfle i esbonio'n glir beth yw ei rôl a'i swyddogaethau (a rhai Llywodraeth Cymru), a fydd yn helpu i hwyluso ac annog pobl i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.

---

<sup>188</sup> Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 9 Ebrill 2019

## 6. Rhan 3 – Etholiadau

Mae'r Rhan hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer gostwng yr oedran pleidleisio yn etholiadau'r Senedd. Mae Rhan 3 yn cynnwys diwygiadau i Ddeddf 2006 ac i'r gyfraith etholiadol bresennol, yn enwedig *Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983* a Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001.

### Crynodeb byr o'r gyfraith etholiadol allweddol sy'n berthnasol i'r Bil

#### Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983

**203.** Mae Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (Deddf 1983) yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â'r etholfraint ar gyfer cynnal etholiadau i Senedd y DU, yn ogystal ag etholiadau llywodraeth leol ym Mhrydain Fawr, a thrafodion sy'n ymwneud â hwy.

**204.** Mae Deddf 1983 yn nodi pwy gaiff bleidleisio fel etholwr yn etholiadau seneddol y DU yn adran 1, ac mae adran 2 yn nodi'r personau a gaiff bleidleisio fel etholwr mewn etholiad llywodraeth leol.

**205.** Mae adran 4 o Ddeddf 1983 yn nodi'r personau sydd â hawl i gael eu cofrestru fel etholwr seneddol neu lywodraeth lleol. Er mwyn pleidleisio mewn etholiadau neu refferenda, mae angen i berson cymwys fod ar y gofrestr etholiadol. Dywed adran 9 o Ddeddf 1983 y canlynol:

“Each registration officer shall maintain—

(a) a register of parliamentary electors for each constituency or part of a constituency in the area for which he acts; and

(b) a register of local government electors for the local government areas or parts of local government areas included in the area for which he acts.”

**206.** Mae'r gofrestr etholiadol yn rhestr o enwau a chyfeiriadau pawb sy'n cael pleidleisio ac wedi cofrestru i wneud hynny (neu a fydd â hawl i bleidleisio'n fuan) a chaiff ei chynnal gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae dyletswydd ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol i lunio'r gofrestr etholiadol a sicrhau ei bod mor gyfoes â phosibl.



## Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001

---

**207.** Mae Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 (Rheoliadau 2001) yn darparu llawer o'r manylion gweithredol ar y system gofrestru etholiadol ar gyfer etholiadau seneddol a llywodraeth leol. Mae'r meysydd a gwmpesir gan Reoliadau 2001 yn cynnwys datganiadau etholwyr tramor a datganiadau o wasanaeth, y broses gofrestru fel etholwr, pleidleisio drwy ddirprwy a phleidleisio drwy'r post.

## Deddf Llywodraeth Cymru 2006

---

**208.** Mae adran 12 o Ddeddf 2006 yn darparu mai'r personau sydd â hawl i bleidleisio ar hyn o bryd yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yw'r rhai a fyddai â hawl i bleidleisio fel etholwyr mewn etholiad llywodraeth leol yng Nghymru ac sydd ar y gofrestr llywodraeth leol gyda chyfeiriad yn etholaeth berthnasol y Cynulliad.

## Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007

---

**209.** Mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (Gorchymyn 2007) yn gwneud darpariaeth fanwl ynghylch cynnal etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys darpariaeth ynghylch pleidleisio a phleidleiswyr.

## Newidiadau deddfwriaethol i'r gyfraith etholiadol a gynigir gan y Bil

**210.** Mae adran 10 o'r Bil yn caniatáu i bersonau 16 a 17 oed bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ar neu ar ôl 5 Ebrill 2021 ddrwy ddiwygio adran 12(1)(a) o Ddeddf 2006.

**211.** Mae adran 12(1)(b) o Ddeddf 2006 yn darparu bod yn rhaid i'r personau sydd â hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol hefyd gael eu cofrestru yn y gofrestr etholwyr llywodraeth leol (y mae'n ofynnol ei chadw yn unol â Deddf 1983). Felly, mae adran 11 o'r Bil yn diwygio adran 4 o Ddeddf 1983 fel bod yr oedran pan gaiff person hawl i gael ei gofrestru fel etholwr llywodraeth leol yng Nghymru yn newid o 18 oed neu'n hŷn i 16 oed neu'n hŷn.

**212.** Mae adran 13 yn diwygio darpariaethau sy'n ymdrin â gwahoddiadau i gofrestru yn Neddf 1983 a Rheoliadau 2001 i gynnwys darpariaeth am bersonau o dan 16 oed. Mae adran 14 yn darparu'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch gwahoddiadau i wneud cais i gofrestru fel etholwr llywodraeth leol yng Nghymru.

**213.** Mae adran 15 yn gwneud nifer o ddiwygiadau i Reoliadau 2001 mewn perthynas â cheisiadau i gofrestru etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru, ac mae adran 16 hefyd yn diwygio Rheoliadau 2001, ond mewn perthynas ag adolygiadau o hawl pobl o dan 16 oed i gofrestru.

**214.** Mae adran 17, yn rheoliad 31J o Reoliadau 2001, yn ychwanegu at y rhestr o bersonau a gaiff ardstio cais i gofrestru'n ddiennw a wneir gan berson o dan 16 oed o ran cofrestru etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru.

**215.** Mae adran 18 yn diwygio adran 7B o Ddeddf 1983 mewn perthynas â chofrestru etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru. Mae adran 7B yn nodi o dan ba amgylchiadau y caniateir i berson wneud datganiad o gysylltiad lleol. Mae adran 18(2) yn caniatáu i bersonau o dan 18 oed wneud datganiad o gysylltiad lleol os ydynt yn derbyn gofal gan awdurdod lleol neu'n cael eu cadw mewn llety diogel a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

**216.** Mae adran 19 yn diwygio Deddf 1983 i ganiatáu i bobl o dan 18 oed gael eu hystyried ar gyfer cymhwyster gwasanaeth/datganiad o wasanaeth yn eu rhinwedd eu hunain, gan ganiatáu iddynt gael eu cofrestru fel etholwyr sy'n byw dramor. Yna, gall yr etholwyr hynny bleidleisio drwy gyfeirio at eu cartref neu eu cyfeiriad blaenorol, yn hytrach na'r cyfeiriad lle y maent yn byw gyda rhiant (rhieni) neu warcheidwad (gwarcheidwaid) sydd wedi'u hanfon ar wasanaeth. Mae adrannau 20 ac 21 yn gwneud darpariaeth ychwanegol mewn perthynas â datganiadau o wasanaeth drwy ddiwygio Rheoliadau 2001.

**217.** Mae Adran 22 yn diwygio adran 9 o Deddf 1983. Mae'r diwygiad yn darparu, lle y caiff y gofrestr o etholwyr seneddol a'r gofrestr o etholwyr llywodraeth leol eu cyfuno a lle y mae'n cynnwys cofnod ar gyfer person 16 neu 17 oed sydd wedi'i gofrestru fel etholwr llywodraeth leol yn unig, rhaid i'r cofnod nodi'r dyddiad y bydd y person yn cyrraedd 18 oed.

**218.** Mae adrannau 23 i 25 yn cynnwys darpariaethau sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer diogelu gwybodaeth am bobl sydd o dan 16 oed. Mae adran 25 yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch datgelu a diogelu gwybodaeth o'r fath.

**219.** Mae adran 26 yn gwneud diwygiadau i Orchymyn 2007 ac, yn benodol, yn mewnosod diffiniad o "voting age" fel un sy'n golygu 16 oed neu drosodd ac yn diwygio'r diffiniad o "qualifying commonwealth citizen" at ddibenion pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad.

## Estyn yr hawl i bleidleisio

### Estyn yr hawl i bersonau 16 a 17 oed bleidleisio yn etholiadau'r Senedd

---

**220.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod nifer o ddadleuon o blaid galluogi pobl ifanc 16 a 17 oed i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cryfhau atebolrwydd democrataidd, trwy alluogi rhan ehangach o'r gymuned i gael rôl uniongyrchol yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol;
- galluogi mwy o ymgysylltiad o ran pleidleisio yn y tymor hwy (ar y sail y gallai profiad cynharach o bleidleisio annog unigolion i barhau i wneud hynny);
- byddai'n anghyson pe na fyddai'r oedran pleidleisio yn cael ei ostwng i 16 oed ar gyfer etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol, pe byddai Llywodraeth Cymru yn penderfynu deddfu i ostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau llywodraeth leol Cymru.<sup>189</sup>

**221.** Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi casgliad y Panel Arbenigol y byddai estyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 a 17 oed o 2021 ymlaen yn ffordd rymus o godi ymwybyddiaeth wleidyddol a chyfranogiad ymhlith pobl ifanc.<sup>190</sup> Mae hefyd yn tynnu sylw at y ffactorau a ystyriwyd gan y Panel Arbenigol wrth ffurfio ei safbwyntiau, a oedd, er enghraifft, yn cynnwys cymaryddion rhyngwladol, y trothwyon oed ar gyfer hawliau a chyfrifoldebau cyfreithiol eraill a'r effaith ar gyfranogiad gwleidyddol.<sup>191</sup>

**222.** Mae Pennod 17 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y Bil, sy'n cynnwys ystyried gostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed.

**223.** Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn cynnwys crynodeb o'r oeddrannau pleidleisio mewn mannau eraill yn y DU a dadansoddiad o ddadleuon yn erbyn gostwng yr oedran pleidleisio isaf.<sup>192</sup>

**224.** Yn ei ymarfer ymgynghori ar ôl adroddiad y Panel Arbenigol, canfu Comisiwn y Cynulliad fod 59 y cant o ymatebwyr (910 i gyd) o'r farn y dylid gostwng yr

---

<sup>189</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 140

<sup>190</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 46

<sup>191</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 47

<sup>192</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), Memorandwm Esboniadol, Atodiadau 2 a 3 yn ôl eu trefn.

oedran pleidleisio i 16 oed, gyda 39 y cant yn erbyn hyn (gweler y Tabl isod).<sup>193</sup> Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi canlyniadau ymarfer ymgynghori gyda phobl ifanc o oedran ysgol uwchradd yn 2014 gan y Llywydd ar y pryd, pan oedd 53 y cant o ymatebwyr (10,375) o blaid gostwng yr oedran pleidleisio ac roedd 29 y cant yn erbyn hynny.<sup>194</sup>

Tabl: Ymarfer ymgynghori Comisiwn y Cynulliad, Creu Senedd i Gymru (2018): dadansoddiad o ymatebion ar beth y dylai'r oedran pleidleisio isaf fod

Ateb	O dan 18 oed		Dros 18 oed		Cyffredinol	
16	100	81 y cant	810	57 y cant	910	59 y cant
18	20	18 y cant	570	41 y cant	590	39 y cant
Ddim yn gwybod	0	1 y cant	30	2 y cant	30	2 y cant
Ffynhonnell, Tabl 4 y Memorandwm Esboniadol. Sylwer, mae rhai rhifau wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf						

**225.** Mewn ymateb i'n hymarfer ymgynghori ac yn ein gwaith ymgysylltu â phobl ifanc, cafwyd ymateb cadarnhaol yn gyffredinol i ostwng yr oedran pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol i 16 oed.

**226.** Roedd Comisiynydd Plant Cymru yn cefnogi gostwng yr oedran pleidleisio, a dywedodd y canlynol:

“Young people aged 16 and 17 are able to live independently, to consent to sexual relationships and to work and pay taxes. Extending the voting franchise in Wales will strengthen the accountability of politicians to young people in those age groups.”<sup>195</sup>

**227.** Roedd yr Athro David Egan hefyd yn cefnogi estyn yr etholfraint:

“I see no reason at all why we shouldn't have faith in our young people in Wales after the age of 16. I think it's completely consistent with the aspirations of this Assembly and the Welsh Government in terms of the United Nations convention on human rights. That's always been a very strong part of what post-devolution Wales has been about.”<sup>196</sup>

**228.** Mynegodd Solace ei chefnogaeth dros ostwng yr oedran pleidleisio:

<sup>193</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 49 ac adran 5.3.

<sup>194</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), Memorandwm Esboniadol, Pennod 5, adran 5.1.

<sup>195</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE07, Comisiynydd Plant Cymru (Saesneg yn unig)

<sup>196</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [148]

“The first thing is that I completely support and am an advocate for the change of the franchise ... and it’s very capable of being introduced in time for your next elections.”<sup>197</sup>

**229.** Dywedodd Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru, a nododd fod estyn yr oedran pleidleisio yn gyfle allweddol i adfywio ein democratiaeth ac ymgysylltu â phobl ifanc ar adeg dyngedfennol yn eu bywyd,<sup>198</sup> y canlynol:

“... there is real scope for engaging a new demographic in Welsh politics and also, essentially, the main argument for me is that they’re a captive audience. Sixteen and 17-year-olds are in school, able to receive political education, whereas 18-year-olds, as we’ve seen, are quite unlikely to engage, and it’s a really bad time in their life when they’re off to university, starting their career journey.”<sup>199</sup>

**230.** Ychwanegodd y canlynol:

“I don’t think we would necessarily make an argument that much around entitlement, but I think, looking at the point that young people are at at 16—and they do have rights to do other things at 16 and there isn’t one age where everyone gets the right to be an adult. I think it isn’t necessarily about that entitlement argument; it is about trying to make sure that we are doing politics better and that young people are more engaged in it, rather than the entitlement argument.”<sup>200</sup>

**231.** Gwnaeth yr Athro McAllister bwynt tebyg. Myfyriodd ar farn y Panel Arbenigol nad oedd gostwng yr oedran yn ymwneud â’r canlynol:

“... a juncture at which an individual acquired the rights and responsibilities of being an adult. Instead ... this was an opportunity for a programme of much greater democratic engagement and citizenship, and that we felt the logistical opportunities to engage with young people at 16 were stronger than they were at 18.”<sup>201</sup>

**232.** Dywedodd tîm ymchwil prosiect “Gostwng yr Oedran Pleidleisio ar draws y DU” y canlynol:

---

<sup>197</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [226]

<sup>198</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, SE04, Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru (Saesneg yn unig)

<sup>199</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [36]

<sup>200</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [89]

<sup>201</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 25 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [78]

“Our research indicates that 18 remains the age where the vast majority of rights associated with adulthood coalesce and are realised, and that there is a general upward trajectory in ages of responsibility.”<sup>202</sup>

**233.** Aeth ymlaen i ddweud:

“We agree with the conclusion of the Expert Panel that there is no single age at which a young person takes on all the responsibilities and rights of an adult citizen. Moreover, this issue, as they noted in their final report, should not on its own determine whether the voting age should be lowered or not. Our research indicates however that it is important that newly enfranchised voters might understand the importance of the vote within a wider context of their transitions to adulthood - and not a definitive marker of adulthood itself.”<sup>203</sup>

**234.** Fel rhan o'i dystiolaeth, argymhellodd tîm ymchwil prosiect 'Gostwng yr Oedran Pleidleisio ar draws y DU' y dylid annog pobl 16 a 17 oed sydd wedi cael yr etholfraint i deimlo bod eu haelodaeth o'r etholaeth yn ddilys ac yn cael ei gwerthfawrogi gan bleidleiswyr hŷn a'r rhai sy'n ceisio eu cynrychioli'n ddemocrataidd.<sup>204</sup>

**235.** Dywedodd yr Athro Awan-Scully y canlynol wrthym:

“If there's a case for votes at 16, I think the expert panel makes it extremely well. It hasn't wholly shifted me from my position of neutrality on this issue, I think, just as some of the contrary evidence you've received hasn't shifted me to an anti position either. I remain one of the agnostics on this issue.”<sup>205</sup>

**236.** Mynegodd ddau bryder, mewn perthynas ag anghysondeb rhwng oedrannau cymhwysedd pleidleisio gwahanol ar gyfer mathau gwahanol o etholiadau (fel yn yr Alban) a hefyd y canlynol:

“... given, particularly, for instance, recent evidence on the strong—indeed, increased—divergences in voting preferences by age group, I

---

<sup>202</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE09, tîm ymchwil prosiect “Gostwng yr Oedran Pleidleisio ar draws y DU” (Saesneg yn unig)

<sup>203</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE09, tîm ymchwil prosiect “Gostwng yr Oedran Pleidleisio ar draws y DU” (Saesneg yn unig)

<sup>204</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE09, tîm ymchwil prosiect “Gostwng yr Oedran Pleidleisio ar draws y DU” (Saesneg yn unig)

<sup>205</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 25 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [227]

suspect that this change is likely to become deeply partisan. And, on the whole, I think partisan politics should be fought within the rules not about the rules.”<sup>206</sup>

**237.** Mynegodd yr Athro Philip Cowley ei amheuon hefyd:

“The general case against votes at 16 is clear: to give the vote to 16 year olds runs counter to the age at which we generally (and increasingly) treat people as adults; it does so for no obvious advantage and despite there being no great public demand for the reform.

Overall, and despite some variability, there are relatively few rights acquired prior to 18...Almost none of the rights acquired before 18 are comparators to voting. Jury service is perhaps the most obvious comparison – involving civic duty and participation – and yet there is no great desire for us to be judged by 16 year olds.

Even more significantly, and yet ignored entirely by the expert panel for some reason, is the direction of travel in recent years. Many age restrictions have changed in recent years, and in almost all cases this has resulted in raising the age at which we allow people to do things.

In other words, if anything the variability in the ages at which people acquire rights and responsibilities has been diminishing over time, and is increasingly converging at 18.”<sup>207</sup>

Ymgysylltu â phobl ifanc

---

**238.** Drwy ein gwaith ymgysylltu ar Senedd Dialogue, clywsom ddadleuon o blaid gostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed. Er enghraifft, dywedwyd y canlynol wrthym:

“Lowering the voting age would ensure that young people get a say in their future. Although I strongly believe that doing so would be beneficial, schools would have to teach non-biased politics so that young people can make a choice and consider all outcomes.”

ac:

---

<sup>206</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 25 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [225]

<sup>207</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE01, yr Athro Philip Cowley (Saesneg yn unig)

---

“You can get a job at 16, you start paying taxes on that income, why shouldn't you have a say on how that tax money is spent?”

**239.** Fodd bynnag, nid oedd y gefnogaeth yn unfrydol, gydag un person ifanc yn dweud na ddylid caniatáu i bobl 16 oed bleidleisio a'i resymau dros ddweud hyn oedd nad oeddent yn ddigon aeddfed; nad oeddent yn cael eu haddysgu ynghylch gwleidyddiaeth; gall eu rhieni ac oedolion eraill ddweud wrthynt pwy i bleidleisio drosto.

**240.** Ar 4 Ebrill 2019, ymwelodd ein Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion a David Melding AC ag Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Eder yn Nghaerdydd. Cymerodd un ar ddeg o ddisgyblion Blwyddyn 10 ran mewn trafodaeth, gan gynnwys un Aelod o Senedd Ieuentid Cymru. Ar y cyfan, roedd consensws o blaid gostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed, er bod ychydig o bryderon, yn bennaf y dylai addysg gyd-fynd â hynny.

**241.** Nodwyd bod canlyniad etholiadau, a'r hyn y mae pobl hŷn yn pleidleisio drosto, yn cael effaith ar bobl ifanc. Gwnaethant sylw hefyd, pe bai pobl 16 a 17 oed yn cael pleidleisio, y byddai'r agenda wleidyddol yn newid i gynnwys materion a oedd yn bwysig iddynt hwy, gan gynnwys iechyd meddwl a chyllido grwpiau a gwasanaethau ieuentid.

**242.** Yn gyffredinol, roeddent yn cytuno bod pobl ifanc, yn niffyg addysg briodol, yn troi at y cyfryngau cymdeithasol am wybodaeth a all fod yn anghywir ac yn gamarweiniol. Felly, roeddent yn mynegi pwyll ynghylch dylanwad y cyfryngau cymdeithasol.

**243.** Trafodwyd y mater ymarferol o allu cyrraedd yr orsaf bleidleisio hefyd, yn enwedig o ran hygyrchedd mewn ardaloedd gwledig. Codwyd materion tebyg yn y Memorandwm Esboniadol.<sup>208</sup>

**244.** Yn ogystal, cynhaliodd Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion a Thîm Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc Comisiwn y Cynulliad drafodaethau grwpiau ffocws â 5 o ysgolion a grwpiau ieuentid, gan gynnwys 68 o bobl ifanc rhwng 11 a 23 oed.

**245.** Roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn cytuno bod mewnwelediad pobl ifanc yn bwysig ond bod addysg am wleidyddiaeth a dinasyddiaeth briodol, heb ragfarn yn hanfodol os caiff yr oedran pleidleisio ei ostwng i 16 oed. Esboniodd y

---

<sup>208</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, pennod 24 (Asesiad o'r Effaith ar Brawfesur Gwledig)



cyfranogwyr fod lefel y wybodaeth wleidyddol ymhlith pobl 16 oed yn amrywiol, ond nad yw aeddfedrwydd ac oedran yn gyfnewidiol.

**246.** Er bod rhai cyfranogwyr, yn y lle cyntaf, o'r farn na ddylid gostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ar y sail nad yw llawer o bobl ifanc yn deall gwleidyddiaeth, newidiodd y mwyafrif eu barn os caiff addysg am wleidyddiaeth a dinasyddiaeth ei haddysgu i blant pan fyddant yn ifanc.

**247.** Hefyd, esboniodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr y gallai cyflwyno addysg am wleidyddiaeth a dinasyddiaeth danio mwy o ddiddordeb ymhlith pobl ifanc, a fydd yn fwy tebygol o bleidleisio, ond hefyd yn fwy tebygol o fwrw pleidlais wybodus:

“If it’s done really well (delivering political and citizenship education), it will benefit the country and not just us as 16 year olds”

### Drafftio'r darpariaethau

---

**248.** Mae'r Bil wedi'i ddrafftio drwy gyfeirio at y gofrestr etholiadol llywodraeth leol y mae'r hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad yn gysylltiedig â hi yn rhinwedd adran 12 o Ddeddf 2006. O gofio'r dull gweithredu hwn a bod y Bil yn ymwneud ag estyn yr etholfraint ar gyfer etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn unig, gwnaethom drafod a fyddai wedi bod yn synhwyrol creu categori newydd o gofrestr y Cynulliad yn adran 2 o Ddeddf 1983. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y trafodwyd hyn:

“The starting point is that the Assembly’s franchise is linked to entitlement to vote and register on the local government register ... if one were to wish to have a different kind of franchise for the Assembly than for local government, there might be some force, or more force, in the argument for having a separate Assembly franchise separately recorded ... But since the policy objective—certainly of the Government in this regard— ... is to have as little as possible in terms of difference between those two franchises, I think having a separate Assembly franchise wouldn’t serve a particular practical purpose and would, I think, in those circumstances, be duplicative.”<sup>209</sup>

**249.** Cydnabu ei bod yn bosibl, yn amlwg, y bydd gennym etholfreiniau gwahanol ar gyfer y Cynulliad ac ar gyfer llywodraeth leol ar ddiwedd y broses oherwydd cwestiynau ynghylch gwladolion tramor a phleidleisio gan garcharorion ond y

---

<sup>209</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [143]

gallai'r trefniadau presennol ar gyfer marcio'r gofrestr llywodraeth leol weithio hefyd ar gyfer gwahaniaethau o'r fath.<sup>210</sup>

**250.** Dywedodd Pennaeth Trawsnewid Strategol Comisiwn y Cynulliad wrthym y gwnaeth swyddogion drafod â'r Llywydd a oedd yn briodol creu cofrestr ar wahân i'r Cynulliad. Teimlwyd y byddai'n fwy cymhleth i weinyddwyr etholiadol weinyddu cofrestr o'r fath.<sup>211</sup> Tynnodd sylw at farn y Llywydd ei bod yn bwysig sicrhau bod y trefniadau mor gydgysylltiedig â phosibl ar gyfer y ddwy broses gofrestru etholiadol fel ei bod yn haws i'r gweinyddwyr reoli a chyflawni'r broses yn ddidrafferth ac yn effeithiol.<sup>212</sup>

**251.** Nododd y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru hefyd ei bod yn anodd defnyddio mwy nag un gofrestr etholiadol ar gyfer etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ac etholiadau lleol.<sup>213</sup>

Yr effaith ar ganran ac ymddygiad y pleidleiswyr

---

**252.** Tynnodd y Memorandwm Esboniadol sylw at effaith gostwng yr oedran pleidleisio ar ganran y pleidleiswyr,<sup>214</sup> a gwnaethom drafod y materion hyn fel rhan o'n gwaith craffu.

**253.** Dywedodd y Llywydd y canlynol:

“So, if you vote once, you are more likely to vote later. It's when you haven't voted those first times that you are less likely to vote later on in life.”<sup>215</sup>

**254.** Gwnaeth yr Athro Awan-Scully y sylwadau a ganlyn:

“... if people don't vote in the first election for which they're eligible to vote, then they actually become progressively less likely to participate in future elections, and these effects carry on for people into their 30s and even their 40s.

I think the argument has been made by a number of scholars that, actually, 18 is a particularly bad time to make people first eligible to

---

<sup>210</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [144]

<sup>211</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019 [187]

<sup>212</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019 [194]

<sup>213</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [87]

<sup>214</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), Memorandwm Esboniadol, penodau 10 a 17 ac Atodiad 2

<sup>215</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019 [163]

vote ... So, there's a hope that 16 and 17-year-olds voting might, in the long term, have some sort of positive impact on voter turnout. In the short term, it will probably lead to a very modest decline."<sup>216</sup>

**255.** Awgrymodd Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru y bydd canran y bobl 16 a 17 oed sy'n pleidleisio yn cynyddu dros nifer o etholiadau:

"I think we've been, obviously, very celebratory of the turnout for 16 and 17-year-olds in the Scottish referendum, but I think maybe the more relevant comparator is the Scottish local elections, which also follow the trend of having higher turnouts of 16 and 17-year-olds, above 18 to 24-year-olds. I think it's a very, very different situation here, and it wouldn't necessary follow that we're going to have a higher turnout for 16 and 17-year-olds. I think the extension of the franchise here is probably more of a process than an event, to borrow an often-used phrase in Welsh politics. But I think it's an opportunity to do something differently, engage a new demographic, and I think slowly over the course of multiple elections, we will start to see more 16 and 17-year-olds being engaged."<sup>217</sup>

**256.** Yn ôl yr Athro Cowley, mae llawer o ymchwil academaidd yn dangos y gellir annog pobl i bleidleisio os caiff adnoddau – amser ac arian – eu defnyddio wrth wneud hynny. Dywedodd y canlynol:

"What would the turnout of 18-24 year olds (for example) be if they too had information "tailored specifically for this age group"?

As the expert panel notes, the evidence from those countries where resources have not been allocated to artificially raise the turnout of 16 and 17 year olds is that they do not vote in greater numbers, and seem less informed.

While voter education and mobilisation programmes may be positive in general, if young voters are ready to vote, then we should not need to allocate specific resources to mobilise them. That we do indicates that they are not ready."<sup>218</sup>

---

<sup>216</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 25 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [245-246]

<sup>217</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [38]

<sup>218</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE01, yr Athro Philip Cowley (Saesneg yn unig)

---

**257.** O ran canran uchel y pleidleiswyr yn refferendwm annibyniaeth yr Alban, gwnaeth yr Athro Cowley y sylwadau a ganlyn:

“... the Scottish referendum of 2014 was an extraordinary political event: a (supposed) once-in-a-generation vote, of high salience, with a long campaign, in which political consciousness was raised amongst all age groups. It produced an extraordinary turnout of 85%, a figure which would have been marginally higher still had 16 and 17 year olds not been given the vote.

It seems unwise to draw too many lessons from such an extraordinary event and then apply them to normal, run-of-the-mill elections with lower salience. I hope it is not seen as controversial to note that an election to the National Assembly may not have quite the same buzz about it, and may therefore not have the same effect.”<sup>219</sup>

Estyn y bleidlais i wladolion tramor

---

**258.** Esboniodd y Memorandwm Esboniadol y penderfyniad i beidio â chynnwys gwladolion tramor yn yr etholfraint yn y Bil:

“... at ddiben cyflwyno'r Bil, mae Comisiwn y Cynulliad wedi penderfynu nad oes consensws gwleidyddol clir ar hyn o bryd ar y mater hwn oherwydd cymhlethdod y dadleuon cyfartal iawn yn ei gylch. Yn niffyg consensws o'r fath, nid yw'n briodol i gorff trawsbleidiol wneud newidiadau i'r gyfraith ar y mater hwn. Am y rheswm hwn, mae'r Bil yn cynnal sefyllfa bresennol gyfreithiol ar y mater hwn: h.y. na fyddai preswylwyr nad ydynt o'r UE na'r Gymanwlad yn cael pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad. Yn anffodus, rhaid dilyn y dull hwn hefyd i breswylwyr 16 a 17 oed nad ydynt o'r UE na'r Gymanwlad, oherwydd y byddai'n gwbl amhriodol i bobl 16 a 17 oed gael yr hawl i bleidleisio, ac yna i'r hawl hon gael ei thynnu'n ôl yn 18 oed.”<sup>220</sup>

**259.** Mae'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ym Mhennod 17 o'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys y mater hwn.

**260.** Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y canlynol mewn llythyr at y Pwyllgor ar 13 Chwefror 2019:

---

<sup>219</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE01, yr Athro Philip Cowley (Saesneg yn unig)

<sup>220</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 809

---

“Ein safbwynt polisi yw y dylai'r etholfraint ar gyfer etholiadau'r Cynulliad fod yn gyson â'r hyn yr ydym yn bwriadu ei estyn ar gyfer etholiadau llywodraeth leol. I'r perwyl hwn, hoffem weld y Bil hwn yn cynnwys gwladolion tramor sy'n preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru yn cael eu cynnwys yn yr etholfraint.”<sup>221</sup>

**261.** Pan holwyd y Cwnsler Cyffredinol a oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ganiatáu i wladolion tramor sy'n byw yng Nghymru yn gyfreithlon bleidleisio, dywedodd wrthym mai hwnnw oedd y gobaith. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn credu bod hynny'n rhan bwysig o fod yn genedl groesawgar ac yn genedl gynhwysol.<sup>222</sup>

**262.** Nododd y Llywydd fod Llywodraeth Cymru yn ystyried rhoi'r bleidlais ar gyfer etholiadau llywodraeth leol i wladolion tramor sy'n byw yng Nghymru a chydabu y gellid cael rhywfaint o anghysondeb, o ganlyniad i hynny, rhwng etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ac etholiadau llywodraeth leol,<sup>223</sup> pwynt a gydnabuwyd hefyd gan y Cwnsler Cyffredinol<sup>224</sup>. Esboniodd nad oedd yn teimlo bod mandad, yn ei barn hi, i gynnwys hyn yn y deddfwriaeth ac ychwanegodd y canlynol:

“It is quite a significant constitutional change to change an electoral system to one based currently on citizenship to one based on residency. I didn't believe, or wasn't led to believe, that there was a clear supermajority in favour of such a change. It was influential on my thinking on including it or not in this piece of legislation.”<sup>225</sup>

**263.** O ran hawliau pleidleisio ar gyfer gwladolion tramor (a charcharorion) cymwys, dywedodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol:

“... there needs to be a consistent approach in Wales for both Assembly and local government elections to avoid both voter and electoral administrator confusion.”<sup>226</sup>

---

<sup>221</sup> Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 13 Chwefror 2019

<sup>222</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [218]

<sup>223</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [145]

<sup>224</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [144]

<sup>225</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [145-146]

<sup>226</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE14, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Saesneg yn unig)

---

## Estyn y bleidlais i garcharorion

---

**264.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio'r canlynol:

“Mae dyfarniadau olynol Llys Hawliau Dynol Ewrop wedi canfod bod y Deyrnas Unedig yn torri Erthygl 3 o Brotocol 1 oherwydd na chaiff carcharor sy'n cael dedfryd i gyfnod yn y carchar bleidleisio tra ei fod yn y carchar. Y prif achos yw Hirst yn erbyn y Deyrnas Unedig (Rhif 2) yn 2005. Er bod gan wladwriaethau lwfans dehongli eang yn y maes hwn, natur lwyr y gwaharddiad a wrthwynebir.

Ym mis Tachwedd 2017, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bwriad i roi'r hawl i garcharorion bleidleisio ym mhob etholiad yn y DU os ydynt ar drwydded dros dro neu dan gyrffyw lle maent yn cael eu cyfyngu i'r cartref. Hefyd, yn y dyfodol, caiff ei gwneud yn gliriach wrth ddedfrydu bod mynd i'r carchar yn golygu colli'r hawl i bleidleisio.

Mae Cyngor Ewrop, sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o weithredu dyfarniadau Llys Hawliau Dynol Ewrop, wedi cymeradwyo dull Llywodraeth y DU fel ymateb cymesur.

Rhagwelir y bydd y trefniadau gweinyddol newydd, sy'n galluogi rhagor o garcharorion i bleidleisio, ar waith cyn cynnal yr etholiadau cyntaf o dan y Bil.<sup>227</sup>

**265.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro'r canlynol:

“... nid yw Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) yn ceisio mynd i'r afael â phleidleisio gan garcharorion, gan gynnwys pleidleisio gan droseddwy'r ifanc. Yn lle hynny, ar 6 Medi 2018, ysgrifennodd y Llywydd at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i nodi y byddai'n croesawu'n fawr i'r Pwyllgor gynnal ymchwiliad i drafod yr egwyddor a ddylid caniatáu i garcharorion – gan gynnwys troseddwy'r ifanc yn y ddalfa – bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad. Rhagwelir y bydd dadansoddiad y Pwyllgor o'r mater hwn yn sail dystiolaeth sylweddol i fynd i'r afael â'r materion cyfreithiol, moesol, democrataidd, ymarferol a materion o ran hawliau dynol sy'n ymwneud â phleidleisio gan garcharorion – gan gynnwys pleidleisio gan droseddwy'r ifanc – ac felly'n

---

<sup>227</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraffau 858-861

pennu'r potensial i fynd i'r afael â'r mater hwn mewn deddfwriaeth yn y dyfodol.”<sup>228</sup>

**266.** Mae'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ym Mhennod 17 o'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys pleidleisio gan garcharorion.

**267.** Fel y nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol i'r Bil,<sup>229</sup> dywedodd y Llywydd y canlynol ynghylch pleidleisio gan garcharorion:

“... mae'r Comisiwn yn credu mai'r dull cywir i ddechrau yw gwahodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i ystyried cynnal ymchwiliad i archwilio'r mater a ddylai carcharorion o Gymru gael pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol.”

**268.** Pwysleisiodd fod y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn trafod pleidleisio gan garcharorion.<sup>230</sup>

**269.** Esboniodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol Comisiwn y Cynulliad gefndir y mater<sup>231</sup> a dywedodd y canlynol:

“... it's not because of the Bill that the Assembly would be in breach of its obligations; it's because it now has the competence and has an ongoing duty to consider the issue, which, as the Llywydd has said, has been referred to a committee of the Assembly to consider. So, it's not the Bill in itself that raises this issue, but, of course, it does shine a spotlight on it.”<sup>232</sup>

**270.** Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y canlynol yn ei lythyr atom ar 13 Chwefror 2019:

“... rydym yn cefnogi'r egwyddor o roi'r bleidlais i garcharorion ac edrychwn ymlaen at dderbyn adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol er mwyn ein helpu wrth inni ystyried hyn.”<sup>233</sup>

---

<sup>228</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 814

<sup>229</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 88

<sup>230</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [148]

<sup>231</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2016, Cofnod y Trafodion [150-156]

<sup>232</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2016, Cofnod y Trafodion [156]

<sup>233</sup> Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 13 Chwefror 2019

**271.** Ychwanegodd y canlynol pan gafodd ei holi:

“... gawn ni weld beth ddaw allan o’r pwyllgor, ac wedyn byddwn ni’n cysidro, fel Llywodraeth, sut byddwn ni eisiau delio gyda hynny. Ond mae’r egwyddor yn glir, o leiaf, o’n safbwynt ni.”<sup>234</sup>

**272.** Nododd yr Athro Bush QC fod dull gweithredu Senedd y DU o ran pleidleisiau i garcharorion yn gwbl anufudd i’r confensiwn Ewropeaidd ar hawliau dynol, fel y gwnaed yn glir dro ar ôl tro gan y llysoedd, ac eglurodd y canlynol:

“... from a legal point of view, it clearly would be highly desirable if the Assembly were to act as I think it probably is required, in any event, to act—in accordance with convention rights. Now, having said that, of course, it’s a complex issue, because what the European Court has said is not that all prisoners must have rights, but that there should be a proper, reasoned examination of the question.”<sup>235</sup>

**273.** Roedd o’r farn bod hyn yn golygu bod yn rhaid i’r mater hwn gael ei drafod yn briodol er mwyn bodloni gofynion y dyfarniadau llys.<sup>236</sup>

**274.** Nid oedd Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a Lloegr yn cytuno y dylai estyn yr etholfraint eithrio plant sydd yn y ddalfa, a dywedodd y canlynol:

“Children in contact with the YJS [Youth Justice System] are, by the nature of their involvement and circumstances, vulnerable and can face multiple barriers to equality of opportunity. These barriers should be identified and removed. Children should be provided with additional assistance to take full advantage of what they are entitled to so they can contribute to the decisions that affect them.”<sup>237</sup>

**275.** Ym marn y Bwrdd:

“The YJB supports the Senedd and Elections Bill principal to extend the franchise to children who are 16 and 17 years. [H]owever, there should be no distinction made between children in custody and any other children. The YJB believes equal opportunity should apply to children in the YJS. It is clear from a rights-based approach that there is no

---

<sup>234</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [220]

<sup>235</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 25 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [176]

<sup>236</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 25 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [172-178]

<sup>237</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE08, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (Saesneg yn unig)



distinction between children, regardless of where they reside (community or custody).

Providing children in the YJS with a right to vote and an opportunity to have a say in shaping the services in their community could be a powerful tool in helping shift a child's identity from pro criminal to pro social and help children lead safe and crime-free lives while making positive contributions to society."<sup>238</sup>

**276.** Mynegodd Comisiynydd Plant Cymru farn wahanol, gan ddweud y canlynol wrthym:

"I also understand the reasons for excluding young offenders from the voting franchise, on the basis that anyone serving a sentence beyond the age of 17 would then 'lose' the right to vote and have that privilege withdrawn. This appears logical to me and it would seemingly be more damaging and disempowering to have the vote withdrawn than to have the rules for existing elections mirrored from a younger age. Should the right to vote for adult prisoners change I would expect consideration of similar voting rights to be introduced for young offenders."<sup>239</sup>

**277.** Dywedodd y Llywydd wrthym ei bod yn rhannu barn Comisiynydd Plant Cymru.<sup>240</sup> Ar y cyfan, nododd y byddai'n well ganddi aros i ddatrys mater yr holl bobl nad oes ganddynt yr hawl i bleidleisio fel carcharorion.<sup>241</sup>

## Ein barn ni

**278.** Rydym yn credu'n gryf bod pleidleisio a chymryd rhan yn y broses ddemocrataidd yn rhan annatod o gymdeithas iach, weithredol.

**279.** Rydym yn nodi bod y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a gafwyd, lle y mae ymgylgoreion wedi mynegi barn am y mater hwn, o blaid gostwng yr oedran pleidleisio i 16 ar gyfer etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol. Rydym yn cefnogi'r farn hon.

**280.** Rydym yn nodi'r dystiolaeth sy'n awgrymu bod 16 yn oedran gwell na 18 oed i annog ymgysylltiad â'r broses ddemocrataidd am y tro cyntaf. Rydym hefyd yn

---

<sup>238</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE08, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (Saesneg yn unig)

<sup>239</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE07, Comisiynydd Plant Cymru (Saesneg yn unig)

<sup>240</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [204]

<sup>241</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [205-208]

nodi nad oes un adeg y gellir ei nodi pan gaiff rolau a chyfrifoldebau oedolion eu caffael.

**281.** Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod pleidleisio yn yr etholiad cyntaf sydd ar gael yn fwy tebygol o arwain at bleidleisio mewn etholiadau yn y dyfodol.

**282.** Felly, rydym yn credu bod gostwng yr oedran pleidleisio i 16 yn gyfle i gyflwyno cymdeithas sy'n cymryd mwy o ran yn y broses ddemocrataidd dros y tymor hwy a dylid croesawu hynny. Rydym hefyd yn credu y bydd gostwng yr oedran pleidleisio i 16 yn golygu bod angen cynllun codi ymwybyddiaeth ac addysgol sy'n ddigonol i achub ar y cyfle hwn. Rydym yn trafod y mater hwn yn ddiweddarach yn y bennod hon.

**283.** Rydym yn nodi bwriad y Cwnsler Cyffredinol i gyflwyno gwelliannau i'r Bil i estyn hawliau pleidleisio i gynnwys gwladolion tramor. Mae ein hadroddiad yn tynnu sylw at rywfaint o'r dystiolaeth a gawsom ac a glywsom ar y mater hwn.

**284.** Rydym yn nodi sylwadau'r Llywydd a'r Cwnsler Cyffredinol ynghylch peidio â chynnwys pleidleisio gan garcharorion yn y Bil ar adeg ei gyflwyno. Rydym hefyd yn nodi eu barn y byddai adroddiad gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y pwnc, yn y bôn, hwn yn helpu i lywio syniadau ar y mater polisi cyffredinol hwn, gan gynnwys goblygiadau cyfraith hawliau dynol. Rydym hefyd wedi tynnu sylw at rywfaint o'r dystiolaeth a gawsom ac a glywsom ar y mater hwn.

**285.** Rydym yn nodi y cyhoeddodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ei adroddiad, sef *Hawliau Pleidleisio i Garcharorion*, ar 11 Mehefin 2019. Nid yw cyhoeddi'r adroddiad hwn, wrth gwrs, yn cyfateb i waith craffu Cyfnod 1 ar Fil sy'n cynnwys darpariaethau penodol ar bleidleisio gan garcharorion sy'n rhoi effaith i fwriadau polisi.

**286.** Mae estyn hawliau pleidleisio i wladolion tramor a charcharorion yn cynrychioli newid sylweddol i'r etholfraint. Dylai'r darpariaethau deddfwriaethol y byddai eu hangen i gyflawni newid o'r fath, yn unol ag arfer da ar ddeddfu, gael eu cynnwys mewn Bil pan gaiff ei gyflwyno.

**287.** O ystyried nad oedd darpariaethau sy'n estyn yr etholfraint i wladolion tramor a/neu garcharorion wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil fel y'i cyflwynwyd, nid ydym mewn sefyllfa i ffurfio barn bendant am y materion hyn.

## Cofrestru etholiadol

**288.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn trafod sut y mae'r Bil yn gwneud newidiadau i'r broses ar gyfer cofrestru etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru i alluogi personau 16 a 17 oed i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â'r broses ganfasio flynyddol a diogelu gwybodaeth pobl ifanc.

**289.** Roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a gawsom ac a glywsom ynghylch cofrestru etholiadol yn ymwneud â goblygiadau ymarferol gweithredu'r newidiadau, yn hytrach na darpariaethau penodol y Bil. Fel y cyfryw, mae'r rhan fwyaf o'r adrannau isod yn ymdrin â'r meysydd hyn, er eu bod yn gorgyffwrdd o gofio'r berthynas rhyngddynt.

### Y broses gofrestru

---

**290.** Cawsom lawer o safbwyntiau am faterion y mae angen eu trafod mewn perthynas â'r broses gofrestru.

**291.** Nododd y Comisiwn Etholiadol fod y Bil yn ei gwneud yn ofynnol iddo "ddatblygu ffurflenni cofrestru sy'n ystyried newidiadau deddfwriaethol ynglŷn â phobl ifanc 16 a 17 oed" ac y byddai hyn yn golygu bod "angen digon o amser i'w profi gyda defnyddwyr, eu cyfieithu, eu dylunio a'u cynhyrchu, yn ogystal â chael eu cymeradwyo gan Weinidog". Ychwanegwyd y byddai'n "croesawu'r cyfle i drafod y broses o ddylunio'r ffurflenni diwygiedig gyda swyddogion Comisiwn y Cynulliad cyn gynted ag y bo modd".<sup>242</sup>

**292.** Tynnodd y Comisiwn Etholiadol sylw hefyd at nifer o faterion eraill yr oedd angen eu trafod. Nododd yr angen i Swyddogion Cofrestru Etholiadol "ddod o hyd i ffyrdd amgen o roi gwybodaeth am sut i gofrestru i bobl ifanc 14 a 15 oed".<sup>243</sup> Hefyd, nodwyd bod y system gofrestru etholiadol yn yr Alban yn wahanol, gan nad oes gan awdurdodau lleol ran ganolog yn y broses.<sup>244</sup> Roedd y Comisiwn Etholiadol yn teimlo y byddai'n:

"... fuddiol i fod â chydlynu statudol yng Nghymru. Wrth gwrs, mae yna fanteision i bawb i gydweithio, ond mae yna anfanteision, efallai, yn yr

---

<sup>242</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE12, y Comisiwn Etholiadol

<sup>243</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE12, y Comisiwn Etholiadol

<sup>244</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [69-70]

ystyr nad ydy llywodraeth leol mor ynghlwm wrth y system. Mae e'n rhywbeth y dylem ni ei archwilio.”<sup>245</sup>

**293.** O ran cofrestru pobl 16 a 17 oed, dywedodd:

“... it will be a slower burn here in Wales, inevitably; it would be difficult to imagine you're going to get a massive first hit at registration in the same way as happened in Scotland.”<sup>246</sup>

**294.** O ran gweithredu'r newidiadau sy'n deillio o'r Bil, tynnodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol sylw at y canlynol:

“... concerns around particularly the extension of franchise and the changes are to make sure that the resources are there for my colleagues to be able to spend the necessary time and local resource on actually identifying those who aren't registered and give them the opportunity to register and dealing with the changes that come up from that sort of area.”<sup>247</sup>

**295.** Dywedodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol hefyd ei bod yn hanfodol bod y Bil yn gwneud darpariaeth statudol i ddata perthnasol gael eu darparu i'r swyddog cofrestru etholiadol perthnasol yn rheolaidd mewn fformat addas,<sup>248</sup> fel modd o fynd â'r baich o geisio dod o hyd i unigolion oddi ar swyddogion cofrestru<sup>249</sup>.

**296.** Dywedodd Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru y dylid cael cynllun clir ac effeithiol ynghylch cyrraedd darpar gyrhaeddwyr, gan sicrhau eu bod yn ymuno â'r gofrestr, ac y dylid rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddod yn bleidleiswyr. Yn ei farn ef, y ffordd orau o gyflawni hyn fyddai ar y cyd rhwng y Cynulliad a Llywodraeth Cymru o gofio'r cynlluniau i estyn yr etholfraint ar gyfer etholiadau llywodraeth leol.<sup>250</sup>

**297.** Yn ei llythyr atom dyddiedig 16 Mai 2019, dywedodd y Llywydd y canlynol:

---

<sup>245</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [72]

<sup>246</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [74]

<sup>247</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [12]

<sup>248</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE12, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol

<sup>249</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [52]

<sup>250</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, SE04, Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru (Saesneg yn unig)

“Mater i’r Comisiwn Etholiadol ac awdurdodau lleol yw gweinyddu etholiadau, gan gynnwys dylunio ffurflenni cofrestru. Byddant yn cael cyngor a chymorth gan Lywodraeth Cymru.”

gan gydnabod bod y Comisiwn Etholiadol, yn ei dystiolaeth, yn adlewyrchu ei fwriad i hysbysu swyddogion Comisiwn y Cynulliad am ddatblygiadau.<sup>251</sup>

**298.** Ychwanegodd llythyr y Llywydd y canlynol:

“Nid yw Comisiwn y Cynulliad yn gyfrifol am weithredu cofrestru etholiadol, ac felly ni fyddai’n gyfrifol am unrhyw gostau sy’n ymwneud â phrosesau cofrestru etholiadol na systemau rheoli. Ni fydd swyddogion Comisiwn y Cynulliad yn ymwneud ag archwilio, comisiynu neu fonitro’r broses na’r systemau cofrestru. Yn hytrach, mater i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ei ddatrys fyddai hwn.

Trafodais y mater hwn yn fy nghyfarfod â Julie James AC, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, ar 30 Ebrill 2019: cytunodd mai mater i Lywodraeth Cymru oedd hwn.”<sup>252</sup>

## Canfasio blynyddol a diwygio’r canfasiad

---

**299.** I baratoi ar gyfer y canfasio blynyddol a gynhelir yn 2020, mae’r Bil yn cynnwys darpariaethau fel y gellir cynnwys pobl ifanc yn y broses honno: Mae’r newidiadau’n cynnwys:

- dileu gofyniad i swyddog cofrestru wneud ymholiadau o dŷ i dŷ mewn perthynas â chofrestru person o dan 16 oed (adran 12(1));
- caniatáu i bobl 14 a 15 oed a fydd yn troi’n 16 oed yn ystod y cyfnod y mae’r gofrestr mewn grym i gofrestru i bleidleisio fel cyrhaeddwr (adran 12(2)(a));<sup>253</sup>
- gwahardd argraffu dyddiad geni personau o dan 16 oed ar y ffurflen ganfasio flynyddol (adran 12(2)(b)).

---

<sup>251</sup> Llythyr gan y Llywydd, Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), 16 Mai 2019

<sup>252</sup> Llythyr gan y Llywydd, Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), 16 Mai 2019

<sup>253</sup> Mae adran 12(2) o’r Bil yn diwygio rheoliad 32ZA o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 fel bod rhaid i’r ffurflen ganfasio flynyddol ar gyfer etholwyr llywodraeth leol gynnwys enw llawn, cenedligrwydd a dyddiad geni person(au) 14 a 15 oed sy’n byw yn y cyfeiriad. Yn ôl y nodiadau esboniadol i’r Bil, mae’r ddarpariaeth yn “caniatáu i’r swyddog cofrestru, at ddibenion etholiad i fod yn Aelod o’r Senedd, gynnwys y bobl a fydd yn 16 oed erbyn etholiad nesaf y Senedd ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol”.

**300.** Mae'r opsiynau ar gyfer diwygio'r broses ganfasio yn cael eu trafod rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban gyda bwriad i weithredu'r newidiadau ar gyfer y canfasiad yn 2020. Nododd yr ymarfer ymgynghori cysylltiedig y canlynol am y diwygiadau:

"... intended to enable local authority Electoral Registration Officers (EROs) to target their resources more effectively. The proposals include using data matching (using both national and local data) at the start of the canvass to identify those properties where it is likely that the occupiers remain the same. Where this is the case, EROs will be able to run a lighter-touch canvass. The proposals aim to reduce confusion and inconvenience for citizens and allow EROs to operate more efficiently."<sup>254</sup>

**301.** Dywedodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol wrthym y bydd cyllid Llywodraeth y DU ar gyfer cofrestru yn cael ei leihau yn 2020 o ganlyniad i'r arbedion sy'n deillio o gyflwyno trefniadau i ddiwygio'r broses ganfasio<sup>255</sup> a gofynnodd am y diffyg ystyriaeth a roddwyd i ddiwygio'r broses ganfasio yn y Memorandwm Esboniadol, gan ddweud y canlynol wrthym:

"... if EROs in Wales cannot fully implement Canvass Reform and achieve the full savings because of the need to register 16 and 17-year olds, along with 14 and 15-year old attainers, the proposed savings will not be achieved in Wales. As a result, not only do the additional costs of registering 14 to 17-year olds need to be considered but also the financial impact of Canvass Reform not being implemented fully in Wales."<sup>256</sup>

**302.** Gofynnodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol hefyd a fyddai'r arbedion cost llawn o ran diwygio'r broses ganfasio yn cael eu cyflawni gan awdurdodau lleol Cymru. Mae'n bosibl y bydd mwy o angen i ganfasio eiddo y mae'n ddigon posibl na fydd newid iddynt er mwyn sicrhau na chaiff pleidleiswyr iau newydd eu colli oherwydd na chânt eu fflagio, o reidrwydd, ar y gronfa ddata y gwirir yn ei herbyn fel rhan o drefniadau diwygio'r broses ganfasio.<sup>257</sup>

<sup>254</sup> Swyddfa'r Cabinet, gwefan ymgynghori: [Cynigion ar gyfer diwygio'r broses ganfasio flynyddol](#) (Saesneg yn unig), 5 Hydref 2018

<sup>255</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE14, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Saesneg yn unig)

<sup>256</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE14, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Saesneg yn unig)

<sup>257</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [34]

**303.** Ynghylch diwygio'r broses ganfasio, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y canlynol wrthym:

“Obviously, we want that to be implemented in time for the next elections, which essentially means, effectively, commencing that in June or July 2020. I should say that it is obviously desirable to make sure that the next elections operate on the basis of a reformed canvass, but should that for some reason not be possible, the two things are actually separate. So, the current legislation can operate on either the base of the current canvass or a reformed canvass. And this Bill isn't required to give effect to the canvass reforms; they will operate under statutory instrument under separate primary legislation. The proposal is that we're working currently on an SI that would enable us to give effect to that reformed canvass in a way that is consistent across the UK and that that can happen in time for us to hit the deadline in the summer of next year for that canvass to be commenced.”<sup>258</sup>

#### Systemau Rheoli Etholiadol (EMS)

---

**304.** Mae gan bob awdurdod lleol gontract gyda chwmni meddalwedd sy'n darparu'r feddalwedd ar gyfer y gofrestr etholiadol, sef y Systemau Rheoli Etholiadol.<sup>259</sup> Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

“Dim ond tri chwmni meddalwedd y mae'r 22 o awdurdodau lleol yn gweithio gyda hwy, a byddai angen i'r tri wneud newidiadau angenrheidiol i'w meddalwedd er mwyn i'r swyddogion cofrestru allu ymgymryd â'r cyfrifoldebau newydd a gyflwynir gan y Bil hwn. Byddai diweddarau'r EMS yn arwain at gost untro i awdurdodau lleol, a hwy fyddai'n talu'r gost honno.”<sup>260</sup>

**305.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi nad yw'r union gostau ar gael ond ei fod yn amcangyfrif y “byddai'r costau sy'n gysylltiedig â diweddarau meddalwedd yr EMS hyd at £636,300” (yn seiliedig ar Fil Etholiadau'r Alban (Gostwng yr Oedran Pleidleisio).<sup>261</sup>

**306.** Dywedodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gwmpasu, comisiynu, goruchwyllo, monitro a thalu pob cyflenwr

---

<sup>258</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [204]

<sup>259</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol 539

<sup>260</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol 539

<sup>261</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraffau 539-542

---

EMS yn uniongyrchol i newid y feddalwedd,<sup>262</sup> gan fynegi pryder a gysylltwyd â'r cyflenwyr EMS:

“... to discuss the extent of the software changes required and timescales for development, testing and software release to ensure there is sufficient time to implement the changes especially as we are aware their workload already involves significant work to prepare for Canvass Reform over the same timeframe.”<sup>263</sup>

**307.** Pan gafodd ei holi, pwysleisiodd yr adnoddau sy'n angenrheidiol i'w galluogi i wneud y canlynol:

“... to do their jobs quite correctly for the electorate and for those who are being elected, and, secondly, to make sure that a co-ordinated approach is taken so that across the whole of Wales it is actually the same access to the system being provided to every single elector.”<sup>264</sup>

**308.** Pwysleisiodd yr angen am ddull gweithredu cydlynol ar gyfer pob un o'r systemau er mwyn gallu cyflawni'n union yr hyn sydd ei angen.<sup>265</sup>

**309.** Dywedodd Solace nad oedd wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru yn ffurfiol ynghylch cyllid ar gyfer y Bil hyd yn hyn, ond dywedodd y byddai angen i drafodaethau bwysleisio ar y canlynol yn y lle cyntaf:

“... the software transitional costs for the franchise, which are quite significant, and that's the sort of change that's best dealt with nationally, collectively, with the software franchise providers.”<sup>266</sup>

**310.** Awgrymodd y Comisiwn Etholiadol y gallai Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru chwarae rhan wrth gefnogi newidiadau i'r Systemau Rheoli Etholiadol.<sup>267</sup>

**311.** Dywedodd Clerc a Phrif Weithredwr y Cynulliad y canlynol wrthym:

“In terms of software changes, I think the point that the AEA was making, and having spoken to their officers, was more one about consistency as opposed to allocating responsibility to the Assembly Commission as opposed to the Welsh Government or vice versa. So, I

---

<sup>262</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE14, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Saesneg yn unig)

<sup>263</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE14, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Saesneg yn unig)

<sup>264</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [13]

<sup>265</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [30]

<sup>266</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [239]

<sup>267</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE12, y Comisiwn Etholiadol



would expect that to be a Welsh Government activity as opposed to an Assembly Commission one.”<sup>268</sup>

**312.** Pwysleisiodd y Llywydd yr un pwynt hefyd:

“Nid yw Comisiwn y Cynulliad yn gyfrifol am weithredu cofrestru etholiadol, ac felly ni fyddai'n gyfrifol am unrhyw gostau sy'n ymwneud â phrosesau cofrestru etholiadol na systemau rheoli. Ni fydd swyddogion Comisiwn y Cynulliad yn ymwneud ag archwilio, comisiynu neu fonitro'r broses na'r systemau cofrestru. Yn hytrach, mater i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ei ddatrys fyddai hwn.”<sup>269</sup>

**313.** Dywedodd swyddogion a ddaeth gyda'r Cwnsler Cyffredinol mai tua £3,800 fesul awdurdod lleol yw cost y newidiadau sydd eu hangen i'r system rheoli etholiadol.<sup>270</sup> Awgrymodd y Cwnsler Cyffredinol y byddai costau o'r fath, fel baich ar awdurdodau lleol, yn cael eu hystyried fel rhan o'r trafodaethau cyllidebu arferol.<sup>271</sup>

#### Diwygiadau gweinyddol

---

**314.** Clywsom gefnogaeth hefyd dros ddiwygiadau gweinyddol i leihau'r baich ar y rhai sy'n gyfrifol am gofrestru pleidleiswyr iau, yn ogystal ag i helpu i sicrhau cyfradd gofrestru uwch.

**315.** Argymhellodd Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru y dylid ystyried mesurau mewn perthynas â dull cofrestru bloc mewn ysgolion a cholegau.

“... we're massively supportive of block registration and other methods such as automatic registration to really ensure that our electoral roll is a lot more complete and up-to-date than it currently is. In terms of it working in practice, I think electoral registration officers visiting schools and doing, kind of, registration drives is probably a very good thing. Also, 16 and 17-year-olds will be applying for things like national insurance cards. I think that's an opportunity to drive registration as well.”<sup>272</sup>

---

<sup>268</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [344]

<sup>269</sup> Llythyr gan y Llywydd, Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), 16 Mai 2019

<sup>270</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [200]

<sup>271</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [202]

<sup>272</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [66]

---

**316.** Roedd yn teimlo y dylid deddfu ar y materion hyn:

“Measures to ensure block registration in schools and colleges should also be considered in legislation in order to maximise the chances of ensuring a high turnout for younger voters.”<sup>273</sup>

**317.** Dywedodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol y canlynol wrthym:

“At the start of the initial Welsh Assembly proposals, there was mention that the education lists could be used to register on block from the education records, including consideration of automatic registration in Wales – we would ask whether this has been given any further consideration?”<sup>274</sup>

**318.** Pan gafodd ei holi, dywedodd nad oes ganddi farn o ran cofrestru bloc o reidrwydd, ond nododd fanteision rhoi gwybodaeth i Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gofrestru unigolion, gan ychwanegu'r canlynol:

“... the crucial bit is about working with the educational establishments, working with departments of education—those types of organisations—to make sure that the data that is being held is shared with registration officers to be able to allow them to do their statutory processes.”<sup>275</sup>

**319.** Dywedodd y Comisiwn Etholiadol wrthym, o ran dull cofrestru bloc a dull cofrestru awtomatig, y byddai, fel comisiwn, yn croesawu'r mentrau newydd hyn o ran diwygio a ffyrdd gwahanol o gynnwys unigolion, yn enwedig grwpiau penodol, yn y broses ddemocrataidd, ac i'w hannog i gymryd rhan ynddi.<sup>276</sup>

**320.** Cyfeiriodd Solace hefyd at weledigaeth ar gyfer y dyfodol, gan ddweud y canlynol:

“... we need to think more about what's the vision for elections and elections participation—around franchise, access, freedom to vote, possible digital administration, even digital voting by the voter in the future ... in the absence of digitisation as an option, we are well behind—we're still very Victorian in our legislation and in our practice around elections, which is one of the barriers to people participating, because

---

<sup>273</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, SE04, Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru (Saesneg yn unig)

<sup>274</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE14, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Saesneg yn unig)

<sup>275</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [36]

<sup>276</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [38]

they see it as quite antiquated. That's the feedback we get, particularly from younger people."<sup>277</sup>

**321.** Er bod y Llywydd yn cydnabod manteision posibl,<sup>278</sup> dywedodd y canlynol:

"... mae'r mater o mechanics ac operation sut mae cofrestru'n digwydd, neu etholiadau'n digwydd o ran hynny—dwi ddim wedi'i weld e fel rhan o ddatblygiad y Mesur yma yn benodol. Maen nhw'n faterion dwi'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Etholiadol ac eraill yn edrych arnynt ar hyn o bryd."<sup>279</sup>

**322.** Ailadroddodd y safbwynt hwn mewn gohebiaeth:

"Mater i Lywodraeth Cymru yw arwain o ran moderneiddio'r drefn o weinyddu etholiadau, nid Comisiwn y Cynulliad, ac felly nid yw Comisiwn y Cynulliad wedi trafod gweinyddiaeth ddigidol yn benodol, ac nid oes ganddo farn ychwaith ar gyflwyno unrhyw ddatblygiadau o'r fath ar gyfer etholiadau'r Cynulliad ...

Bydd y rhain yn faterion i Weinidogion Cymru benderfynu arnynt wrth i bwerau gael eu datganoli iddynt. Wrth gwrs, bydd Gweinidogion Cymru yn cael eu dwyn i gyfrif gan y Cynulliad mewn perthynas â'u penderfyniadau ar y materion hyn."<sup>280</sup>

## Plant sy'n derbyn gofal

---

**323.** Mae adran 18 o'r Bil, drwy ddiwygio adran 7B o Ddeddf 1983, yn galluogi pobl ifanc, dan 18 oed a'r rhai sy'n derbyn gofal, i gofrestru i bleidleisio mewn ardal o Gymru lle y mae ganddynt gysylltiad lleol.

**324.** Croesawodd Comisiynydd Plant Cymru y cynigion, gan dynnu sylw at y ffaith bod rhai pobl ifanc yn teimlo cysylltiad â'r ardal lle y maent yn derbyn gofal:

"I also welcome the proposals for a child in local authority care to be able to register to vote in the area to which they feel they have a local connection, which could be where they are living as opposed to where they were originally brought up. Young people that are living 'out of county' have frequently expressed to me that they want to feel part of

---

<sup>277</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [286]

<sup>278</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [220]

<sup>279</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [220]

<sup>280</sup> Llythyr gan y Llywydd, Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), 16 Mai 2019

---

the community in which they live, and they may often have very little connection to the area where they were born, particularly if they have been in local authority care from a young age. These proposals provide that flexibility for the young person.”<sup>281</sup>

**325.** Dywedodd y Llywydd y canlynol wrthym:

“It was an important point of principle for me that looked-after children, if they were placed out of county or out of country, even, were able to establish and have the vote in the area with which they had a connection. So, we’ve sought to put the mechanism for allowing that to happen in the Bill.”<sup>282</sup>

**326.** Ychwanegodd Pennaeth Trawsnewid Strategol Comisiwn y Cynulliad y canlynol:

“... the Welsh Government will have to work with the electoral returning officers, registration officers and social services departments, really, to ensure the arrangements are as comprehensive as possible to enable children in the care of local authorities to vote in relation to the area where they feel they have the connection with. So, that’s something that they’ll need to work together on to implement.”<sup>283</sup>

**327.** Mewn llythyr dilynol, dywedodd y Llywydd y canlynol wrthym:

“I fod yn glir, bydd yn rhaid i ymgeisydd sy’n gwneud datganiad ddarparu nifer o ddarnau o wybodaeth (a amlinellir yn adran 7B o Ddeddf 1983, fel y’i diwygiwyd gan y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)). Mae’r system hon yn seiliedig ar gyfundrefn sydd eisoes ar waith, sy’n caniatáu i bobl heb gartref wneud datganiad o gysylltiad lleol ar hyn o bryd.”<sup>284</sup>

**328.** Awgrymodd y Comisiwn Etholiadol fod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo ymwybyddiaeth ymhlith plant sy’n derbyn gofal:

“Yn yr Alban, mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i godi ymwybyddiaeth o sut i gofrestru fel etholwyr llywodraeth leol ymhlith plant sy’n "derbyn gofal" gan y cyngor hwnnw (a all fod hyd at 18 oed) a

---

<sup>281</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE07, Comisiynydd Plant Cymru (Saesneg yn unig)

<sup>282</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [197]

<sup>283</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [198]

<sup>284</sup> Llythyr gan y Llywydd, Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), 16 Mai 2019

rhoi cymorth i helpu pobl ifanc o'r fath i gofrestru. Er mwyn gwneud hyn, mae angen i Swyddogion Cofrestru Etholiadol fynd ati i ymgysylltu ag adrannau eraill a'r staff mewn awdurdodau lleol a chyrrff eraill sydd â chyfrifoldebau gofal. Byddem yn annog gofyniad tebyg i Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru.”<sup>285</sup>

## Diogelu gwybodaeth am bobl ifanc

---

**329.** Mae adrannau 23 i 25 yn cynnwys darpariaethau sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer diogelu gwybodaeth am bobl sydd o dan 16 oed.

**330.** Esboniodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol Comisiwn y Cynulliad fod y Bil yn diogelu data personol pobl 14 a 15 oed:

“... information will need to be gathered as to those from the age of 14 upwards, so that electoral registration officers can be aware of when those individuals turn 16, in order to ensure that they are sent a polling card. But for those 14 and 15-year-olds, only the electoral registration officer will know their date of birth. It won't be printed on the register that's available to the public or, indeed, political parties or candidates.”<sup>286</sup>

**331.** Tynnodd sylw hefyd at ddarpariaethau sy'n ymwneud â'r gallu i gael gwybodaeth o gofnodion addysgol yn hytrach na phobl ifanc eu hunain, yn ogystal â mesurau diogelu nad ydynt yn ymwneud yn benodol â diogelu data. Roedd y rhain yn cynnwys diffyg gofyniad i swyddogion cofrestru etholiadol gynnal ymholiadau o dŷ i dŷ os na chaiff gwahoddiad i gofrestru ei ddychwelyd a gallu Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i newid, os oes angen, y ffurflenni sy'n cael eu hanfon at bobl sy'n eu gwahodd i gofrestru i bleidleisio.<sup>287</sup>

**332.** Dywedodd y Comisiwn Etholiadol y canlynol wrthym:

“... We're very, very conscious of the sensitivity of this subject, because there will be young people of 15 whose data will be entered and whose data has got to be kept confidential. So, how to achieve that is really of great importance...”<sup>288</sup>

---

<sup>285</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE12, y Comisiwn Etholiadol

<sup>286</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [142]

<sup>287</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [143]

<sup>288</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [40]

**333.** Nododd ei fod yn gorfod cael ei wneud yn ofalus iawn ac yn dda ac o fewn cyfraith diogelu data a chyfraith amddiffyn plant bresennol a nododd y canlynol:

“... it will take the relevant statutory bodies working together: of course, the electoral community, across local authorities, child protection responsibilities, statutory responsibilities and social services, and across, obviously, the Information Commissioner’s Office as well ... I don’t think it requires any specific or complex electoral legislation because, actually, the law is there already ... it is more about practice and making sure that, for returning officers, electoral administrators, there’s very, very clear guidance. And political parties as well, obviously, to make sure they don’t put their foot wrong either and use the registers.”<sup>289</sup>

**334.** Gofynnodd am gadarnhad bod Comisiwn y Cynulliad wedi ceisio cyngor gan Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth er mwyn sicrhau bod y trefniadau ymarferol a gynigir ynglŷn â gostwng yr oedran pleidleisio yn adlewyrchu safonau diogelu data priodol”.<sup>290</sup>

**335.** Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru y canlynol:

“Protections such as not publishing the dates of birth for under 16s and to make the unauthorised disclosure of information a criminal offence are in my view proportionate to that aim of child protection and protection of privacy, as this is not necessary in order for them to participate in election processes.”<sup>291</sup>

**336.** Ceisiodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol roi sicrwydd ynghylch yr arferion presennol:

“... there’s already an awful lot of personal data held by registration officers. Now, this is obviously another level in terms of having 14 and 15-year-olds’ data as well. There wouldn’t be a concern with sharing that data for the responsibilities the registration officer has to run the actual electoral register, so long as the correct mechanisms for ensuring that that data is secure and is only used for the purpose it’s required for are there ... There are already records, national insurance numbers, dates of birth held by registration officers—it’s just ensuring that the

---

<sup>289</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [78]

<sup>290</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE12, y Comisiwn Etholiadol

<sup>291</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE07, Comisiynydd Plant Cymru (Saesneg yn unig)

responsibility is very clear on those officers and that the data that's held is secure."<sup>292</sup>

## Ein barn ni

**337.** Roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a gawsom ac a glywsom yn tueddu i ganolbwyntio ar ymarferoldeb gweithredu'r Bil, yn hytrach na'r darpariaethau penodol a gynhwysir yn y Bil i hwyluso newid yn y broses gofrestru etholiadol.

**338.** Mae angen mynd i'r afael â llawer o faterion cysylltiedig mewn cyfnod cymharol fyr o amser a bydd yn hanfodol gwneud hyn er mwyn sicrhau y caiff y broses ganfasio flynyddol a'r broses gofrestru eu cynnal yn ddidrafferth yn gyffredinol.

**339.** Mae angen i'r trefniadau gweinyddol sy'n galluogi pobl 16 a 17 oed i bleidleisio yn etholiad y Cynulliad yn 2021 weithredu'n effeithlon er mwyn sicrhau nad yw profiad pleidleisio'r rhai sydd newydd gael yr etholfraint yn un negyddol. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y dystiolaeth a glywsom y gall pleidleisio yn yr etholiad cyntaf y mae person yn gymwys i bleidleisio ynddo effeithio ar ei duedd i bleidleisio yn y dyfodol.

**340.** Wrth ffurfio'r farn hon, rydym yn cydnabod bod hyn yr un mor gymwys i bobl eraill sy'n pleidleisio am y tro cyntaf yn yr ystod oedran 18-24 a fydd wedi cael eu hychwanegu at y gofrestr etholiadol yn ddiweddar.

**341.** Mae'r dystiolaeth a glywsom yn pwysleisio mai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru a sefydliadau etholiadol eraill sy'n gyfrifol am sicrhau bod y broses weinyddu a chofrestru etholiadol yn addas at y diben ar gyfer etholiad y Cynulliad yn 2021.

**342.** Yr hyn a ddaeth yn amlwg i ni yw'r angen am eglurder ynghylch pwy sy'n arwain ac yn cydlynu'r gwaith o gyflawni'r newidiadau angenrheidiol yn llwyddiannus er mwyn sicrhau bod y rhai sydd newydd gael yr etholfraint wedi'u cofrestru ac yn gallu arfer eu hawl i bleidleisio yn 2021.

**343.** Clywsom bryderon hefyd ynglŷn â chyllid gan y rhai sy'n gyfrifol am gyflawni'r diwygiadau.

**344.** Rydym hefyd yn nodi anghysondeb posibl rhwng y costau sy'n gysylltiedig â diweddarau'r Systemau Rheoli Etholiadol, gyda'r Memorandwm Esboniadol yn

---

<sup>292</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [54]

nodi hyd at £636,000 a Llywodraeth Cymru yn awgrymu £3,800 fesul awdurdod lleol (£83,600 at ei gilydd).

**Argymhelliad 7.** Dylai'r Llywydd gyhoeddi datganiad ysgrifenedig sy'n:

- nodi pwy sy'n gyfrifol am bob agwedd ar y newidiadau sydd eu hangen i'r prosesau gweinyddu a chofrestru etholiadol;
- ymdrin â'r pryderon cyllid a fynegwyd gan Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol a Llywodraeth leol sy'n ymwneud â gweithredu diwygiadau i'r broses gofrestru etholiadol;
- nodi'r sefyllfa bresennol ar y diweddariadau sydd eu hangen i Systemau Rheoli Etholiadol ac egluro cost y diweddariadau.

**345.** Rydym yn fodlon, ar y cyfan, ar y ffordd y mae'r ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer cofrestru pobl ifanc i bleidleisio, ond yn gwneud yr argymhellion a ganlyn mewn perthynas â darpariaethau'r Bil.

**346.** Mae pryder penodol o hyd ynglŷn â chofrestru plant sy'n derbyn gofal y mae'n anoddach eu cofrestru o bosibl.

**Argymhelliad 8.** Dylai'r Llywydd ystyried dichonoldeb diwygio'r Bil i greu dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o sut y gall plant sy'n derbyn gofal gofrestru fel etholwyr Llywodraeth leol.

**347.** Rydym yn cytuno â'r Comisiwn Etholiadol ar bwysigrwydd diogelu data pobl ifanc, yn enwedig wrth drin data pobl 14 a 15 oed.

**Argymhelliad 9.** Yn ystod dadl Cyfnod 1, dylai'r Llywydd roi sicrwydd bod y cyngor gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi dod i law ac wedi'i ystyried yn briodol wrth ddrafftio'r Bil.

**348.** Yn y tymor hwy, rydym yn gweld gwerth wrth foderneiddio'r broses gofrestru fel ffordd o gynyddu ymgysylltiad democrataidd.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried moderneiddio'r broses gofrestru etholiadol, gan gynnwys cofrestru pobl 16 oed yn awtomatig, dull cofrestru bloc, a digideiddio'r broses.



## Codi ymwybyddiaeth ac addysg

**349.** Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

“Roedd y Panel Arbenigol hefyd o’r farn y dylai unrhyw ostyngiad yn yr oedran pleidleisio gael ei wneud law yn llaw ag addysg briodol, effeithiol a diduedd o ran gwleidyddiaeth a dinasyddiaeth. Roedd y panel o’r farn y dylai addysg o’r fath fod yn rhan o amrywiaeth o ddulliau y gallai’r Cynulliad, Llywodraeth Cymru ac eraill eu rhoi ar waith i wella ymgysylltiad pobl ifanc a chyfranogiad gwleidyddol.

Nid yw’r Bil yn mynd i’r afael yn benodol â’r angen hwn am addysg. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd ymgyrchoedd addysg wleidyddol a gwybodaeth gyhoeddus i hyrwyddo ymwybyddiaeth o’r newid yn cael eu cynnal yr un pryd â’r newid yn yr oedran pleidleisio.”<sup>293</sup>

**350.** Er nad yw’r Bil yn cynnwys darpariaethau penodol ar godi ymwybyddiaeth nac addysg, yn ystod ein gwaith craffu ar y Bil, gwnaethom ystyried faint o rôl y dylai gwaith codi ymwybyddiaeth ac addysg ei chael wrth gefnogi’r gostyngiad arfaethedig yn yr oedran pleidleisio i 16.

**351.** Clywsom lawer o dystiolaeth ar bwysigrwydd y ddau i estyn yr etholfraint yn llwyddiannus. Ni wnaeth llawer o’r dystiolaeth hon wahaniaethu rhwng gwaith codi ymwybyddiaeth, addysg fwy technegol ar gofrestru a phleidleisio, ac addysg fwy cyffredinol am ddinasyddiaeth. Felly, er ein bod wedi trafod y dystiolaeth mewn themâu cyffredin i helpu o ran eglurder, mae’n amlwg eu bod yn gorgyffwrdd.

Yr angen am waith codi ymwybyddiaeth ac addysg

---

**352.** Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

“Mae Comisiwn y Cynulliad o’r farn ei bod yn bwysig codi ymwybyddiaeth er mwyn ategu’r newidiadau deddfwriaethol. Felly, mae Comisiwn y Cynulliad a Llywodraeth Cymru wedi bod yn trafod sut i gydweithio er mwyn codi ymwybyddiaeth a datblygu ystod o adnoddau i ategu hyn.

Nod Llywodraeth Cymru yw cynnal ymgyrch tair blynedd a fydd yn cynnwys etholiadau’r Cynulliad ac etholiadau llywodraeth leol. Bydd

---

<sup>293</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraffau 51-52.

hyn yn cynnwys etholfraint llywodraeth leol i gynnwys gwladolion tramor, yn ogystal â phobl rhwng 16 a 17 oed.”<sup>294</sup>

**353.** Tynnodd y Llywydd sylw at y gwahaniaeth rhwng hyrwyddo pleidleisiau yn 16 oed a’r angen am addysg ynghylch ymgysylltiad democrataidd:

“I listened to a presentation by the Electoral Commission from Scotland, where they said ... ‘Don’t do your promotional work too early. Young people will engage with it right towards the end. Starting to do things too early is of limited benefit in terms of promotion.’ That’s probably not true of education, of course, and what you can do within schools on democratic engagement.”<sup>295</sup>

**354.** Tynnodd yr Athro Ellen Hazelkorn sylw at yr angen i baru gostwng yr oedran pleidleisio ag addysg:

“I think that, if you want to consider lowering the voting age to 16, you shouldn’t do it without an education that underpins it. Now, how— ‘education’ is a very broad, generic term.”<sup>296</sup>

**355.** Nododd tîm ymchwil prosiect “Gostwng yr Oedran Pleidleisio ar draws y DU” fod ei ymchwil yn dangos bod cysylltiad cryf rhwng lefel y gefnogaeth dros bleidleisio yn 16 oed ymhlith pobl ifanc a lefel eu diddordeb gwleidyddol. Nododd y perygl posibl a ganlyn:

“... lowering the voting age to 16 in isolation may actually increase ‘the engagement gap’ by empowering already empowered young people while doing little to address these underlying inequalities.”<sup>297</sup>

**356.** O ganlyniad, argymhellodd y canlynol:

“The implementation of ‘Votes at 16’ must be accompanied by measures and substantial efforts to ensure more disadvantaged and less-engaged groups are specifically encouraged to turnout. While political education is vital, this also required a broader shift in political

---

<sup>294</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraffau 554-555

<sup>295</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [101]

<sup>296</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [158]

<sup>297</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE09, tîm ymchwil prosiect “Gostwng yr Oedran Pleidleisio ar draws y DU” (Saesneg yn unig)

culture regarding political parties' engagement with young people from differing backgrounds.”<sup>298</sup>

**357.** Argymhellodd tîm ymchwil prosiect “Gostwng yr Oedran Pleidleisio ar draws y DU” y canlynol:

“Consideration should be given to the first cohorts of newly-enfranchised voters in Wales who will not have opportunities to engage with or benefit from the planned introduction of political education initiatives.”<sup>299</sup>

**358.** Mynegodd Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru y farn a ganlyn:

“... the extension of the vote in itself doesn't guarantee deeper engagement. The key to a successful extension of the franchise is the potential it gives us to reach first time voters with the information they need and thereby create a positive habit of voting, which can last a lifetime.”

cyn ychwanegu'r canlynol:

“Improving citizenship education will play a vital role in ensuring we see the full benefits of votes at 16. A more informed electorate means a better public debate.”<sup>300</sup>

## Ymgysylltu â phobl ifanc

---

**359.** Pwysleisiodd llawer o'r bobl ifanc y clywsom ganddynt drwy waith ein timau ymgysylltu bwysigrwydd addysg wrth ostwng yr oedran pleidleisio i 16 ar gyfer etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol.

**360.** Dywedodd disgyblion Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern wrthym y byddai o fudd i'r wlad gyfan pe byddai addysg am wleidyddiaeth yn cael ei darparu'n dda.

**361.** Roeddent yn cytuno bod angen iddynt ddeall rôl pleidiau gwleidyddol a beth yw goblygiadau eu manifestos mewn etholiadau cyffredinol.

---

<sup>298</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE09, tîm ymchwil prosiect “Gostwng yr Oedran Pleidleisio ar draws y DU” (Saesneg yn unig)

<sup>299</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE09, tîm ymchwil prosiect “Gostwng yr Oedran Pleidleisio ar draws y DU” (Saesneg yn unig)

<sup>300</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, SE04, Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru (Saesneg yn unig)

---

**362.** Roedd pryder ynghylch addysgu gwleidyddiaeth mewn ysgolion a'r potensial ar gyfer rhagfarn. O ganlyniad, awgrymwyd y gellid cynnal gwersi y tu allan i'r ysgol er mwyn iddynt ddysgu'r ffeithiau yn hytrach na'r safbwyntiau.

**363.** Roeddent yn croesawu'r syniad o gael ystod o wleidyddion o bleidiau gwahanol yn dod i siarad â hwy, safbwynt a fynegwyd hefyd fel rhan o Senedd Dialogue.

**364.** O ran cael addysg am wleidyddiaeth fel rhan o'r cwricwlwm, roedd rhai o'r farn na ddylai fod yn bwnc parhaol gan na ddylid disodli unrhyw un o'r pynciau a addysgir ar hyn o bryd. Cafwyd awgrymiadau o gyflwyno cwrs byr dros wythnos neu wersi un diwrnod bob tymor.

**365.** Roeddent yn pryderu ynghylch cynnwys addysg am wleidyddiaeth yng Nghymhwyster Bagloriaeth Cymru, oherwydd nad oeddent yn credu bod hyn yn rhywbeth y dylid eu sgorio arno gan y byddent dan bwysau i wneud yn dda.

**366.** Codwyd y syniad o gwrs digidol ar-lein, ond ni chytunodd pawb, gan y mynegwyd barn ei bod yn bwysicach cael trafodaeth wyneb yn wyneb ag eraill. Roedd cytundeb y dylai'r gwersi fod yn ennyn diddordeb, yn rhyngweithiol ac yn cynnwys gweithgareddau fel etholiadau ffug.

**367.** Tynnodd ein sesiwn Senedd Dialogue sylw hefyd at bwysigrwydd addysg ochr yn ochr â gostwng yr oedran pleidleisio i 16, gyda llawer yn awgrymu bod angen gwelliannau. Dyma rai o'r sylwadau a wnaed:

“Political education is definitely the right way of getting people to vote but there also needs to be education on how they actually vote.”

“Personally schools and college are not doing enough to provide Welsh politics as an issue to talk about. As a result of this many young people at the age of 16 don't no enough information. I'm all for voting at 16 but politics needs to be taught in schools first for the young people to get a better understanding on how the Assembly works.”

“I know for a fact that me and my peers have not been educated anywhere close enough to the point where we can make an informed vote.”<sup>301</sup>

---

<sup>301</sup> Senedd Dialogue: [Dywedwch eich dweud am addysg wleidyddol a dinasyddiaeth!](#)

## A oes amser i gyflawni hyn ar gyfer etholiad y Cynulliad yn 2021?

---

**368.** Mae'r amser sydd ar gael ar gyfer gwaith codi ymwybyddiaeth ac addysg cyn etholiad y Cynulliad yn 2021 yn gymharol gyfyngedig.

**369.** Cydnabu'r Llywydd mai prawf allweddol fydd a yw pleidleiswyr iau yn cael digon o wybodaeth erbyn y dyddiad pleidleisio:

"I think the test for us is to make sure that the 16 and 17-year-olds in 2021 will be sufficiently informed of their new right and also sufficiently informed of the context within which they need to make a political choice."<sup>302</sup>

**370.** Dywedodd yr Athro Ellen Hazelkorn, wrth ateb a oes digon o amser i baratoi pobl 16 a 17 oed sy'n pleidleisio yn 2021, y canlynol wrthym:

"If you have the educational underpinnings set up to do so, but I probably would suggest caution if you didn't ... I think you would need to be prepared as opposed to just, in fairness, throwing people in at the deep end."<sup>303</sup>

**371.** Cefnogodd NAHT Cymru y syniad o fwrw ymlaen i gyflawni hyn erbyn 2021, gan awgrymu'r canlynol:

"if we agree with the principle about it, part of me wonders whether you just go ahead with that if it's in principle the right thing to do. It almost incentivises schools to then start doing some work on that."<sup>304</sup>

**372.** Cydnabu fod 2021 yn golygu cyfnod byr, ond awgrymodd fod newid y system yn cymryd amser gan ddweud y canlynol:

"If you wait until we're completely ready, it may delay it too long and you've kind of missed the opportunity, potentially, to pick up on some of the things ... that mean that young people are, maybe, keen to be involved."<sup>305</sup>

**373.** Siaradodd NAHT Cymru hefyd am y cydbwysedd rhwng bwrw ymlaen i gyflawni hyn erbyn 2021 a chynyddu canran y pleidleiswyr dros amser:

---

<sup>302</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [161]

<sup>303</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [186]

<sup>304</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [332]

<sup>305</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [332]

“And the question is: the reality about trying to get everything in place prior to that legislation coming in—do you balance that against the fact that, in principle, it should still go ahead and actually have it almost like a build-up over a certain amount of time if we don’t get the huge numbers of 16 and 17-year-olds engaging from the outset?”<sup>306</sup>

**374.** Dywedodd y Llywydd ei bod yn debygol y byddai cael cyfnod cyflwyno o flwyddyn neu ddwy yn ddigonol i newid yr oedran pleidleisio isaf i 16 oed, ond bod angen darn mwy o waith i ymgysylltu’n well â phobl ifanc yng Nghymru a’u hysbysu am y strwythurau a’r cyfleoedd democrataidd sydd ganddynt.<sup>307</sup>

**375.** Ailadroddodd y farn hon wedyn, gan ddweud y canlynol:

“Mae’n amlwg fod yna gysylltiad naturiol rhwng ymestyn yr oedran pleidleisio i 16 ac 17 a’r addysg ddinesig sydd ar gael yn gyffredinol, ond byddwn i’n dweud nad yw un ddim yn gwbl ddibynnol ar y llall. Does dim rhaid i’r addysg ddinesig yna fod mewn lle yn berffaith i sicrhau fod pobl ifanc 16 ac 17 yn medru pleidleisio, achos mae’r un ddadl yn wir am bobl ifanc 18 ac 19 ar y pwynt yna hefyd, ac maen nhw eisoes â’r bleidlais. Felly, mae’n amlwg yn ddymunol i weld addysg ddinesig ehangach yn rhan o’r cwricwlwm, ond mae’r gwaith rŷn ni’n mynd i roi ar waith yn mynd i fod yn gweithio ar y cyd â hynny ond yn ychwanegol i hynny hefyd i sicrhau, at y pwrpas o gyflwyno’r deddfwriaeth yma, ein bod ni’n cyfrannu’n sylweddol tuag at hyrwyddo ymwybyddiaeth pobl ifanc Cymru o’u hawl newydd nhw i bleidleisio’n 16 ac 17, a hefyd y cyd-destun dinesig, gwleidyddol y mae’r penderfyniad yna’n eistedd o fewn.”<sup>308</sup>

**376.** Dywedodd yr Athro McAllister wrthym pam nad awgrymwyd addysg cyn deddfwriaeth:

“The reason that we didn’t suggest that there needed to be events ordered in that way—first the political education and then the legislation—was that I think you can procrastinate around ‘when’ for quite a long time: the point of intervention.”<sup>309</sup>

**377.** Dywedodd y canlynol wrthym hefyd:

---

<sup>306</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [319]

<sup>307</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [120]

<sup>308</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [154]

<sup>309</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 25 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [90]

---

“The two things are helpful together, but I think there is still a strong argument to go ahead with votes at 16 in the 2021 elections, as long as there is a clear picture of how improved citizenship education would be instituted subsequently ... This is about enhancing the democratic experience; it’s not about suggesting that 16 to 18-year-olds won’t be able to vote without that in place. That’s like suggesting that people over 60 wouldn’t be able to vote unless somebody explained the process to them. So, I think it could still happen, but enhancing it and improving it would come about through the education that we discussed.”<sup>310</sup>

**378.** Dywedodd y Gweinidog Addysg nad oedd yn gweld dim rheswm, o safbwynt addysg, i ohirio etholfreinio ein pobl 16 a 17 oed ar gyfer yr etholiad yn 2021.<sup>311</sup>

Y lefel bresennol o gymorth addysgol

---

**379.** Clywsom gan lawer o dystion fod y lefel bresennol o gymorth addysgol yn annigonol.

**380.** Pan wnaethom ofyn pam y dangosodd ymarfer ymgyngori Comisiwn y Cynulliad ei hun â phobl ifanc mai dim ond 53 y cant sydd o blaid gostwng yr oedran pleidleisio i 16, dywedodd y Llywydd y canlynol wrthym:

“My own experience of that... is that young people feel that they are not well-enough versed in what voting means and in the role that they have as part of wider democratic engagement.”<sup>312</sup>

**381.** Gwnaeth Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru y sylwadau a ganlyn am gyflwr presennol addysg am wleidyddiaeth:

“At the moment, I think political education is relatively poor and, as a general population, I think we’re relatively disengaged in devolved politics, in particular. So, political education, for me, and the extension of the franchise, is an opportunity to do things differently, and it’s an opportunity to ensure that this generation of young people, who will then become voters when they’re 18, 30, 50, will be much more informed than the current population.”<sup>313</sup>

---

<sup>310</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 25 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [141]

<sup>311</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [86]

<sup>312</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [115]

<sup>313</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [40]

---

**382.** Daeth ei thystiolaeth am y farn hon o'i phrosiect Clywed Ein Lleisiau:

"... where we went to 11 schools across Wales and engaged with 200 year 9 students, who will be the first cohort to vote at 16. They reported to us that they didn't receive a lot of political education; it was very ad hoc. Mostly, it's those who go through the Welsh baccalaureate or choose to take A-level politics further along the line, and it's not rolled out for general young people's consumption."<sup>314</sup>

**383.** Siaradodd David Egan hefyd am lefelau presennol addysg am ddinasyddiaeth:

"So, where we are is that effectively we don't teach our young people up to the age of 16 any kind of civics, any kind of political democracy."<sup>315</sup>

**384.** Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog Addysg y canlynol wrthym:

"Within the current curriculum, there are a number of opportunities for children and young people to engage in the subject of politics, above and beyond those who have the opportunity to take a formal qualification in that subject area. They broadly fall into two strands under the current personal and social education part of our humanities curriculum. There are opportunities there, and also it informs a very important part of our Welsh baccalaureate qualification."<sup>316</sup>

**385.** Cyfeiriodd at arfer ardderchog mewn ysgolion a llu o adnoddau ar-lein sydd ar gael drwy Hwb, y llwyfan dysgu ar-lein. Ychwanegodd fod pobl ifanc yn dysgu am y pwnc drwy eu gwersi addysg bersonol a chymdeithasol neu fel rhan o'u cymhwyster bagloriaeth Cymru.<sup>317</sup> O ran bagloriaeth Cymru, dywedodd y canlynol wrthym:

"It creates that space and it gives permission and a timetable slot for these issues to be explored by teachers. It ensures that there is that opportunity across all schools to do it and to ensure that there is an entitlement for all children to engage in this programme, and, of course, at an advanced level there are opportunities for children to

---

<sup>314</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [42]

<sup>315</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [158]

<sup>316</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [5]

<sup>317</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [15]

---



develop even deeper understanding and deeper knowledge and skills and the space to explore, and I think that's really important."<sup>318</sup>

**386.** Pan holwyd y Gweinidog Addysg am yr heriau o ran pobl ifanc 14 i 16 oed yn cymryd rhan yn y cwricwlwm presennol i ddysgu am ddinasyddiaeth weithredol, dywedodd y canlynol wrthym:

"I think what we will have to do is build upon what we've already got. It's important to recognise that the current baccalaureate qualification that is undertaken and completed at the age of 16 for most children does already provide lots and lots of opportunities. So, I don't think it is an insurmountable leap ...

But it doesn't have to be the job of the PSE teacher alone. I think there are ample opportunities in many, many areas to explore these subjects. That's true in the current curriculum, but will be even more so in our new curriculum, where the traditional edges of subjects are broken down."<sup>319</sup>

**387.** Cydnabu'r Gweinidog Addysg fod y ddarpariaeth ar gyfer addysg am ddinasyddiaeth yn amrywio rhwng ysgolion:

"... I believe that the experience that children have is a mixed one, and I think there will be some children when asked who perhaps would tell a very, very different story, and that, in some ways, is a microcosm of the challenge of Welsh education, which is to ensure that we have consistently good practice in all of our schools all of the time."<sup>320</sup>

**388.** Pan holwyd y Gweinidog Addysg beth y byddai'n wahanol, pe bai'r Bil yn dod yn gyfraith, o ran addysg am wleidyddiaeth a dinasyddiaeth a gwaith ymgysylltu, o'u cymharu â'r hyn a geir ar hyn o bryd, dywedodd y canlynol:

"... when a nation changes its legislation, it sends a message, doesn't it? So, it might enact certain things, but it sets the context—it sets a social context ... I believe, in the current and in the future curriculum, there is space to deliver these issues. But the passing of this legislation will add to that imperative, because those children will be exercising those rights. And I think it just changes the nature of the conversation, it

---

<sup>318</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [51]

<sup>319</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [27]

<sup>320</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [11]

changes the context in which some of those lessons are being delivered.”<sup>321</sup>

**389.** O ran y lle sydd yn y cwricwlwm i ddarparu'r addysg sydd ei hangen, tynnodd NAHT Cymru sylw at y risg o'i orlwytho:

“But just in terms of generally with the curriculum, I'd say there's potential for it being overloaded to the point where this is the kind of area that might get squeezed out in some schools.”<sup>322</sup>

Addysg yn y tymor hwy a'r cwricwlwm newydd

---

**390.** Trafododd nifer o dystion yr angen am newidiadau tymor hwy i addysg pobl iau.

**391.** Tynnodd yr Athro McAllister sylw at yr angen am raglen addysg fwy helaeth:

“You can look at schools and colleges as either a captive audience or a huge opportunity for promoting a different, more engaged citizen in the future, and we definitely came down in the latter camp, in that if we were to introduce votes at 16, we say very clearly that that should be aligned with a much more expansive programme of political and civic education. And I think that that requires quite a lot of investment, actually, in both time and resource, for it to be done effectively. But, I think, if the two things go hand-in-hand, then for me, 16 gives an opportunity to start a young person on the democratic journey with the right tools to be able to be a constant voter rather than an occasional voter, which I think we know young people have tended to be up until now.”<sup>323</sup>

**392.** O ran pa fath o broffil y dylai dinasyddiaeth ac addysg am wleidyddiaeth ei gael, dywedodd yr Athro McAllister y canlynol:

“We don't think it should purely be the mechanics of how you vote, the practical considerations about going to a polling station and casting your vote, nor should it be just about electoral systems because, obviously, we use various different electoral systems in Wales and elsewhere. We think it should be about how to evaluate political offers, so to speak. So, in lots of European countries, evaluating manifesto

---

<sup>321</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [98]

<sup>322</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [306]

<sup>323</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 25 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [75]

---

commitments can be incorporated into the curriculum ... So, this could be quite expansive ... quite radical ... in terms of democratic renewal ... we know that we have ... a problem with democratic engagement, some would say a crisis. If we're going to address that seriously, then it seems to me doing something through schools and with the youngest age population is probably the most advantageous way of going about it."<sup>324</sup>

**393.** Nododd yr Athro McAllister hefyd, o ran argymhelliad y Panel Arbenigol ar addysg am ddinasyddiaeth a gwleidyddiaeth, fod ei chysoni â honiad bod angen darpariaeth well yn ffordd o ddweud y gallai hyn fod o fudd i bawb yn yr etholfraint, nid i bobl ifanc yn unig.<sup>325</sup>

**394.** Aeth yn ei blaen i gydnabod y canlynol:

"... in terms of what we were asked to do—to make a conclusion over the appropriateness of lowering the voting age to 16 and 17—this seemed to us to give an opportunity to kick start something, which, as you rightly say ... should be present more widely and more consistently anyway. But, I guess, given it isn't, and given it isn't expansive enough, this is an opportunity to do so."<sup>326</sup>

**395.** Pwysleisiodd y Llywydd hefyd bwysigrwydd addysg fwy cyffredinol am ddinasyddiaeth<sup>327</sup> a, phan gafodd ei holi am natur benodol y ddarpariaeth addysg, nododd gefnogaeth dros y pwyntiau a wnaed gan yr Athro McAllister:

"Our outreach and education workers already do work with young people ... The advice to us from them is exactly what Laura McAllister said to you: yes, the mechanics of voting, taking the box to show how the actual vote happens on paper is interesting and useful to young people, but the real engagement comes from identifying issues and political philosophy and what leads to the political decision that you make in deciding who to vote for. So, that has to be constructed as part of all of this. It's already in operation."<sup>328</sup>

---

<sup>324</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 25 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [82]

<sup>325</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 25 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [95]

<sup>326</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 25 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [96]

<sup>327</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [142]

<sup>328</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [144]

---

**396.** Pwysleisiodd Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru mai'r hyn a oedd yn effeithiol yn yr Alban oedd y canlynol:

“... the rolling out of opportunities to debate and discuss current affairs, and that’s definitely what we heard through the Our Voices Heard project. The young people ... were suggesting things like space to debate in form time, experience of how to run a campaign, and being able to look at current affairs and discuss them. Also, developing the analytical skills needed to dissect what is fake news and what’s good social media content to follow.”<sup>329</sup>

**397.** O ran y cwricwlwm newydd, cydnabu’r Gweinidog Addysg yr angen am gysondeb yn y negeseuon y mae plant yn eu cael mewn perthynas ag addysg am wleidyddiaeth a dinasyddiaeth.<sup>330</sup> Roedd NAHT Cymru yn hoffi’r hyblygrwydd yr oedd y cwricwlwm newydd yn ei roi, ond yn cydnabod yr angen i gydbwysu hynny yn erbyn cysondeb yr hyn y byddai’n cael ei ddisgwyl o ran profiad craidd, gweithgaredd craidd y dylai pob plentyn ym mhob ysgol gael mynediad ato.<sup>331</sup>

Codi ymwybyddiaeth y tu allan i’r system addysg

---

**398.** Mae’n amlwg bod rôl i’r system addysg wrth helpu i baratoi pobl ifanc i bleidleisio’n 16 oed.

**399.** Trafododd y Llywydd y syniad o ymgysylltu â’r rhai nad ydynt yn cymryd rhan fel arfer:

“Mae e, wrth gwrs, wastad yn her i sicrhau bod grwpiau, neu ysgolion, hyd yn oed, sydd â llai o awydd neu allu i fod yn rhan o broses ddemocrataidd—ein bod ni, y Comisiwn, fan hyn, yn y gwaith addysg rŷm ni’n ei wneud, a hefyd pawb arall, yn gweithio’n galetach neu mewn ffordd wahanol i sicrhau fod pobl o grwpiau sydd yn ymwneud llai â’r broses ddemocrataidd yn arferol yn cael fwy o arweiniad, o bosib, ynglŷn â sut maen nhw’n gallu chwarae eu rhan nhw hefyd.”<sup>332</sup>

**400.** Trafododd y Gweinidog Addysg y cyfrifoldebau sydd ar y system addysg, yn ogystal â’r canlynol:

---

<sup>329</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [42]

<sup>330</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [43]

<sup>331</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [308]

<sup>332</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [152]

---

“So, it cannot be the job of education alone to ensure that people go to the polling station; it has to be the responsibility of other people. What is my job and what I regard the job of the education system to be is to ensure that children and young people will have had the opportunity—either in school, in college, in the youth service, in informal education—to avail themselves of the skills and knowledge that they need so that they can participate. But I just think we will fail if we think it’s only down to teachers and lecturers to make this happen.”<sup>333</sup>

**401.** Dywedodd NAHT Cymru wrthym hefyd fod angen i waith ymgysylltu fynd y tu hwnt i’r cwricwlwm:

“... if you leave it just to schools to pick those things up, then we’re missing opportunities. One thing I think that young people seem to operate in particularly now is in a social media type world, a world where they take their information much, much more widely than the traditional avenues that we did as youngsters.”<sup>334</sup>

**402.** Tynnodd y Comisiwn Etholiadol sylw hefyd at y rhai nad ydynt mewn addysg ffurfiol.<sup>335</sup>

Ariannu’r ymgyrch codi ymwybyddiaeth ac addysg

---

**403.** Mae Memorandwm Esboniadol y Bil yn nodi mai £150,000 fyddai’r gost sy’n gysylltiedig â hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o’r newid i’r etholfraint i Gomisiwn y Cynulliad.<sup>336</sup>

**404.** Mewn llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol a’r Gweinidog Addysg at y Llywydd ar 30 Ionawr, dywedwyd mai tua £895,000–£945,000 dros dair blynedd fyddai’r gost amcangyfrifedig ar gyfer cynhyrchu deunydd addysgol i’w gyflwyno mewn ysgolion a mannau eraill. Dywedodd y llythyr hefyd y byddai’r Gweinidogion yn ddiolchgar pe gallai’r Llywydd ystyried cyfraniad ariannol gan Gomisiwn y Cynulliad.<sup>337</sup>

---

<sup>333</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [60]

<sup>334</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [321]

<sup>335</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [60]

<sup>336</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Tabl 25, tudalennau 147-148

<sup>337</sup> Llythyr gan y Llywydd at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol a’r Gweinidog Addysg at y Llywydd, 30 Ionawr 2019

**405.** Dywedodd Pennaeth Trawsnewid Strategol Comisiwn y Cynulliad y canlynol wrthym:

“... the Llywydd has replied to the Minister to explain that the Assembly Commission set aside £150,000 within its budget, which will be directed in a way that’s consistent with the overall aims and objectives of the campaign, but not as a direct contribution to the Welsh Government for those costs that they’ve identified. I think those are being resourced by Welsh Government itself.”<sup>338</sup>

**406.** Esboniodd Cyfarwyddwr Cyllid Comisiwn y Cynulliad y canlynol o ran y £150,000:

“... mae’r arian rŷm ni’n ei gael fel y Comisiwn yn dod yn syth o’r Welsh consolidated fund, felly ni fyddai’n addas inni drosglwyddo’r arian yna’n syth i’r Llywodraeth. Felly, fe fyddwn ni’n gwario’r arian hynny, ond ar y cyd â’r Llywodraeth a’r Electoral Commission ...”<sup>339</sup>

**407.** Dywedodd NAHT Cymru wrthym y bydd yn hanfodol bod ysgolion yn cael yr adnoddau a’r dysgu proffesiynol i staff yn barhaus.<sup>340</sup> Dywedodd y canlynol:

“... it is the funding issues that are hitting schools at the moment are creating challenges in their ability to deliver policy that they even agree with, that they feel strongly that should be in place. They’re worried that actually some of that is being diluted because of the resource they have open to them.”<sup>341</sup>

**408.** Siaradodd am yr heriau sydd i ddod:

“So, you’re talking about not just the resource to deliver but also the scale that you’ve got to deliver over time, and, as a head, trying to look at how you manage that over a timetable that is, frankly, ambitious, is challenging, and however you might feel how important this might be, you have to assess the school’s ability to bring this into play for young people particularly.”<sup>342</sup>

**409.** O ran addysg broffesiynol, ychwanegodd NAHT Cymru y canlynol:

---

<sup>338</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [173]

<sup>339</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [351]

<sup>340</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE05, NAHT Cymru (Saesneg yn unig)

<sup>341</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [312]

<sup>342</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [315]

---

“So, to add on top of that something specific about professional learning to deliver what we’re talking about in this legislation, we’d have to think really carefully about the ability to deliver that in time, I think.”<sup>343</sup>

**410.** Esboniodd y Gweinidog Addysg fod £600,000<sup>344</sup> wedi’i nodi:

“... specifically for education to invest in resources and professional learning. That’s above and beyond professional learning money that is being made available for the introduction of the new curriculum on its own.”<sup>345</sup>

**411.** Cadarnhaodd y gellid ei ddefnyddio ar gyfer llenwi bylchau o ran adnoddau, dysgu proffesiynol,<sup>346</sup> ac yn benodol i gefnogi gwaith, canfyddiadau a chanlyniadau’r grŵp rhanddeiliaid<sup>347</sup>.

**412.** O ran cyflwyno dysgu proffesiynol mewn pryd i gyflwyno’r Bil hwn, dywedodd y canlynol:

“I from the centre cannot make judgments ... Professional learning money will be made available, and it is for headteachers, who understand the professional learning needs of their staff, to develop professional learning plans for their staff. So, I am confident that there is the financial resource there that will allow schools to engage in this process.”<sup>348</sup>

#### Cydweithio a’r bwrdd rhanddeiliaid

---

**413.** Clywsom amrywiaeth o dystiolaeth gan dystion ar yr angen a’r bwriad i randdeiliaid gwahanol gydweithio er mwyn llywio’r ffordd y mae’r Bil yn cael ei weithredu, yn enwedig o ran codi ymwybyddiaeth ac addysg.

**414.** Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol, yn ei lythyr dyddiedig 13 Chwefror 2019, fod Llywodraeth Cymru yn

---

<sup>343</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [316]

<sup>344</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [70]

<sup>345</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [64]

<sup>346</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [66]

<sup>347</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [68]

<sup>348</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [72]

“... gweithio gyda Chomisiwn y Cynulliad i ystyried pa drefniadau fydd eu hangen i sicrhau bod yr etholfraint ar gyfer etholiadau datganoledig yn cael ei hestyn yn llwyddiannus. Bydd y rhain yn cynnwys deunyddiau ymchwil, cyfathrebu ac addysgol. Rydym yn rhagweld y bydd angen sefydlu Bwrdd Allanol Llywodraeth Cymru o gynghorwyr i helpu gyda'r gwaith hwn, a bydd y Comisiwn yn bartneriaid allweddol i'n helpu i siapio'r gwaith.”<sup>349</sup>

**415.** Siaradodd y Cwnsler Cyffredinol am yr angen i ddeunyddiau addysgol fod yn barod erbyn mis Medi 2020 a nododd y gwaith sydd ar droed i gyflawni'r amcan hwnnw.<sup>350</sup>

**416.** Trafododd y Llywydd, mewn llythyr at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, a'r Gweinidog Addysg, gyfansoddiad y bwrdd rhanddeiliaid:

“Gwnaethoch ofyn am fy awgrymiadau ar gyfer y bwrdd rhanddeiliaid.

Byddwn yn awgrymu y dylai hyn gynnwys sefydliadau sector cyhoeddus sy'n cynrychioli'r gymuned etholiadol a phobl ifanc, gan gynnwys:

- Y Comisiwn Etholiadol
- Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru
- Cymdeithas Swyddogion Cofrestru Etholiadol
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Y Comisiynydd Plant

Byddwn hefyd yn awgrymu cynnwys rhanddeiliaid eraill o'r sector etholiadol a'r sector ieuenctid, a hynny mewn capasiti ymgynghorol. Gall y rhain gynnwys Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru, Bite the Ballot, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a chynrychiolwyr sefydliadau ieuenctid sy'n aelodau o grŵp Llywio Senedd Ieuenctid Cymru.

Byddwn yn awgrymu bod ein swyddogion yn cyfarfod i drafod manylion y cynigion hyn ac i archwilio ymhellach y math o gefnogaeth y byddech yn ei disgwyl gan swyddogion Comisiwn y Cynulliad ar gyfer

---

<sup>349</sup> Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 13 Chwefror 2019

<sup>350</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [189]



Bwrdd Llywodraeth Cymru er mwyn sefydlu'r Bwrdd Allanol cyn gynted ag y bo modd.”<sup>351</sup>

**417.** Dywedodd y Llywydd y canlynol hefyd:

“Fel y gwyddoch, mae'r amserlen yn dynn a bydd angen cynnal ymgyrch gofrestru yn ystod 2020, ac rwyf yn awyddus i ddeunyddiau fod ar gael i ysgolion erbyn mis Medi eleni. Mae swyddogion y Comisiwn yn barod i weithio'n gyflym â swyddogion y Llywodraeth i sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei gyflawni'n effeithiol.”<sup>352</sup>

**418.** Pwysleisiodd bwysigrwydd yr angen i baratoi gwaith ymgysylltu ymhell cyn yr etholiad<sup>353</sup> a thynnodd sylw hefyd at adnoddau perthnasol ar gyfer ysgolion a luniwyd gan Gomisiwn y Cynulliad ac sydd ar gael ar lwyfan Hwb ar hyn o bryd.<sup>354</sup> Cydnabu'r Llywydd hefyd fod angen gwybodaeth “i'r rheini sydd tu allan i ysgolion neu mewn meysydd eraill erbyn eu bod nhw'n 16 ac 17”.<sup>355</sup>

**419.** Cefnogodd Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru gydweithredu o'r fath:

“... it's imperative that the Assembly Commission and the Welsh Government, particularly the education Minister and the local government Minister, are really working together on this to really develop those political education recommendations, and we hope to see that moving forward.”<sup>356</sup>

**420.** Yn yr un modd, soniodd y Comisiwn Etholiadol am yr angen i ddod â grwpiau at ei gilydd i benderfynu pwy sy'n gorfod gwneud beth a phryd y mae angen gwneud hynny.<sup>357</sup>

**421.** Esboniodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru, a ddaeth gyda'r Cwnsler Cyffredinol, gyfansoddiad a rôl y grŵp rhanddeiliaid, gan dynnu sylw at bwysigrwydd osgoi dyblygu a negeseuon cyson. Nododd y canlynol hefyd:

---

<sup>351</sup> Llythyr gan y Llywydd at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, a'r Gweinidog Addysg, 8 Mawrth 2019

<sup>352</sup> Llythyr gan y Llywydd at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, a'r Gweinidog Addysg, 8 Mawrth 2019

<sup>353</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [117]

<sup>354</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnodion y Trafodion [116]

<sup>355</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [18]

<sup>356</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [96]

<sup>357</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [65]

“... part of the role of this group will be to oversee the output of the research we’ve just commissioned into what goes into the materials both for schools and a wider communication campaign, because we want to take the opportunity of the extension of the franchise to try and interest other people in democracy who perhaps don’t vote as well. We would like turnout to be greater overall, and the focus on 16 and 17-year-olds gives us the opportunity to do some more work in that area.”<sup>358</sup>

**422.** Nododd Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad rôl y grŵp rhanddeiliaid, gan ddweud y canlynol:

“... mi fyddwn ni’n cynllunio ymgyrchoedd ar y cyd i wneud yn siŵr ein bod ni’n osgoi dyblygu, a lle rŷm ni’n paratoi deunyddiau ar gyfer ysgolion ac ati, ein bod ni’n gwneud hynny mewn ffordd sy’n cyd-fynd i greu un ymgyrch fawr...

... ei fod e o fewn termau’r Comisiwn i fod yn gwneud gwaith ymgysylltu a gwaith cenhadu ymhlith etholwyr a darpar etholwyr o bob math. Felly, mae cryn dipyn o brofiad gyda’n tîm addysg ac ymgysylltu ni i dynnu arno fe, yn enwedig arbenigedd mewn gweithio gydag ysgolion a phobl ifanc, ac yn wir plant. Ac felly rŷm ni’n ymwybodol o’r heriau arbennig sydd â chyrraedd y grwpiau hynny, a gobeithio byddwn ni’n gallu cynnig cryn dipyn o arbenigedd i’r gwaith o ymgysylltu yn symud ymlaen.”<sup>359</sup>

**423.** Dywedodd y Llywydd wrthym y bydd y bwrdd ymgynghorwyr allanol yn cyfarfod am y tro cyntaf cyn yr haf.<sup>360</sup> Esboniodd y byddai’r gwaith ymchwil sy’n cael ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys grwpiau ffocws gyda phobl ifanc ac etholwyr sydd newydd gael yr etholfraint er mwyn canfod y ffordd orau o roi gwybodaeth.<sup>361</sup> Hefyd, dywedodd wrthym, er y disgwylir cyhoeddi’r ymchwil ym mis Ionawr 2020, y bydd canfyddiadau ac adroddiadau interim yn dechrau llywio gwaith datblygu adnoddau addysgol ac ymgysylltu ac ymgyrch codi ymwybyddiaeth.<sup>362</sup>

---

<sup>358</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [194]

<sup>359</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [352-353]

<sup>360</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [139]

<sup>361</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [139]

<sup>362</sup> Llythyr gan y Llywydd, Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), 16 Mai 2019

**424.** Nododd y Gweinidog Addysg y byddai'r grŵp rhanddeiliaid hefyd yn edrych ar ymarferoldeb sicrhau bod pleidleiswyr sydd newydd gael yr etholfraint yn ymddangos ar y gofrestr etholiadol,<sup>363</sup> gyda gwaith hefyd yn cael ei wneud ynghylch y ffordd y mae'n ymgysylltu â phlant nad ydynt mewn addysg ffurfiol, cyflogaeth na hyfforddiant.<sup>364</sup>

Roedd dyletswydd yn y Bil yn ymwneud â chodi ymwybyddiaeth ac addysg

---

**425.** Pan holwyd y Llywydd am gael dyletswydd statudol ar wyneb y Bil mewn perthynas ag addysg am ddinasyddiaeth, dywedodd y canlynol:

“Wel, o’n nhrafodaeth i hyd yn hyn gyda Llywodraeth Cymru, dydyn nhw ddim yn ffafrio dyletswydd statudol ar wyneb y Bil, a dwi’n cytuno y byddai hynny’n amhriodol hefyd. Rwy’n cyfeirio’n ôl eto at y ffaith ei bod hi’n briodol i’r Llywydd, fel yr Aelod sy’n gyfrifol am y Bil yma, fod yn ymwneud â pholisi a deddfwriaeth sydd yn ymwneud yn uniongyrchol â materion cyfansoddiadol, yn ymwneud â’n hetholiadau ni i’r Senedd yma, ond mater arall fyddai i Fesur o’r math yma wedyn rhoi dyletswydd ar y Llywodraeth am addysg mewn unrhyw ffurf o ran hynny. Felly, dwi ddim yn credu bod y Mesur a bod y gwaith yma angen y dyletswydd ar y Llywodraeth i wneud y gwaith yma.”<sup>365</sup>

**426.** Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y canlynol wrthym:

“There isn’t a plan to make political education mandatory in the curriculum, but you’ll know that there’s a different approach to curriculum going forward, but I think there is a significant opportunity, given the focus, as I mentioned briefly earlier, in relation to one of the outcomes being informed, engaged citizens, to find a range of ways to make sure that we are able to achieve that—the best way of achieving it.”<sup>366</sup>

**427.** Pan holwyd a ddylid cael dyletswydd ar y Bil i hwyluso addysg am wleidyddiaeth a dinasyddiaeth, dywedodd yr Athro McAllister y canlynol:

“I think, in terms of the remit of the Bill, from our point of view, clearly, it would have been preferable to have seen a commitment to move in the direction of citizenship and political education, but I understand

---

<sup>363</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [91]

<sup>364</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [21]

<sup>365</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [152]

<sup>366</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [211]

---

there is a degree of overlap, obviously, with executive responsibilities in that regard, and the origins of this Bill, having come from the Llywydd and the Commission, might have made that difficult. But I think whatever happens in amendments further down the line, there needs, in my opinion, to be a very strong, aligned commitment to improving the curriculum and extra-curricular engagement with young people around politics and civic education.”<sup>367</sup>

**428.** Nododd yr Athro Ellen Hazelkorn fod risgiau’n gysylltiedig â pheidio â rhoi darpariaeth addysg ar wyneb y Bil:

“... I think there are things that you might consider in terms of the legislation as to make it mandatory. I think if it’s not, then there are issues where some schools do it better than others. Some are more well resourced. You end up with the more elite, upper socioeconomically advantaged becoming more advantaged and others not, because it’s not well resourced, it’s not seen as something that’s part and parcel.”<sup>368</sup>

**429.** Cefnogodd yr Athro Egan yr angen am ddyletswydd gyfreithiol yn y Bil i Lywodraeth Cymru sicrhau bod addysg am wleidyddiaeth a dinasyddiaeth yn cael sylw priodol.<sup>369</sup>

**430.** Fodd bynnag, cawsom lawer o dystiolaeth a oedd yn amheus ynghylch cynnwys dyletswydd.

**431.** Dywedodd CLILC y canlynol wrthym:

“... I think it’s important to stress that it is probably not necessary to include it on the face of the Bill, a duty around the curriculum or civic education in schools, because the curriculum reforms will be introducing it...”<sup>370</sup>

**432.** Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru y canlynol wrthym:

“I wouldn’t necessarily expect political education to be included on the face of the Bill, particularly given the forthcoming changes planned to the contents and structure of the curriculum in Wales, but I am pleased

---

<sup>367</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 25 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [81]

<sup>368</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [156]

<sup>369</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [157-158]

<sup>370</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [248]

---

to see this commitment being formally restated within the Bill documents.”<sup>371</sup>

**433.** Esboniodd Solace y canlynol:

“We have duties and performance standards as electoral registration officers and returning officers to promote registration, to promote awareness of elections and to promote participation in elections. I think, between a number of organisations, we have huge reach with young people, particularly through the youth service that we have.”<sup>372</sup>

**434.** Pan holwyd Solace ymhellach am gynnwys dyletswydd ymwybyddiaeth yn y Bil, gwnaeth yr arsylw a ganlyn:

“What does a duty do when it’s something so generalistic as to promote awareness? We’re trying to ignite enthusiasm for all of us to promote and give access. Of course there should be ongoing curriculum reform ... You could argue that having too much reliance on the curriculum actually makes it feel a little more educational and instructive, away from the real life of somebody wanting to take part in the community ... I would question that putting a duty will add value. I’d rather be more imaginative.”<sup>373</sup>

**435.** Roedd NAHT Cymru yn teimlo y dylid gochel rhag ychwanegu dyletswydd at y Bil ac o’r farn y byddai rhyw fath o ganllaw statudol neu ddogfen debyg, sy’n esbonio cymhwysiad ymarferol yr hyn y mae’n ceisio ei annog, yn fwy defnyddiol i ysgolion na’r ddeddfwriaeth.<sup>374</sup>

**436.** O ran yr angen i roi canllawiau i ysgolion, dywedodd y Gweinidog Addysg y canlynol:

“We will actively consider that. We will actively consider whether there will be the need for additional guidance. And I don’t rule that out. And if the stakeholder groups feel that that would be necessary, that is something that we would actively engage in.”<sup>375</sup>

---

<sup>371</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE07, Comisiynydd Plant Cymru (Saesneg yn unig)

<sup>372</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [246]

<sup>373</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [251]

<sup>374</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [349]

<sup>375</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019 [101]

**437.** Fel y nodwyd eisoes, dywedodd y Gweinidog Addysg wrthym hefyd y byddai'r ddeddfwriaeth ynnddi'i hun yn helpu o ran y canlynol:

“... the passing of this legislation will add to that imperative, because those children will be exercising those rights. And I think it just changes the nature of the conversation, it changes the context in which some of those lessons are being delivered.”<sup>376</sup>

**438.** Nododd y Comisiwn Etholiadol ei ddyletswydd i godi ymwybyddiaeth o dan ddeddfwriaeth bresennol:

“The commission, under the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000, has a current legislative duty to raise awareness and promote public awareness, which it takes very seriously.”<sup>377</sup>

## Ein barn ni

**439.** Er nad yw'r Bil yn cynnwys darpariaethau mewn perthynas ag addysg, cawsom lawer o dystiolaeth ynglŷn â gostwng yr oedran pleidleisio i 16 ar gyfer etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol.

**440.** Rydym yn argyhoeddedig o'r angen am addysg ddigonol a gwaith i godi ymwybyddiaeth er mwyn gweithredu'r Bil yn briodol. Am y rheswm hwnnw, rydym yn pryderu oherwydd diffyg ymddangosiadol cynllun gweithredu cydlynol.

**441.** Er y bu cydnabyddiaeth bod pawb yn gweithio gyda'i gilydd yn ôl amcan a ddeallir yn fras, nid ydym yn glir o ran pwy sy'n arwain ar y gwaith hwn, a phwy sy'n gyfrifol am feysydd penodol, yn barod ar gyfer etholiad y Cynulliad yn 2021.

**442.** Yn ein barn ni, nid oedd y Llywydd, y Cwnsler Cyffredinol na'r Gweinidog Addysg yn ddigon clir am eu cynlluniau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ac addysg.

**443.** Rydym yn credu y gellir categorio'r materion y mae angen eu hystyried, os daw'r Bil yn gyfraith, yn ôl y meysydd a ganlyn:

- gwaith i hyrwyddo gallu pobl 16 a 17 oed i bleidleisio yn etholiad y Cynulliad yn 2021 pe bai'r Bil yn dod yn gyfraith a'r broses i'w dilyn;
- y gwaith addysgol sydd ei angen mewn ysgolion a manau eraill i hwyluso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r broses ddemocrataidd er mwyn

---

<sup>376</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [98]

<sup>377</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [61]

helpu pobl ifanc i wneud dewis gwybodus wrth arfer eu hawl i bleidleisio yn etholiad y Cynulliad yn 2021;

- rhaglen addysg dymor hwy ar gyfer etholiadau yn y dyfodol (wedi'i rhannu rhwng yr hen gwricwlwm a'r cwricwlwm newydd yn ôl yr angen).

**444.** Rydym yn canolbwyntio'n bennaf ar y camau gweithredu y mae angen eu cymryd yn ystod y cyfnod cyn etholiad y Cynulliad yn 2021, gan gwmpasu'r ddau faes cyntaf hyn, ond rydym hefyd yn teimlo bod y newidiadau hyn yn gyfle pwysig i wella addysg am ddinasyddiaeth a gwleidyddiaeth yn gyffredinol yng Nghymru ac i'r holl grwpiau oedran.

**445.** Mae'r amser sydd ar gael cyn etholiad y Cynulliad yn 2021 ar gyfer codi ymwybyddiaeth ac addysg yn amlwg yn heriol, ac roedd y dystiolaeth a gawsom ar y ddarpariaeth bresennol o ran addysg am ddinasyddiaeth mewn ysgolion, yn ogystal â'r capasiti i'r cwricwlwm presennol amsugno'r newidiadau gofynnol, yn amrywiol ac yn amhendant. Mae hwn yn faes a fyddai'n elwa ar fwy o eglurder.

**446.** Os yw pobl 16 a 17 oed yn mynd i arfer eu hawl i bleidleisio yn 2021, mae angen cynllun clir, cydgysylltiedig, wedi'i amserlennu a'i gostio ar gyfer codi ymwybyddiaeth ac addysg fel mater o frys.

**447.** Rydym yn cydnabod bod gwaith ar droed i gydlynu gweithgarwch yn ffurfiol drwy grŵp rhanddeiliaid. Er bod yr achos hwn o gydweithio i'w groesawu, rydym yn synnu na chafodd ei sefydlu wrth baratoi ar gyfer y Bil ac nad yw'r grŵp wedi cyfarfod eto.

**448.** Rydym yn parhau i fod yn aneglur o ran cyfansoddiad, cyfrifoldebau, ac amserlen weithredol y grŵp rhanddeiliaid. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y bydd gan y grŵp hwn ddylanwad sylweddol ar raglenni addysg a gwaith codi ymwybyddiaeth, o greu deunyddiau i ddyrannu adnoddau a phenderfyniadau o bosibl ynghylch rhoi canllawiau i ysgolion.

**449.** O gofio'r dylanwad posibl y grŵp rhanddeiliaid, byddem yn croesawu eglurder gan y Llywydd a Llywodraeth Cymru ynghylch ei gyfansoddiad, ei rôl ddiffiniedig a'i gyfrifoldebau, yr adnoddau a ddyrennir iddo, a'i allbynnau disgwylidig.

**Argymhelliad 11.** Dylai'r Llywydd gyhoeddi aelodaeth a chylch gorchwyl y grŵp rhanddeiliaid, gan gynnwys y cerrig milltir allweddol a'r amserlen ar gyfer cyflawni, cyn gynted â phosibl.

**Argymhelliad 12.** Dylai'r grŵp rhanddeiliaid lunio cynllun gweithredu ar gyfer cyd-gysylltu'r holl waith sy'n gysylltiedig â pharatoi deunyddiau addysgol a chodi ymwybyddiaeth ar gyfer etholiad y Cynulliad yn 2021, gan nodi llinellau atebolrwydd yn glir, yn ogystal â chyfrifoldeb am baratoi pob ffrwd waith benodol.

**450.** Yn ein barn ni, gallai'r deunydd hwn gynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- y weithred o gofrestru i bleidleisio;
- y weithred o bleidleisio, naill ai mewn gorsaf bleidleisio neu drwy bleidleisiau drwy'r post;
- y system bleidleisio yn y Cynulliad Cenedlaethol;
- gwybodaeth niwtral am wleidyddiaeth, pleidiau gwleidyddol ac athroniaethau gwleidyddol;
- maniffestos, gan gynnwys sut i'w cyrchu a'u gwerthuso;
- sut i ddadansoddi a gwerthuso gwybodaeth wleidyddol ar gyfer cywirdeb, yn enwedig wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol.

**Argymhelliad 13.** Ar ôl etholiad y Cynulliad yn 2021, dylai'r grŵp rhanddeiliaid gynnal adolygiad o'r etholiad i goladu'r gwersi a ddysgwyd er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu polisiau yn y dyfodol ac arwain ysgolion ar y ffordd fwyaf effeithiol o gyflwyno addysg am wleidyddiaeth a dinasyddiaeth fel rhan o'r cwricwla addysg presennol a newydd.

**451.** Rydym yn cytuno â'r Llywydd a Llywodraeth Cymru na ddylai'r Bil gynnwys dyletswyddau mewn perthynas â materion addysgol. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod angen canllawiau i sicrhau darpariaeth addysgol ddigonol a chyson ar draws Cymru ac rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog Addysg i ystyried y mater hwn ymhellach, yn dilyn cyngor gan y grŵp rhanddeiliaid.

**Argymhelliad 14.** Dylai'r Gweinidog Addysg gyhoeddi datganiad ysgrifenedig yn esbonio sut y caiff addysg am ddinasyddiaeth a gwleidyddiaeth ei chyflwyno mewn pryd ar gyfer etholiad y Cynulliad yn 2021, gan gynnwys yr amserlen ar gyfer canllawiau cysylltiedig y mae'n bwriadu eu cyhoeddi.

**452.** O'r dystiolaeth rydym yn nodi bod tua £900,000 wedi'i glustnodi ar gyfer gwaith codi ymwybyddiaeth ac addysg mewn perthynas â gostwng yr oedran pleidleisio gan Lywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £600,000 ac mae Comisiwn y Cynulliad wedi



ymrwymo £150,000. Nid ydym yn glir pwy sy'n gyfrifol am y diffyg cyllid ymddangosiadol.

**453.** Rydym wedi nodi bod y Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi costau codi ymwybyddiaeth ar gyfer awdurdodau lleol a'r Comisiwn Etholiadol.

**Argymhelliad 15.** Dylai'r Llywydd gyhoeddi datganiad ysgrifenedig cyn gynted â phosibl sy'n manylu ar y cyllid sy'n cael ei ddarparu gan bob corff sy'n cyfrannu at waith codi ymwybyddiaeth ac addysg yn barod ar gyfer etholiad y Cynulliad yn 2021.

## Goruchwyllo'r gwaith o weinyddu etholiadau

Dyletswydd i ystyried diwygio'r modd y goruchwylir gwaith y Comisiwn Etholiadol

---

**454.** Gwnaethom ystyried adran 27 fel y'i drafftiodd yn y Bil a cheisio trafod, yn sgil barn Comisiwn y Cynulliad a Llywodraeth Cymru, sut roeddent yn bwriadu diwygio'r adran hon.

**455.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi fel a ganlyn:

“Er ei bod yn briodol bod y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad ystyried sut y dylai swyddogaethau'r Comisiwn Etholiadol weithredu mewn perthynas â Chymru, ni ystyrir ei bod yn briodol pennu sut y dylid gwneud hyn. Yn hytrach, mae'r Bil yn pennu y caiff y Senedd wneud darpariaeth o fewn ei Rheolau Sefydlog ar sut y dylid cyflawni'r ddyletswydd. Mae'r Bil yn darparu y caiff unrhyw ddarpariaethau o'r fath a wneir o fewn y Rheolau Sefydlog ddirprwyo swyddogaethau i'r Llywydd, i bwyllgor neu i is-bwyllgor o'r Cynulliad.”<sup>378</sup>

**456.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bwriad Llywodraeth yr Alban i gyflwyno deddfwriaeth ar ddiwygio etholiadol yn 2019, gan gynnwys caniatáu i'r corff corfforaethol yn yr Alban ariannu gwaith y Comisiwn Etholiadol sy'n ymwneud ag etholiadau datganoledig yr Alban a'i wneud yn atebol i Senedd yr Alban am waith o'r fath.<sup>379</sup>

**457.** Yn ei llythyr dyddiedig 12 Chwefror 2019 atom, nododd y Llywydd y meysydd a ganlyn y mae angen eu trafod ymhellach, gan gynnwys:

---

<sup>378</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 22

<sup>379</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 66

- y gost i'r Comisiwn Etholiadol am reoleiddio etholiadau a refferenda datganoledig Cymru;
- cyllido'r fath gostau gan y Cynulliad Cenedlaethol;
- sut y byddai'r arian sy'n ofynnol i dalu costau o'r fath yn cael ei drosglwyddo o San Steffan i'r Cynulliad Cenedlaethol;
- y trefniadau i alluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ddwyn y Comisiwn Etholiadol i gyfrif am ei waith ar etholiadau datganoledig Cymru;
- sut y byddai trefniadau craffu o'r fath yn gweithio ochr yn ochr â gwaith craffu Senedd y DU ar y Comisiwn Etholiadol.<sup>380</sup>

**458.** Dywedodd y Llywydd wrthym mai ei thybiaeth weithredol yw y caiff adran 27 o'r Bil ei diwygio i roi mwy o eglurder ar y trefniadau atebolrwydd a goruchwylio ar gyfer y Comisiwn Etholiadol.<sup>381</sup> Rhoddodd Pennaeth Trawsnewid Strategol Comisiwn y Cynulliad arwydd o'r newidiadau y byddai eu hangen:

“It will require amendments to the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000, the Act which currently sets out the arrangements for the accountability of the Electoral Commission, and the role of the Speaker’s Committee on the Electoral Commission and how it’s funded ... in terms of how much detail goes onto the face of the Bill, about how the procedures of the Assembly may work and how the budget and the estimates are laid and to which committee that goes to, then there is clearly some flexibility as to how much of those provisions could go into Standing Orders in future, if the Bill is amended significantly at Stage 2. But those are issues that we still need to explore.”<sup>382</sup>

**459.** Yn dilyn hynny, dywedodd y Llywydd wrthym fod trafodaethau polisi â Llywodraeth Cymru yn parhau a dywedodd hefyd y canlynol:

“... the amendments that we would put forward, would be for a committee within the Assembly to be chaired by the Llywydd or the Deputy Presiding Officer. I think it’s an issue that we will give some more thought on, on whether the membership of that committee should be on the face of the Bill or whether the membership of the

<sup>380</sup> Llythyr gan y Llywydd, Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), 12 Chwefror 2019

<sup>381</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [177]

<sup>382</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [181]

committee should be in Standing Orders. I tend to favour it being in Standing Orders, in order to allow for circumstances that can be changed via Standing Orders. The membership of that committee could have a combination that currently looks like the Speaker's Committee, which includes members of the Government—it could include members of the Government—ex-officio members of this Assembly, who may well be committee Chairs, and named in their capacity as committee Chairs, and also to think about political party representation.”<sup>383</sup>

**460.** Dywedodd y Llywydd y canlynol hefyd:

“I understand that it's not—. The best way to have proposed legislation is to propose it in this way, but we had to consider at one point whether financial and accountability arrangements would be within the local government Bill or within our Bill. It was finally decided and agreed between the Welsh Government and myself that it would be within this Bill ... There is good a synchronicity in the fact that we are now having the powers to undertake changes to our Assembly elections—this Bill provides for some changes to be undertaken—then the Electoral Commission will be responsible for the holding of those elections in 2021, and it feels right that they should, by 2021, be accountable to this Assembly for that purpose. And therefore that's why we are still considering bringing forward amendments to enact that in Stage 2.”<sup>384</sup>

**461.** Dywedodd y Llywydd nad oedd y diwygiadau i adran 27 yn gwbl angenrheidiol ar gyfer yr etholiad yn 2021, ond ychwanegodd y canlynol:

“... it feels appropriate that the Electoral Commission is accountable to us here as an Assembly on the operation of that first election including the 16 and 17-year-old franchise in 2021.”<sup>385</sup>

**462.** Mewn llythyr dilynol, dywedodd y canlynol wrthym:

“Bydd y Comisiwn Etholiadol yn parhau'n un corff corfforaethol ac rwy'n deall ei fod yn bwriadu cadw un cynllun corfforaethol ar gyfer y DU gyfan. Byddai'r ymraniad hwn yn y trefniadau atebolrwydd a'r trefniadau ariannu'n anarferol, a byddai rhan o'r cyllid yn cael ei gytuno

---

<sup>383</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [227]

<sup>384</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [226]

<sup>385</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [236]

gan Bwyllgor y Llefarydd, Senedd yr Alban (cyhyd ag y bo'r Alban yn deddfu'n ôl y disgwyl), a'r Cynulliad.

Mae fy swyddogion yn trafod gyda'r Comisiwn Etholiadol yr angen i'w gwneud yn glir yn ei gynlluniau cyllidebol a'i amcangyfrifon pa elfennau sy'n ymwneud ag etholiadau datganoledig yng Nghymru a pha rai sy'n ymwneud â gweithgareddau'r DU.”<sup>386</sup>

**463.** Pan holwyd y Cwnsler Cyffredinol, dywedodd y canlynol wrthym:

“Well, a fundamental constitutional principle, I think, is that it's unsatisfactory for Welsh Ministers to have executive competence over elections without the Assembly having legislative oversight of those arrangements through a direct relationship to the Electoral Commission, so we're in discussion currently both with the Electoral Commission and the Assembly Commission about how that amendment might look. But I think there's broad agreement that it's needed so that a direct relationship can be established with the institution.”<sup>387</sup>

**464.** Cydnabu fod trafodaethau'n cael eu cynnal rhwng Llywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad a'r Comisiwn Etholiadol ynghylch gwelliannau<sup>388</sup> a nododd eu bod yn drafodaethau parhaus. Maent wedi bod yn parhau ers cryn amser.<sup>389</sup>

**465.** Gwnaethom ofyn a fyddai gwelliannau'n bosibl cyn diwedd Cyfnod 1. Dywedodd swyddog a ddaeth gyda'r Cwnsler Cyffredinol y canlynol wrthym:

“... the process is continuing and we haven't looked in detail at the drafting yet, it may be challenging to get fully formed provisions during Stage 1. That's my feeling at the moment.”<sup>390</sup>

**466.** Cydnabu'r Llywydd y byddai'r Cwnsler Cyffredinol yn arwain ar gyflwyno gwelliannau i adran 27, gan ychwanegu'r canlynol:

---

<sup>386</sup> Llythyr gan y Llywydd, Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), 16 Mai 2019

<sup>387</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [226]

<sup>388</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [226 a 234]

<sup>389</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [234]

<sup>390</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [240]

“Byddaf yn trafod gydag ef faterion yn ymwneud â'r gwelliannau hyn, gan gynnwys yr amserlen bosibl o ran sicrhau bod y gwelliannau ar gael i'r Pwyllgor.”<sup>391</sup>

**467.** Dywedodd y Comisiwn Etholiadol y canlynol wrthym:

“The accountability of the commission should be to the Assembly Commission and to a committee made up of all political parties, rather than the accountability of the electoral system to a Government or to a Minister. I think we're absolutely firm on that—that that is the proper procedure, just as, at the moment, we are answerable to the Speaker's Committee...”<sup>392</sup>

**468.** Yn ôl y Comisiwn Etholiadol:

“Mae trafodaethau blaenorol gyda Chomisiwn y Cynulliad wedi nodi y gallai rhai o'r trefniadau presennol sydd ar waith gael eu defnyddio er mwyn i'r Comisiwn Etholiadol adrodd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys panel presennol Comisiynwyr y Cynulliad yn sefydlu Pwyllgor Llywydd ar wahân - model a fyddai'n debyg i Bwyllgor y Llefarydd ar y Comisiwn Etholiadol yn Senedd y DU.

Byddai swyddogaethau'r corff hwn yn cynnwys:

- Trosolwg cyffredinol o'r modd y mae'r Comisiwn Etholiadol yn arfer ei swyddogaethau sy'n deillio o'r ddeddfwrfa honno;
- Adolygu amcangyfrif blynyddol o adnoddau'r Comisiwn sy'n ofynnol er mwyn cyflawni'r swyddogaethau o dan ei gyfrifoldeb deddfwriaethol;
- Ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn baratoi adroddiad blynyddol er mwyn hwyluso'r gwaith o graffu ar weithgareddau'r Comisiwn;
- Cael adroddiadau gan Swyddfa Archwilio Cymru.”<sup>393</sup>

**469.** Dywedodd wrthym ei fod wedi bod yn gweithio gyda Chomisiwn y Cynulliad ers mis Mehefin 2017 ar y manylion ynglŷn â sut y byddai'r Comisiwn Etholiadol yn

---

<sup>391</sup> Llythyr gan y Llywydd, Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), 16 Mai 2019

<sup>392</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [9]

<sup>393</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE12, y Comisiwn Etholiadol

atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol a sut y câi ei gyllido.<sup>394</sup> Pan holwyd y Comisiwn Etholiadol, dywedodd y canlynol wrthym:

“Wel, dŷn ni'n blês fod y cymalau fel y maen nhw wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth. Dŷn ni wedi bod yn gweithio'n agos iawn efo'r Llywydd a'i swyddogion a hefyd efo Llywodraeth Cymru, dros rhyw 18 mis i ddwy flynedd bron â bod nawr, i sicrhau bod y newidiadau sydd yn y ddeddfwriaeth seneddol, y Wales Act, yn cael eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth yma.”<sup>395</sup>

**470.** Yn ei farn ef, mae'r “cyfrifoldebau yma i gyd yn cael eu trosglwyddo i'r Cynulliad erbyn 2021 ar gyfer etholiadau'r Cynulliad”<sup>396</sup> a chred y “byddai fo'n rhyfedd, yn od iawn, pe bai'r holl newidiadau yma'n mynd trwodd ar gyfer etholiadau Cymru ond... bod atebolrwydd y comisiwn yng Nghymru am yr etholiadau hynny yn aros gyda'r pwyllgor yn San Steffan”.<sup>397</sup>

**471.** Roedd yr Athro McAllister yn teimlo'r canlynol:

“... it's right and proper that the Electoral Commission comes under the remit of this institution. I think, probably, more work needs to be done about how that would be operationalised and how it would be funded and how you as an institution would ensure that there is proper oversight of its activities, but, in principle, I think it's the right one.”<sup>398</sup>

**472.** Cafwyd cefnogaeth hefyd gan Solace i'r Comisiwn Etholiadol fod yn atebol i'r Cynulliad.<sup>399</sup>

**473.** Nododd yr Athro Bush QC y canlynol:

“... the legal purist in me would say this is placing a duty on yourself, which really is not a useful exercise, but, of course, the purpose of legislation is whatever the legislature wants to make it, and, as I understand it, the purpose of this is to reinforce the requirement for the

---

<sup>394</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE12, y Comisiwn Etholiadol

<sup>395</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [101]

<sup>396</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [102]

<sup>397</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [103]

<sup>398</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 25 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [125]

<sup>399</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [278]

Assembly to look into this matter and come up with some detailed suggestions.”<sup>400</sup>

**474.** Ychwanegodd ei fod yn cytuno’n llwyr â’r egwyddor y tu ôl i’r ddarpariaeth honno, ond bod angen llawer o waith,<sup>401</sup> gan ddweud y canlynol:

“... it does seem to me that it’s not something you can rush, that, until you’ve examined the complexity of it, you don’t really know how much time it’s going to take. But I think that we’re talking about, first of all, something fundamental to democracy—confidence in elections and so on—and it’s something that needs to be developed, I think, in detail, in a way that everybody’s comfortable with, not least of all the Electoral Commission ... the aim, as I say, is totally laudable ... but I’m just a little bit concerned that this is a bit of a shortcut, really, to what needs to be done.”<sup>402</sup>

**475.** Gwnaethom ofyn i Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad am oblygiadau cost diwygiadau i adran 27. Dywedodd y canlynol:

“It’s a little difficult to talk theoretically about this without knowing what the proposals are that would come forward. Certainly, we would envisage, at the point where proposals do come forward, they would be accompanied by robust financial information that we would do our best to provide. In terms of those amendments, obviously there are two kinds of costs. There are costs of funding the Electoral Commission’s activities and then there are costs relating to the oversight and scrutiny of the Electoral Commission’s activities and facilitating the oversight of the Electoral Commission’s work. I understand that there are discussions ongoing between the Welsh Government, the Electoral Commission and the Treasury with regard to the possibility of transferring money to the Welsh consolidated fund to pay for the former, to pay for the work itself...”<sup>403</sup>

**476.** Ar 13 Mehefin 2019, ysgrifennodd y Llywydd atom yn rhoi rhagor o wybodaeth am y cyfeiriad polisi arfaethedig yn ymwneud ag ariannu ac atebolrwydd y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig yng

---

<sup>400</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 25 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [182]

<sup>401</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 25 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [182]

<sup>402</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 25 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [210]

<sup>403</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [322]

Nghymru.<sup>404</sup> Ysgrifennodd y Cwnsler Cyffredinol hefyd atom ar yr un mater ar 25 Mehefin 2019.<sup>405</sup>

## Ein barn ni

**477.** Rydym yn cytuno â'r Llywydd, y Cwnsler Cyffredinol a'r Comisiwn Etholiadol y dylai'r Comisiwn Etholiadol yng Nghymru fod yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol fel mater o egwyddor.

**478.** Rydym yn credu y dylai trefniadau o'r fath fod wedi'u cynnwys yn y Bil ar ôl ei gyflwyno yn hytrach na'r dull gweithredu sy'n cael ei awgrymu nawr o gyflwyno gwelliannau i wneud hynny yng Nghyfnod 2.

**479.** Mae'r dystiolaeth a glywsom ynglŷn â gwelliannau posibl i adran 27 a natur y gwelliannau hynny yn tynnu sylw at arwyddocâd y ddeddfwriaeth sydd ei hangen i wneud y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

**480.** Mae'n amlwg, o'r dystiolaeth a glywsom, fod gwneud y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru yn atebol i'r Cynulliad yn cynnwys cryn dipyn o waith datblygu polisi a bod y materion yn debygol o fod yn hynod gymhleth. Yn ogystal, mae angen ystyried a chytuno ar faterion o ran ariannu'r newid mewn atebolrwydd. Mae'n debyg bod hyn yn esbonio pam nad yw gwaith ar y gwelliannau y disgwyliwyd iddynt gyflawni'r newidiadau polisi hyn wedi datblygu'n sylweddol eto.

**481.** Rydym yn nodi bod proses gyfatebol i wneud y Comisiwn Etholiadol yn yr Alban yn atebol i Senedd yr Alban yn cael ei chynnal yn yr Alban gan Lywodraeth yr Alban.

**482.** Mae'r dystiolaeth a gasglwyd gennym hefyd yn tynnu sylw at ein pryderon am y dull o ddeddfu mewn perthynas ag adran 27. Mae'n teimlo fel deddfwriaeth sy'n cael ei rhuthro ac nid yw'r rhesymau dros wneud hynny, yn ein barn ni, yn gymhellol.

**483.** Rydym yn cydnabod y byddai'n gyfansoddiadol well cael trefniadau ar waith cyn etholiad y Cynulliad yn 2021.

**484.** Yn yr amgylchiadau, rydym yn credu y dylai darpariaethau sy'n nodi'r trefniadau manwl ar gyfer goruchwyllo'r Comisiwn Etholiadol yng Nghymru gan y Cynulliad Cenedlaethol gael eu cynnwys yn y Bil llywodraeth leol sydd ar ddod.

---

<sup>404</sup> Llythyr gan y Llywydd, Ariannu'r Comisiwn Etholiadol ac atebolrwydd y sefydliad, 13 Mehefin 2019

<sup>405</sup> Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 25 Mehefin 2019



Byddai hyn yn caniatáu gwaith craffu llawn ar y darpariaethau hynny yn ystod proses Cyfnod 1, gan ganiatáu gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid ar fanylion y darpariaethau, yn ogystal â'r bwriad polisi.

**Argymhelliad 16.** Dylai'r Llywydd ddiwygio'r Bil i ddileu adran 27.

**Argymhelliad 17.** Yn niffyg Bil sy'n sefyll ar ei ben ei hun, dylai'r Bil llywodraeth leol sydd ar ddod gynnwys adrannau sy'n nodi trefniadau goruchwyllo manwl y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru gan y Cynulliad Cenedlaethol.

## 7. Rhan 4 – Anghymhwysu

Mae Rhan 4 o'r Bil yn diwygio'r gyfraith sy'n ymwneud ag anghymhwysu person rhag bod yn Aelod o'r Cynulliad. Mae'n seiliedig ar adroddiad gan ein Pwyllgor blaenorol yn y Pedwerydd Cynulliad, a baratowyd yn sgil dau Aelod a etholwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael eu hanghymhwysu oherwydd eu bod yn aelodau o gyrff cyhoeddus na chaniateir i Aelodau sy'n gwasanaethu berthyn iddynt.<sup>406</sup>

**485.** Yn 2014, cyhoeddodd ein Pwyllgor blaenorol yn y Pedwerydd Cynulliad adroddiad ar anghymhwysu rhag bod yn Aelod o'r Cynulliad Cenedlaethol, gan wneud 21 o argymhellion.<sup>407</sup> Roedd yr adroddiad yn dilyn gohebiaeth gan y Prif Weinidog ar y pryd.<sup>408</sup> Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

“Gan adlewyrchu barn mwyafrif y rhai a ymatebodd yn bendant i'r cwestiwn hwn, mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth i weithredu argymhellion Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Pedwerydd Cynulliad mewn perthynas ag anghymhwysu person rhag bod yn Aelod Cynulliad.”<sup>409</sup>

**486.** Mae Rhan 4 o'r Bil yn gwneud newidiadau penodol i'r ddeddfwriaeth ar anghymhwysu person rhag bod yn Aelod o'r Cynulliad, ac mae'r fframwaith presennol ar gyfer hynny wedi'i nodi yn adrannau 16 i 19 o Ddeddf 2006.<sup>410</sup> Yn benodol, mae adran 16(1) o Ddeddf 2006 yn rhestru rhai o'r bobl sydd wedi'u hanghymhwysu rhag bod yn Aelod Cynulliad. Mae pobl eraill sydd wedi'u

<sup>406</sup> Cefndir a chyd-destun polisi'r newidiadau a geir ym mhennod 4, adran 4.4 o'r Memorandwm Esboniadol

<sup>407</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Ymchwiliad i anghymhwysu person rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Gorffennaf 2014

<sup>408</sup> Llythyr gan y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, y Prif Weinidog i'r Fonesig Rosemary Butler, Llywydd, Anghymhwysu person rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, 27 Ionawr 2014

<sup>409</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 62

<sup>410</sup> Crynodeb yn Atodiad 1: Cyd-destun deddfwriaethol y Bil, tudalennau 296-297 o'r Memorandwm Esboniadol

hanghymwysu yn cael eu nodi drwy gyfeirio at ddeddfwriaeth arall neu fe'u cynhwysir o fewn darnau eraill o ddeddfwriaeth.

**487.** Yn ogystal, mae Gorchmynion Anghymhwysu a wneir o dan Ddeddf 2006 yn nodi rhestrau hir o swyddi sy'n anghymhwysu person rhag sefyll fel Aelod Cynulliad.

**488.** Fel y mae pethau ar hyn o bryd, caiff person ei anghymhwysu ar yr adeg y caiff ymgeisydd ei enwebu i'w ethol yn unol â Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007.

**489.** Mae adran 29(2) o'r Bil:

- yn anghymhwysu Aelodau o Dŷ'r Arglwyddi rhag bod yn Aelodau o'r Cynulliad trwy eu hychwanegu at y rhestr a gynhwysir yn adran 16(1) o Ddeddf 2006 (yn ddarostyngedig i adran 31 sy'n mewnosod adran 17C newydd yn Neddf 2006 ac yn darparu nad yw anghymhwysu yn gymwys os gwneir cais am absenoldeb gan Dŷ'r Arglwyddi);
- gydag is-adran 29(6) ac Atodlen 2, yn cynnwys, o fewn yr Atodlen 1A newydd i Ddeddf 2006, restr lawn o bob person neu ddeiliad swydd sydd wedi'i anghymhwysu rhag bod yn Aelod o'r Cynulliad Cenedlaethol neu'n ymgeisydd mewn etholiad i fod yn Aelod o'r Cynulliad Cenedlaethol;<sup>411</sup>
- yn dileu deiliaid swyddi'r Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o adran 16(1) o Ddeddf 2006 ac yn eu cynnwys yn yr Atodlen 1A newydd i Ddeddf 2006 fel eu bod yn cael eu trin ar yr un sail â swyddi eraill a benodir yn gyhoeddus yng Nghymru;
- yn dileu aelodau o staff y Cynulliad o adran 16(1) o Ddeddf 2006 (er bod Clerc y Cynulliad Cenedlaethol wedi'i gynnwys yn yr Atodlen 1A newydd i Ddeddf 2006).

**490.** Mae adran 29(3) o'r Bil yn sefydlu dau gategori penodol o anghymwysiaidau drwy fewnosod dwy is-adran (1A) ac (1B) yn adran 16 o Ddeddf 2006. Mae'r darpariaethau hyn yn darparu:

- bod un categori yn dod i rym pan gaiff person ei enwebu (h.y. bod yn anghymwys rhag sefyll etholiad i'r Cynulliad);

---

<sup>411</sup> Nodir crynodeb o'r Atodlen 1A newydd ym mharagraffau 107-113 o Nodiadau Esboniadol y Bil (tudalen 285 o'r Memorandwm Esboniadol).

- bod y llall yn dod i rym wrth dyngu'r llw neu gadarnhau teyrngarwch (h.y. anghymwysiaid rhag bod yn Aelod Cynulliad).

**491.** Mae adran 29(4) yn dileu is-adrannau (2) i (4) o adran 16(1). Mae'r rhain yn ymwneud ag anghymwysiaid rhag bod yn Aelod o Dŷ'r Cyffredin neu sefyll i fod yn Aelod o'r Tŷ neu bleidleisio yn y Tŷ hwnnw (heblaw anghymwysiaid o dan Ddeddf Anghymhwysio Tŷ'r Cyffredin 1975), anghymhwysio troseddwr ac anghymhwysio Arglwydd Raglawiaid, Rhaglawiaid ac Uchel-Siryfion. Yn hytrach, pennir yr anghymwysiaid hyn yn llawnach yn yr Atodlen 1A newydd.

**492.** Mae adrannau 30, 32 a 33 o'r Bil yn diwygio adrannau 17, 18 a 19 o Ddeddf 2006 yn eu tro, tra bod adran 34 yn gwneud diwygiadau canlyniadol.

### Ystyried y newidiadau arfaethedig

**493.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol o ran y newidiadau:

“...dylai hyn gael gwared ar rai rhwystrau rhag sefyll etholiadau a galluogi mwy o bobl i sefyll etholiad oherwydd ni fydd yn rhaid iddynt roi'r gorau i'w gwaith i wneud hynny. Y nod yw y gallai lleihau'r rhwystrau rhag sefyll etholiad arwain at gynnydd posibl yn amrywiaeth y gynrychiolaeth yn ogystal ag at broses fwy effeithiol.”<sup>412</sup>

**494.** Pwysleisiodd y Llywydd mai bwriad y ddeddfwriaeth yw “caniatáu i fwy o bobl i fod yn medru sefyll etholiad oherwydd dŷn nhw ddim yn gorfod rhoi i fyny eu swyddi cyn eu bod nhw'n sefyll etholiad”<sup>413</sup> a darparu'r “eglwurder yna ... nad oedd yna yn 2011”.<sup>414</sup> Eglurodd sut y byddai'r darpariaethau hyn yn gweithio mewn gohebiaeth ddiweddarach gyda ni.<sup>415</sup>

**495.** Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym fod egwyddor y newid i wahaniaethu rhwng y ddau fath o anghymhwysiad<sup>416</sup> yn gywir, yn dilyn ei lythyr atom a nododd y canlynol:

“Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r bwriad polisi yn llawn i roi eglurder ynghylch y personau/swyddi sydd wedi'u hanghymhwysio rhag aelodaeth, ac sydd wedi anghymwysio rhag sefyll fel ymgeisydd. Er mwyn bod yn gwbl fodlon bod y darpariaethau hyn yn cael gwared ar

<sup>412</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 62-63

<sup>413</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [190]

<sup>414</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [188]

<sup>415</sup> Llythyr gan y Llywydd, Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), 16 Mai 2019

<sup>416</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [259]

gymhlethdod i'r graddau eithaf posibl, a bod yn esmwyth â sail resymegol y polisi ar gyfer newid cymhwysra o'r hyn a geir yn y gyfraith bresennol mewn unrhyw ffordd, rydym yn eu dadansoddi'n fanwl."<sup>417</sup>

**496.** Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol hefyd y canlynol:

"The principle ought to be that one should maximise the range of people capable of standing for election, but consistent with some conflicts, and we have to be clear about how we address those. That means that some people should not be entitled to stand for election—for example, judges and so on—because of the political dimension to that."<sup>418</sup>

**497.** Cadarnhaodd, o safbwynt Llywodraeth Cymru, fod gwaith i'w wneud mewn perthynas â'r rhan hon o'r Bil.<sup>419</sup>

**498.** Cytunodd yr Athro Awan-Scully â'r egwyddor, cyn belled ag y bo'n bosibl, o beidio â chyfyngu'r rhai sy'n sefyll fel ymgeiswyr:

"What's proposed, I think, is a very modest move in that direction, and I think, except for some of the extremely important offices they mentioned, in general, I think, where there's a potential conflict of interest, that mostly comes at the point of election rather than necessarily just of standing. We should not, in general, be making it harder for people to become candidates for political office, including an institution like this. Doing so is a public service and, frankly, it's something we need more of and not less."<sup>420</sup>

**499.** Roedd yr Athro Bush QC yn gefnogol o'r newidiadau a gynigiwyd, gan ddweud bod y darpariaethau yn gwneud iawn am y pethau yr oedd angen eu cwiro.<sup>421</sup> Fodd bynnag, dywedodd fod angen edrych ar y manylion<sup>422</sup> ac y byddai angen cymryd gofal i sicrhau cysondeb wrth ddyrannu swyddi sydd wedi'u rhestru

---

<sup>417</sup> Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol at y Cadeirydd, 13 Chwefror 2019

<sup>418</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [256]

<sup>419</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [259]

<sup>420</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 25 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [261]

<sup>421</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 25 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [188]

<sup>422</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 25 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [188]

am resymau cyfansoddiadol fel rhai sy'n anghyson â bod yn Aelod Cynulliad.<sup>423</sup>  
Nododd er enghraifft:

“... nad yw swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru'n ymddangos, ar hyn o bryd, yn y rhestr gyntaf er ei bod yn un sy'n gyfansoddiadol anghydnaws ag ymgeisyddiaeth i fod yn Aelod.”<sup>424</sup>

**500.** Gwnaethom ofyn i'r Athro Bush QC am y posibilrwydd o dyngu'r llw ac ymddiswyddo'n awtomatig o unrhyw swydd sy'n anghymwysu o ganlyniad i hynny, safbwynt nad yw'r Bil yn ei fabwysiadu. Dywedodd y canlynol:

“... I think it would be an added refinement to say that if you hold one of these offices then you automatically cease to hold it if you take the oath as an Assembly Member. That certainly would be an alternative and, of course, you don't eliminate the risk of an inadvertent disqualification entirely by the new arrangements, because it does place an onus on a candidate who is elected to know whether they're going to have to resign or not from a particular office before they take the oath. And I think many people would say this is not really much of a burden to place on people...”<sup>425</sup>

**501.** Pan holwyd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol Comisiwn y Cynulliad, esboniodd pam nad oedd y Bil yn cynnwys darpariaeth fel y bernir bod person wedi ymddiswyddo'n awtomatig o unrhyw swyddi sy'n anghymwysu pobl rhag bod yn Aelodau ar ôl tyngu'r llw:

“There is a legislative competence issue there though, because some of the disqualifying offices don't fall within the remit of the Assembly. So, the Assembly could not legislate as to when an individual ceases to hold a particular office. So, to legislate for that for some and not others would lead to a possibly slightly more confusing picture than exists at the moment.”<sup>426</sup>

**502.** Croesawodd y Comisiwn Etholiadol y dull gweithredu mewn perthynas â'r adeg y mae person wedi'i anghymhwysu, ond dywedodd:

---

<sup>423</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE03, yr Athro Keith Bush QC

<sup>424</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE03, yr Athro Keith Bush QC

<sup>425</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 25 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [198]

<sup>426</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [195]

---

“Mae’n bwysig bod y newidiadau hyn yn cael eu nodi’n glir o dan y gyfraith fel y gall darpar ymgeiswyr sydd am sefyll etholiad wybod yn hawdd os ydynt yn anghymwys o bosibl. Mae’n bwysig hefyd roi gwybod am unrhyw newidiadau chwe mis cyn y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau fel y gall unrhyw newidiadau gael eu deall.”<sup>427</sup>

**503.** Roedd CLILC yn teimlo y byddai’r Bil yn gwneud pethau’n gliriach, gan ddweud y canlynol:

“It streamlines it and makes it clearer for people involved in the process and avoids the previous issues experienced.”<sup>428</sup>

**504.** Roedd hefyd o’r farn a ganlyn:

“... the WLGA agreed that councillors should be disqualified—not disqualified, but prohibited from being Assembly Members as well. I think the period was that they should resign within 12 months of being elected to another role. So the WLGA’s position is that the two roles should be separated in terms of clarity and transparency for the public, to avoid confusion, but also because the role of Assembly Members and councillors requires a significant amount of time dedicated to specific issues—obviously national issues, typically, within this institution, but more local community issues in authorities. So, our view is that the two roles should be separated.”<sup>429</sup>

**505.** Roedd Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru yn teimlo bod aelodaeth ddwbl yn rhoi straen ychwanegol ar Aelodau presennol y Cynulliad<sup>430</sup> ac esboniodd y canlynol:

“... we in principle don’t have any objections to double-jobbing, and I don’t think we’ve necessarily seen any particular issues. I wouldn’t want to pinpoint any particular individuals who currently do. I just think it’s important to consider the capacity of the Assembly in an argument around whether it is feasible for Assembly Members to do two roles.”<sup>431</sup>

---

<sup>427</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE12, y Comisiwn Etholiadol

<sup>428</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [267]

<sup>429</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [270]

<sup>430</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, SE04, Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru (Saesneg yn unig)

<sup>431</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 1 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [23]

**506.** Cawsom dystiolaeth hefyd gan aelod o'r cyhoedd am gymhwysedd gweision sifil i sefyll:

“As I understand it, civil servants are banned from running to be AMs. Wales has a huge number of civil servants. Imagine Swansea and the DVLA - all prevented from being AMs because they are civil servants. Surely it's fairer to allow civil servants to run for office but only for them to quit IF they are elected. Can this be added to the Bill?”<sup>432</sup>

## Ein barn ni

**507.** Rydym yn croesawu'r cynigion i weithredu argymhellion ein Pwyllgor blaenorol, yn enwedig o ran yr adeg y caiff ymgeiswyr eu hanghymhwyso.

**508.** Rydym yn teimlo ei bod yn egwyddor bwysig i beidio â chyfyngu ar y rhai a gaiff sefyll etholiad y tu hwnt i'r hyn sy'n angenrheidiol. Fodd bynnag, derbyniwn fod yna swyddi sy'n anghydnaws â sefyll etholiad.

**509.** Felly, rydym yn croesawu'r gwahaniaeth rhwng y rhai sydd wedi'u hanghymhwyso rhag sefyll mewn etholiad, a'r rhai sy'n gymwys i sefyll, ond y mae eu swyddi'n anghydnaws â sefyll fel Aelod Cynulliad.

**510.** Rydym hefyd yn croesawu'r eglurder ychwanegol a'r hygyrchedd gwell yn sgil y Bil o ran anghymhwyso person rhag bod yn Aelod o'r Cynulliad Cenedlaethol.

**511.** Rydym yn cytuno â thystion a awgrymodd fod angen ystyried Atodlen 2 i'r Bil yn ofalus. Yn benodol, nodwn fod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith pellach yn y maes hwn.

**Argymhelliad 18.** Dylai'r Llywydd a Llywodraeth Cymru fodloni eu hunain bod Atodlen 1A i Ddeddf 2006, fel y'i mewnosodwyd gan adran 29 o Ddeddf 2006, ac Atodlen 2 iddi, yn briodol.

**512.** Wrth ffurfio'r farn hon, tynnwn sylw at y ffaith y byddai Bil drafft wedi helpu i sicrhau bod Atodlen 2 yn addas at y diben, gyda'r fantais ychwanegol o alluogi trafodaeth gyda'r grwpiau perthnasol yr effeithir arnynt.

---

<sup>432</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE02, unigolyn dienw (Saesneg yn unig)



## 8. Rhan 5: Amrywiol

Mae Rhan 5 o'r Bil yn cynnwys amryw o ddiwygiadau i Ddeddf 2006. Mae'n estyn yr amser pryd y mae'n rhaid cynnal cyfarfod cyntaf y Cynulliad Cenedlaethol ar ôl etholiad, yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n rhoi effaith i argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar gyfraith etholiadol, ac yn egluro gallu Comisiwn y Cynulliad i godi tâl am ddarparu nwyddau a gwasanaethau.

**513.** Mae Rhan 5 yn cynnwys tair adran. Mae dwy o'r adrannau hyn, sy'n ymwneud â chyfarfodydd y Cynulliad Cenedlaethol a phwerau Comisiwn y Cynulliad, yn faterion sy'n berthnasol i weithrediad mewnol y Cynulliad yn benodol. Ni chawsom fawr o dystiolaeth ar yr adrannau hyn.

**514.** Mae trydedd adran yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth er mwyn gwneud darpariaethau ynghylch etholiadau er mwyn gweithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith.

### Cyfarfodydd y Senedd

Amseriad y cyfarfod cyntaf

---

**515.** Ar hyn o bryd, mae Deddf 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i gyfarfod cyntaf y Cynulliad Cenedlaethol ddigwydd o fewn saith diwrnod i etholiad Cynulliad Cenedlaethol.

**516.** At hynny, mae Deddf 2006 a'r Rheolau Sefydlog yn gosod cyfyngiadau ar yr Aelodau Cynulliad y gellir eu hethol i swydd y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

“Yn ymarferol, wrth eu darllen gyda'i gilydd, mae adrannau 25(7), (8) a (9) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheolau Sefydlog 6.12-14 yn golygu, oni bai fod y Cynulliad yn penderfynu datgymhwyso'r meini prawf ar yr adeg berthnasol (naill ai ar ddechrau Cynulliad neu yn ystod tymor Cynulliad os yw amgylchiadau'n newid):

- rhaid i'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd berthyn i grwpiau gwleidyddol gwahanol;

- rhaid i un ohonynt berthyn i grŵp gwleidyddol sydd â rôl weithredol;
- rhaid i'r llall berthyn i grŵp gwleidyddol nad oes ganddo rôl weithredol ynddo.”<sup>433</sup>

**517.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi efallai na fydd y rhain yn hysbys o fewn y terfyn amser o saith diwrnod:

“Mae Adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad enwebu Prif Weinidog o fewn 28 diwrnod i etholiad cyffredin neu eithriadol. Felly, mae'n bosibl na fydd yn glir ar yr adeg y mae'n rhaid i'r Cynulliad ethol Llywydd a Dirprwy Lywydd pa grwpiau gwleidyddol fydd â swyddogaethau gweithredol, a pha rai na fydd ganddynt swyddogaethau gweithredol yn nhymor newydd y Cynulliad.”<sup>434</sup>

**518.** Mae Adran 35 o'r Bil yn cynnig cynyddu'r terfyn amser hwn i 14 diwrnod. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, byddai hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd<sup>435</sup> ac yn:

“... rhoi mwy o gyfle i'r pleidiau gwleidyddol drafod a negodi â'i gilydd ar ôl etholiad. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer systemau etholiadol cyfrannol fel yr un a ddefnyddir yn y Cynulliad, sy'n cael eu hystyried yn llai tebygol o greu llywodraethau lle mae gan un blaid fwyafrif, a lle gall trafodaethau a negodiadau o'r fath gael effaith wleidyddol sylweddol am flynyddoedd lawer.”<sup>436</sup>

**519.** Cefnogwyd y cynnig gan fwyafrif yr ymatebwyr i ymarfer ymgynghori Comisiwn y Cynulliad yn 2018.<sup>437</sup>

**520.** Croesawodd yr Athro Awan-Scully y newid hwn:

“I think allowing just a little bit more breathing space after the election, particularly in the likelihood—you know, we've never yet had an Assembly election that has resulted in an absolute one-party majority. Who knows where we'll be by 2021, but it's quite likely that we may be

---

<sup>433</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 248

<sup>434</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 251

<sup>435</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 254

<sup>436</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 74

<sup>437</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 76

in similar territories, and it's reasonable to allow the parties a little bit of time."<sup>438</sup>

**521.** Roedd yr Athro Bush QC hefyd yn cytuno:

"... y dylai'r cyfnod rhwng etholiad a chyfarfod cyntaf y Senedd fod yn ddim mwy na phedwar diwrnod ar ddeg yn hytrach na saith diwrnod. Mae angen cael digon o amser i'r pleidiau trafod, ym mhlith ei gilydd, pwy bydd yn ffurfio llywodraeth ac, yn sgil hynny, pwy ddylai dal swyddi'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd."<sup>439</sup>

## Ein barn ni

**522.** Gyda'r terfyn amser presennol o 7 diwrnod, rydym yn cydnabod y gall fod yn heriol ffurfio llywodraeth a dewis Llywydd a Dirprwy Lywydd.

**523.** Felly, rydym yn cytuno â'r cynnig yn adran 35 i estyn yr amserlen erbyn pryd y mae'n rhaid i'r Cynulliad newydd gynnal ei gyfarfod cyntaf o saith diwrnod i bedwar diwrnod ar ddeg.

## Gweithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith

Pŵer Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynghylch etholiadau etc.

---

**524.** Mae adran 36 yn diwygio adran 13 o Ddeddf 2006 (pŵer Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau ynghylch etholiadau) i ychwanegu'r is-adrannau 1A – 1C newydd a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau (yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol) i roi effaith i newidiadau i'r gyfraith etholiadol a argymhellir gan Gomisiwn y Gyfraith ar gyfer Cymru a Lloegr. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, diben y pŵer yw sicrhau cysondeb rhwng y gyfraith sy'n gymwys i etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ac etholiadau llywodraeth leol. Bydd rheoliadau o dan adran 13 (1A) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynghylch etholiadau llywodraeth leol, yn ogystal ag etholiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol.<sup>440</sup>

**525.** Man cychwyn y prosiect i ddiwygio'r gyfraith etholiadol yw Rhaglen Diwygio'r Gyfraith Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr Rhif 11. Mae ei gwmpas, a bennwyd yn 2012, yn ymestyn i'r gyfraith, troseddau a heriau cyfreithiol o ran

---

<sup>438</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 25 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [272]

<sup>439</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE03, yr Athro Keith Bush QC

<sup>440</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Rhan 4: Nodiadau Esboniadol, paragraff 115

gweinyddu etholiadau. Cyhoeddwyd adroddiad interim ym mis Chwefror 2016.<sup>441</sup> Pwrpas yr argymhellion oedd symleiddio'r trefniadau gweinyddol sy'n ymwneud ag etholiadau ac i safoni'r trefniadau hynny ym mhedair rhan y DU (oni bai bod rheswm da dros ddilyn dull gwahanol, er enghraifft mewn perthynas â darpariaethau ieithyddol yng Nghymru neu oherwydd systemau etholiadol gwahanol).<sup>442</sup>

**526.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod ymarfer ymgynghori Comisiwn y Cynulliad wedi gofyn a ddylai'r ddeddfwriaeth i ddiwygio trefniadau etholiadol y Cynulliad Cenedlaethol weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith mewn perthynas â chynnal a gweinyddu etholiadau.<sup>443</sup> Gan adlewyrchu barn y mwyafrif, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol:

“Mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion i sicrhau bod etholiadau yng Nghymru yn cael eu gweinyddu mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r argymhellion ar gyfer gweinyddu etholiadau a gafodd eu gwneud gan Gomisiwn y Gyfraith.

Mae'r ddarpariaeth hon wedi'i drafftio er mwyn sicrhau

- na ellir defnyddio'r pŵer ond i roi effaith i argymhellion Comisiwn y Gyfraith mewn perthynas â rhesymoli'r gyfraith etholiadol; a
- bydd y pŵer yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.”<sup>444</sup>

**527.** Teimlai'r Llywydd fod y Bil yn gyfrwng addas i roi pwerau o'r fath:

“... when and if there are recommendations for reform on administrative arrangements, the powers are with Welsh Ministers to put those into effect. And this was seen at the time of introduction as a reasonable way of introducing this into primary legislation.”<sup>445</sup>

**528.** Croesawodd y Comisiwn Etholiadol gynnwys adran 36:

“... we certainly welcome in the Bill that you've added a provision that actually picks up the Law Commission recommendations we're looking at in due course. We think that's key for well-run elections across the

<sup>441</sup> Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr, Comisiwn y Gyfraith yr Alban a Chomisiwn y Gyfraith Gogledd Iwerddon, **Electoral law and interim report**, Chwefror 2016 (Saesneg yn unig)

<sup>442</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 633

<sup>443</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 68

<sup>444</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraffau 70-71

<sup>445</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [202]

UK, but certainly in Wales. It is essential, at some point and at some point soon, that those reforms are picked up and looked at, otherwise, the burden—you know, at some stage it topples over and it becomes impossible to run elections well. So, we think that is absolutely imminent now.”<sup>446</sup>

**529.** Roedd Capital Law yn cefnogi cynnwys adran 36 yn gyffredinol. Er gwaethaf rhai amheuan, cafodd ei galonogi oherwydd y mesurau diogelu arfaethedig sydd ar waith.<sup>447</sup>

**530.** Fodd bynnag, yn ei lythyr dyddiedig 13 Chwefror 2019, ar ôl cyflwyno'r Bil, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym nad yw “o'r farn ei bod yn briodol i barhau ymhellach ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith, na chreu disgwyliad amdanynt, fel hyn...”<sup>448</sup> Ychwanegodd y “dylid cyflwyno argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar gyfer diwygio cyfraith etholiadol neu unrhyw gyfraith, os cefnogir y rhain gan Lywodraeth Cymru, gan ddefnyddio deddfwriaeth sylfaenol o dan weithdrefnau wedi'u cyflymu”.<sup>449</sup>

**531.** Cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol y canlynol am argymhellion Comisiwn y Gyfraith:

“... those should be matters that are dealt with through the Assembly, perhaps on the basis of some kind of different procedure, but essentially those should be matters for primary law-making powers and consideration in the usual way.”<sup>450</sup>

**532.** Cadarnhaodd hefyd ei fwriad i gyflwyno gwelliannau i ddileu'r darpariaethau hyn yng Nghyfnod 2, a nododd “That's the intention. That's what I would like to see”.<sup>451</sup>

**533.** Roedd yr Athro Bush QC yn pryderu bod “ehangder y pwerau ychwanegol a fyddai'n cael eu rhoi i Weinidogion Cymru gan adran 36 yn ymddangos ei fod yn mynd tu hwnt i'r hyn sy'n cael ei weld yn gyfansoddiadol dderbyniol”. Dywedodd y

---

<sup>446</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [50]

<sup>447</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE10, Capital Law (Saesneg yn unig)

<sup>448</sup> Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol at y Cadeirydd, 13 Chwefror 2019

<sup>449</sup> Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol at y Cadeirydd, 13 Chwefror 2019

<sup>450</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [128]

<sup>451</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019, Cofnod y Trafodion [267]

“dylai newidiadau pwysig i’r gyfraith, yn enwedig mewn perthynas â chyfraith etholiadol, fod yn agored i graffu deddfwriaethol llawn”.<sup>452</sup>

**534.** Cytunodd Capital Law â’r pwynt hwn, gan dynnu sylw at y mater fel un o’i amheuron:

“...we share the concerns of Keith Bush QC of the apparent carte blanche right for Ministers to make these orders – query whether any important changes to electoral law (beyond those which are merely technical/ administrative) should be open to full legislative scrutiny?”<sup>453</sup>

**535.** Un arall o amheuron posibl Capital Law oedd y gallai’r pwerau fod yn ddiangen o gofio bod gan Weinidogion, mewn egwyddor, bŵer tebyg (o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) i weithredu unrhyw argymhellion gan y Comisiwn, er ei fod yn tueddu i gytuno â sylwadau yn y Memorandwm Esboniadol ynghylch manteision adran 36.<sup>454</sup>

**536.** Dywedodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol y byddai adran 36 yn golygu ychwanegu lefel arall o gymhlethdod i deddfwriaeth etholiadol sydd eisoes yn gymhleth ac y byddai hyn o bosib yn peri dryswch ymhlith pleidleiswyr a gweinyddwyr ac yn sgil hynny, cynyddu risg.<sup>455</sup>

**537.** Dywedodd yr Athro Awan-Scully y byddai deddfwriaeth y DU gyfan yn ddelfrydol i weithredu adroddiad 2016 Comisiwn y Gyfraith, a dynnodd sylw at yr anghysondebau rhwng rhannau gwahanol o’r DU a dywedodd wrthym nad yw’n gwbl amlwg sut y byddai rhoi pwerau i Weinidogion mewn un rhan o’r DU weithredu rhywfaint o hynny’n mynd yn eithaf pell ar hyd y math o drywydd roedd comisiynwyr y gyfraith yn sôn amdano.<sup>456</sup>

## Ein barn ni

**538.** Nodwn bryderon a godwyd gan rai tystion sy’n ymwneud â phwerau adran 36.

**539.** Rydym yn rhannu pryder y Cwnsler Cyffredinol ynglŷn â pha mor annymunol yw rhoi pwerau i Weinidogion Cymru fel y darperir ar ei gyfer yn adran 36.

---

<sup>452</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE03, yr Athro Keith Bush QC

<sup>453</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE10, Capital Law (Saesneg yn unig)

<sup>454</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE10, Capital Law (Saesneg yn unig)

<sup>455</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE14, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Saesneg yn unig)

<sup>456</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 25 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [266-267]

**540.** Rydym wedi rhybuddio'n gyson yn erbyn defnyddio is-ddeddfwriaeth i weithredu newidiadau polisi sylweddol.

**Argymhelliad 19.** Dylai'r Llywydd ddiwygio'r Bil i ddileu adran 36.

## Pwerau Comisiwn y Senedd

### Comisiwn y Senedd

---

**541.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod adran 37 o'r Bil yn egluro y caiff Comisiwn y Cynulliad godi tâl am wasanaethau (yn ogystal â nwyddau) nad ydynt yn ymwneud â chyflawni ei ddyletswyddau<sup>457</sup>. Mae'n nodi bod angen eglurhad gan fod y darpariaethau presennol yn Neddf 2006 yn:

“... amwys, gan eu bod yn cyfeirio at werthu nwyddau a darparu gwasanaethau (yn hytrach na'u gwerthu). O ganlyniad, nid yw'n glir a yw'r Cynulliad yn gallu codi tâl am wasanaethau nad ydynt yn ymwneud â chyflawni ei swyddogaethau, er enghraifft ffilmio ar ystâd y Cynulliad.”<sup>458</sup>

**542.** Yn ôl yr Athro Bush QC, bydd adran 27 yn “yn dileu unrhyw amheuaeth am sail cyfreithiol gweithgarwch sydd, wrth gwrs, eisoes yn digwydd i raddau a, thrwy hynny, yn rhyddhau'r Comisiwn i ddatblygu'r gweithgarwch hynny”. Fodd bynnag, mae'n nodi y dylai hyn fod “o fewn ffiniau synhwyrol, fel bydd angen”.<sup>459</sup> Eglurodd mai ystyr ffiniau synhwyrol yw:

“... a boundary needs to be put between the things that are appropriate and the things that are not ... The things that are appropriate don't have to be very closely and directly connected with the work of the Assembly, it seems to me, provided that they don't undermine the work of the Assembly and they help to contribute towards the cost of maintaining the institution and thereby take the burden, to some extent, off the taxpayer.”<sup>460</sup>

## Ein barn ni

**543.** Rydym yn cefnogi'r eglurhad o'r gyfraith yn gyffredinol, ac felly'n croesawu'r eglurhad y mae adran 37 yn ei roi i baragraff 4 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006 mewn

---

<sup>457</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 82

<sup>458</sup> Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 80

<sup>459</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, SE03, yr Athro Keith Bush QC

<sup>460</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 25 Mawrth 2019, Cofnod y Trafodion [208]

perthynas â gallu Comisiwn y Cynulliad i godi tâl am ddarparu nwyddau a gwasanaethau.